# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 17 a 31 Mawrth 2005

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

27 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

46 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

55 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

63 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

90 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Carcharu heb Achos Llys a Chyfyngu Pobl i'w Tai

**Nick Bourne:** A yw'r Prif Weinidog wedi cael unrhyw drafodaethau ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru neu unrhyw aelod o'r Cabinet yn San Steffan am gynlluniau ar gyfer carcharu heb achos llys a chyfyngu pobl i'w tai, ac os ydyw, a wnaiff roi manylion y trafodaethau, ac os nad ydyw, a yw'n bwriadu codi'r mater hwn? (WAQ41910)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Nac ydwyf.

### Staff Llywodraeth Cynulliad Cymru (Lleoliadau y Tu Allan i Gaerdydd)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o bobl sy'n gweithio i Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn lleoliadau y tu allan i Gaerdydd, gan nodi'r lleoliad? (WAQ41911)

**Y Prif Weinidog:** Mae nifer y staff sy'n gweithio i Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn lleoliadau y tu allan i Gaerdydd fel a ganlyn:

| Lleoliad | Staff |
|---|---|
| Aberystwyth | 76 |
| Aberaeron | 6 |
| Castell Biwmares | 2 |
| Blaenafon | 4 |
| Aberhonddu | 8 |
| Caerffili | 34 |
| Caerllion | 3 |
| Caernarfon | 166 |
| Castell Caernarfon | 10 |
| Castell Caerffili | 8 |
| Caerfyrddin | 173 |
| Castell Cas-gwent | 4 |
| Castell Coch | 5 |
| Bae Colwyn | 42 |
| Castell Conwy | 4 |
| Crucywel | 14 |
| Cwm Cynon | 41 |
| Dinbych | 1 |
| Dinefwr | 1 |
| Dolgellau | 5 |
| Fairway Court, Trefforest | 26 |
| Y Fflint | 1 |
| Castell Harlech | 2 |
| Hwlffordd | 15 |
| Hensol | 1 |
| Gartref | 13 |
| Cydweli | 3 |

| | |
|---|---|
| Llandyfái | 5 |
| Talacharn | 3 |
| Llandrindod | 145 |
| Machynlleth | 38 |
| Mamheilad | 53 |
| Yr Wyddgrug | 38 |
| Trefaldwyn | 4 |
| Nantgarw | 152 |
| Castell-nedd | 6 |
| Y Drenewydd | 6 |
| Oxwich | 1 |
| Penllergaer | 1 |
| Plas Mawr | 2 |
| Rhaglan | 6 |
| Rhuddlan | 2 |
| Llanelwy | 21 |
| Ystrad Fflur | 1 |
| Abertawe | 46 |
| Tyndyrn | 7 |
| Tor-faen | 14 |
| Cwrt Tretwr | 2 |
| Glyn-y-groes | 1 |
| Y Trallwng | 8 |
| Castell Gwyn | 1 |
| Brwsel | 7 |
| Efrog Newydd | 3 |
| Chicago | 1 |
| San Francisco | 1 |
| Singapôr | 1 |
| Tokyo | 1 |
| Dubai | 1 |
| Cyfanswm | 1,246 |

**Nifer sy'n Gweithio i Lywodraeth Cynulliad Cymru**

**Nick Bourne:** Faint o bobl oedd yn gweithio i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mhob lleoliad bob blwyddyn ers 1999? (WAQ41912)

**Y Prif Weinidog:** Manylir isod ar nifer y staff a fu'n gweithio i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mhob lleoliad bob blwyddyn er 1999. Tynnwyd y wybodaeth o system technoleg gwybodaeth flaenorol y Cynulliad ar gyfer adnoddau dynol, oedd yn categoreiddio rhai lleoliadau yn wahanol i'r system bresennol. Mae'r ffigurau a roddir isod yn cynrychioli'r ffigurau staffio ar gyfartaledd yn ystod y blynyddoedd dan sylw.

| Lleoliad | 1999 | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Aberystwyth | 0 | 0 | 72 | 75 | 69 |
| Castell Biwmares | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 |
| Amffitheatr Caerllion | 4 | 3 | 4 | 3 | 4 |
| Caernarfon | 141 | 135 | 149 | 134 | 124 |
| Castell Caernarfon | 6 | 6 | 5 | 4 | 7 |
| Castell Caerffili | 3 | 3 | 3 | 4 | 5 |
| Ty Caradog | 2 | 2 | 3 | 4 | 3 |
| Bae Caerdydd* | 85 | 85 | 85 | 90 | 95 |
| Caerfyrddin | 163 | 158 | 165 | 161 | 139 |
| Castell Coch | 6 | 5 | 6 | 6 | 6 |
| Castell Cas-gwent | 3 | 3 | 4 | 4 | 3 |
| Bae Colwyn | 25 | 28 | 30 | 29 | 30 |
| Castell Conwy | 3 | 4 | 4 | 3 | 7 |
| Parc Cathays 1 | 161 | 187 | 195 | 204 | 217 |
| Parc Cathays 2 | 1,806 | 2,144 | 2,277 | 2,582 | 2,572 |
| Castell Criccieth | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Crucywel (CADW)# | 68 | 70 | 70 | 68 | 64 |
| Arglawdd Curran | 4 | 5 | 4 | 4 | 4 |
| Cwm Cynon | | | | 1 | 1 |
| Ewlo, gogledd Cymru | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 |
| Ffynnon Las | 53 | 54 | 52 | 61 | 57 |
| Castell Harlech | 2 | 2 | 2 | 2 | 4 |
| Castell Cydweli | 2 | 2 | 3 | 2 | 4 |
| Castell Talacharn | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Llandrindod | 179 | 180 | 180 | 165 | 149 |
| Castell Oxwich | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Plasmawr | 2 | 1 | 1 | 2 | 2 |
| Castell Rhaglan | 2 | 3 | 2 | 3 | 3 |
| Castell Rhuddlan | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Capel Rhug | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Rhuthun | 4 | 3 | 5 | 5 | 4 |
| Ty Southgate | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Palas yr Esgob Tyddewi | 1 | 1 | 3 | 3 | 3 |
| Abaty Ystrad Fflur | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Abertawe | 6 | 5 | 6 | 6 | 7 |
| Abaty Tyndyrn | 3 | 4 | 5 | 5 | 6 |
| Cwrt Tretwr | 2 | 1 | 2 | 2 | 3 |
| Abaty Glyn-y-groes | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Castell Gwyn | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| CYFANSWM | 2,757 | 3,115 | 3,358 | 3,653 | 3,613 |

* Nid oedd y system yn gwahaniaethu rhwng staff Swyddfa'r Llywydd/Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a staff Llywodraeth Cynulliad Cymru. O ganlyniad, brasamcanion yw niferoedd staff Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyflogir ym Mae Caerdydd rhwng 1999 a 2004.

# Staff diwydiannol i gyd wedi'u cofnodi fel pe baent wedi'u lleoli yng Nghrucywel. Yn y tabl isod am 2004, dangosir y staff gyferbyn â'u safleoedd gwirioneddol.

Wedi'i seilio ar wybodaeth o gronfa ddata adnoddau dynol y dechnoleg gwybodaeth gyfredol:

| Lleoliad | 2004 |
|---|---|
| Aberystwyth | 76 |
| Aberaeron | 6 |

| | |
|---|---|
| Bae Caerdydd | 99 |
| Castell Biwmares | 2 |
| Blaenafon | 4 |
| Aberhonddu | 8 |
| Caerffili | 34 |
| Caerllion | 3 |
| Caernarfon | 166 |
| Castell Caernarfon | 10 |
| Castell Caerffili | 8 |
| Caerfyrddin | 173 |
| Caerdydd (Ty Caradog) | 6 |
| Caerdydd (Ffynnon Las) | 105 |
| Caerdydd (Neptune Point) | 8 |
| Caerdydd (Ty Southgate) | 7 |
| Caerdydd (Tremorfa) | 20 |
| Castell Cas-gwent | 4 |
| Castell Coch | 5 |
| Bae Colwyn | 42 |
| Castell Conwy | 4 |
| CP1 | 208 |
| CP2 | 2,120 |
| Crucywel | 14 |
| Cwm Cynon | 41 |
| Dinbych | 1 |
| Dinefwr | 1 |
| Dolgellau | 5 |
| Fairway Court, Trefforest | 26 |
| Y Fflint | 1 |
| Castell Harlech | 2 |
| Hwlffordd | 15 |
| Hensol | 1 |
| Gartref | 13 |
| Cydweli | 3 |
| Llandyfâi | 5 |
| Talacharn | 3 |
| Llandrindod | 145 |
| Machynlleth | 38 |
| Mamheilad | 53 |
| Yr Wyddgrug | 38 |
| Trefaldwyn | 4 |
| Nantgarw | 152 |
| Castell-nedd | 6 |

| | |
|---|---|
| Y Drenewydd | 6 |
| Oxwich | 1 |
| Penllergaer | 1 |
| Adeilad y Pierhead | 5 |
| Plas Mawr | 2 |
| Rhaglan | 6 |
| Rhuddlan | 2 |
| Llanelwy | 21 |
| Ystrad Fflur | 1 |
| Abertawe | 46 |
| Tyndyrn | 7 |
| Tor-faen | 14 |
| Cwrt Tretwr | 2 |
| Glyn-y-groes | 1 |
| Y Trallwng | 8 |
| Castell Gwyn | 1 |
| Brwsel | 7 |
| Efrog Newydd | 3 |
| Chicago | 1 |
| San Francisco | 1 |
| Singapôr | 1 |
| Tokyo | 1 |
| Dubai | 1 |
| Cyfanswm | 3,824 |

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

### Theatr Brycheiniog

**Lisa Francis:** Neilltuwyd £1.160 miliwn o arian cyfalaf i'w fuddsoddi mewn theatrau, ond faint o'r arian hwnnw a roddir i Theatr Brycheiniog fesul blwyddyn dros y tair blynedd nesaf? (WAQ42094)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae'r £1.16 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf mewn theatrau ar gyfer blwyddyn ariannol 2005-06. Mater i Gyngor Celfyddydau Cymru yw penderfynu sut i rannu'r gronfa i gyrff unigol.

### Y Gyllideb ar gyfer y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd

**Lisa Francis:** Faint o'r arian sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer y celfyddydau y tu allan i Gaerdydd, sef £1 miliwn, a neilltuwyd yn 2005-06 ar gyfer Theatr Brycheiniog? (WAQ42095)

**Alun Pugh:** Nid oes penderfyniadau manwl ar sut i rannu'r arian yn y gyllideb ar gyfer y celfyddydau y tu allan i Gaerdydd wedi cael eu gwneud eto.

### Y Fenter Nofio am Ddim ar gyfer Pobl Hŷn

**Lisa Francis:** Faint o arian a neilltuwyd yn y gyllideb i'w wario ar y fenter nofio am ddim ar gyfer pobl hŷn? (WAQ42102)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi buddsoddi £1.356 miliwn o arian refeniw a chyfalaf yn y peilot nofio am ddim i'r rhai sy'n 60 oed a throsodd ym mlwyddyn ariannol 2004-05. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i ddatblygu'r peilot, a bwriadwn fuddsoddi £4 miliwn pellach dros y tair blynedd ariannol nesaf i ddarparu nofio am ddim i bobl 60 oed a throsodd.

### Y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol

**Lisa Francis:** Beth yw cylch gwaith a diben y grŵp amgylchedd hanesyddol? (WAQ42136)

**Lisa Francis:** Pryd oedd cyfarfod diwethaf y grŵp amgylchedd hanesyddol ac a oes adroddiad, cofnodion ac agenda ar gael ar gyfer y cyfarfod hwnnw ac unrhyw gyfarfodydd blaenorol? (WAQ42138)

**Alun Pugh:** Cynhaliodd y grwp amgylchedd hanesyddol ei ail gyfarfod ar 4 Chwefror. Yr wyf wedi gwneud trefniadau ichi gael copi o'r cofnodion ac agenda'r cyfarfod hwnnw a chyfarfod cyntaf y grwp. Byddwn yn gwneud yn siwr hefyd eich bod yn cael copi o'r cylch gorchwyl, y mae'r grwp wedi cytuno arno.

### Nifer yr Adeiladau sydd wedi'u Cofrestru â Statws Hanesyddol

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer yr adeiladau sydd wedi'u cofrestru â statws hanesyddol yng Nghymru a pha rai sydd wedi'u nodi fel adeiladau sydd mewn perygl? (WAQ42137)

**Alun Pugh:** Ar hyn o bryd mae rhyw 28,000 o adeiladau rhestredig o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, a disgwylir i'r nifer gynyddu i oddeutu 30,000 ar ôl cwblhau arolwg Cymru gyfan, sydd i fod i ddod i ben erbyn diwedd y flwyddyn. Mae gan yr awdurdodau lleol gyfrifoldebau yn nhermau'r adeiladau rhestredig yn eu hardal, ac mae'r mwyafrif wedi paratoi cofrestri 'mewn perygl' gyda grant oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad.

### CADW a CYMAL

**Lisa Francis:** Ar ôl uno'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad â'r Llywodraeth, a fydd lle i CADW a CyMAL ar y bwrdd diwylliant? (WAQ42143)

**Lisa Francis:** A oes unrhyw gynlluniau i gael cynrychiolaeth ar ran CADW a CyMAL ar y bwrdd diwylliant? (WAQ42205)

**Alun Pugh:** Mae CADW a CyMAL yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru a bydd ganddynt yr un rôl gynghori mewn perthynas â'r bwrdd diwylliant ag is-adrannau eraill Llywodraeth y Cynulliad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Hybu Ardaloedd Twristaidd

**Nick Bourne:** Pa gymorth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi i hybu ardaloedd Rhaeadr a chwm Elan ym Mhowys fel ardaloedd twristaidd? (WAQ41864)

**Nick Bourne:** Pa gymorth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi tuag at hyrwyddo twristiaeth yn Abergwaun? (WAQ41891)

**Nick Bourne:** Pa gymorth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei roi tuag at hyrwyddo twristiaeth yn Nhyddewi, sir Benfro? (WAQ41892)

**Nick Bourne:** Pa gymorth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei roi tuag at hyrwyddo twristiaeth yng Ngheredigion? (WAQ41893)

**Nick Bourne:** Pa gymorth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei roi tuag at hyrwyddo twristiaeth yn Nhrefdraeth, sir Benfro? (WAQ41894)

**Nick Bourne:** Pa gymorth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei roi tuag at hyrwyddo twristiaeth ym Mhowys? (WAQ41898)

**Nick Bourne:** Pa gymorth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei roi tuag at hyrwyddo twristiaeth yn sir Gaerfyrddin? (WAQ41899)

**Nick Bourne:** Pa gymorth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei roi tuag at hyrwyddo twristiaeth yng Ngwynedd? (WAQ41900)

**Nick Bourne:** Pa gymorth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei roi tuag at hyrwyddo twristiaeth yn y parciau cenedlaethol? (WAQ41901)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Mae Bwrdd Croeso Cymru, gyda chymorth y lefelau uchaf erioed o arian, yn marchnata Cymru gyfan o fewn y DU a thramor drwy amrywiaeth eang o fentrau ac ymgyrchoedd marchnata. Mae hefyd yn darparu rhyw £3.5 miliwn y flwyddyn i'r partneriaethau twristiaeth rhanbarthol er mwyn helpu i ddatblygu a hyrwyddo twristiaeth ar lefel fwy lleol drwy roi strategaethau twristiaeth rhanbarthol ar waith.

### Diogelwch ar y Ffyrdd yn ystod Sioe Frenhinol Amaethyddol Cymru

**Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i reoleiddio’r traffig a sicrhau diogelwch ar y ffyrdd ar gyfer defnyddwyr ffyrdd a cherddwyr yn ystod Sioe Frenhinol Amaethyddol Cymru yn 2005? (WAQ41867)

**Andrew Davies:** Mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda threfnwyr y sioe, y cyngor sir a'r heddlu ers blynyddoedd lawer mewn ymgais i sicrhau bod holl ddefnyddwyr y ffyrdd mor ddiogel â phosibl yn ystod y sioe. Bydd y lefel uchel hon o gyswllt yn parhau. Ar gyfer sioe 2005, ar hyn o bryd yr ydym yn disgwyl gosod nifer o orchmynion cyfyngu cyflymder dros dro ar y cefnffyrdd sy'n arwain i Lanfair-ym-Muallt. Byddwn yn gweithio unwaith eto i ddarparu'n ddiogel ar gyfer y bompren dros dro dros yr A483, sy'n cael ei chodi gan drefnwyr y sioe. Yr ydym wedi cytuno y byddwn yn ceisio darparu safleoedd priodol ar ymylon yr A470 ar gyfer unrhyw gêr goleuadau dros dro y bydd trefnwyr y sioe yn tybio ei bod yn briodol eu codi efallai. Yng ngoleuni'r ddamwain drasig y llynedd, yr ydym hefyd yn bwriadu rhoi arwydd electronig dros dro gyda neges y mae modd ei newid arno ar ffordd ddynesu'r A470 o Gwm-bach i rybuddio modurwyr y gallai fod cerddwyr ar y ffordd.

### Arwyddion Priodol

**Nick Bourne:** A yw’r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau â Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch gosod arwyddion ffyrdd ar gyfer Trefyclo, Llanandras a’r Gelli Gandryll ar gefnffyrdd yn Lloegr, ac, os ydyw, a wnaiff roi’r manylion, ac, os nad ydyw, a wnaiff drafod y mater gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod arwyddion priodol yn cael eu gosod? (WAQ41868)

**Andrew Davies:** Na wnaf. Cyfrifoldeb yr Asiantaeth Briffyrdd yw gosod arwyddion ar gefnffyrdd yn Lloegr. Os yw'r awdurdod traffig lleol—Cyngor Sir Powys yn yr achos hwn—yn pryderu am y diffyg arwyddion ar gyfer Trefyclo, Llanandras a’r Gelli Gandryll, dylai godi ei bryderon yn uniongyrchol

gyda'r asiantaeth. Cyngor Sir Powys fyddai'n gyfrifol am sicrhau bod yr arwyddion yn parhau ar y rhwydwaith ffyrdd lleol ac am eu hariannu.

**Twristiaeth Seiclo**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar dwristiaeth seiclo yng Nghymru? (WAQ41869)

**Andrew Davies:** Mae strategaeth Bwrdd Croeso Cymru ar dwristiaeth seiclo, 'Stepping up a Gear', yn datblygu marchnad i ddiwallu'r galw cynyddol am y gweithgaredd hwn. Mae'r amcangyfrifon cyfredol yn awgrymu bod twristiaeth seiclo yn werth tua £18 miliwn i Gymru, ond os cyrhaeddir y targedau yn strategaeth y bwrdd croeso gallai hyn gynyddu i fwy na £34 miliwn erbyn 2007.

**Cyflog Cyfartalog Gweithwyr yng Nghymru**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog nodi cyflog cyfartalog gweithwyr yng Nghymru, ar gyfer dynion a menywod, bob blwyddyn ers 1999? (WAQ41871)

**Andrew Davies:** Rhoddir y wybodaeth yn y tabl.

**Enillion Wythnosol Amser Llawn yng Nghymru ar Gyfartaledd (£ yr wythnos)**

| Blwyddyn | Dynion | Menywod | Pobl |
|---|---|---|---|
| 1999 | 391.9 | 300.5 | 358.7 |
| 2000 | 407.1 | 315.3 | 372.8 |
| 2001 | 417.9 | 328.7 | 385.8 |
| 2002 | 441.2 | 345.6 | 405.2 |
| 2003 | 457.6 | 361.3 | 421.8 |
| 2004 | 483.6 | 379.6 | 444.7 |
| 2004* | 480.4 | 377.4 | 441.7 |

Ffynhonnell: arolwg blynyddol o oriau ac enillion.
* Amcangyfrif amgen, yn cynnwys gwybodaeth atodol a gasglwyd am y tro cyntaf yn 2004.

**Ynni Adnewyddadwy**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ynni adnewyddadwy a'i chanfyddiad mai gwynt yw'r ffordd ddrutaf o ariannu gostyngiadau mewn gollyngiadau carbon ym Mhrydain? (WAQ41873)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn croesawu'r adroddiad, oedd yn cynnwys llawer o sylwadau cadarnhaol am gefnogi ynni adnewyddadwy. Ar hyn o bryd pwer gwynt yw'r unig dechnoleg sydd ar gael ar raddfa economaidd a'r pwer hwn fydd yn darparu'r rhan fwyaf o'r twf gofynnol mewn ynni adnewyddadwy i gwrdd â tharged 2010. Nid yw cost cefnogi ynni adnewyddadwy, ac ynni gwynt yn arbennig, yn ddim ond canran fach o'n biliau trydan o safbwynt yr amgylchedd a'n heconomi i'r dyfodol.

**Adroddiad Asiantaeth Ynni Llywodraeth yr Almaen**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar adroddiad asiantaeth ynni llywodraeth yr Almaen a'r datganiad bod ffermydd gwynt yn ffordd gostus o leihau nwyon tŷ gwydr? (WAQ41874)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn ymwybodol o'r adroddiad, er nad wyf eto wedi gweld copi ohono. Yn nhermau mynd i'r afael â pha mor gost-effeithiol yw ffermydd gwynt o ran gostwng lefel carbon deuocsid, fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ41873. Ar hyn o bryd pwer gwynt yw'r unig dechnoleg adnewyddadwy sy'n barod i'w hehangu, sy'n ddichonadwy yn fasnachol ac ar gael i ddarparu'r rhan fwyaf o'r twf gofynnol mewn ynni adnewyddadwy i gwrdd â tharged 2010. Mae cost cefnogi ynni

adnewyddadwy, ac ynni gwynt yn arbennig, yn fach yn nghyd-destun yr amgylchedd a'n heconomi i'r dyfodol.

**Prosiectau sydd wedi Elwa o Arian Amcan Un**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog restru’r prosiectau sydd wedi elwa o arian Amcan 1 yng Ngwynedd, gan nodi’r swm a nifer y swyddi a grewyd ym mhob achos, ac a yw’r swyddi’n rhai amser llawn neu ran-amser? (WAQ41879)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog restru’r prosiectau sydd wedi elwa o arian Amcan 1 yng Ngheredigion, gan nodi’r swm a nifer y swyddi a grewyd ym mhob achos, ac a yw’r swyddi’n rhai amser llawn neu ran-amser? (WAQ41880)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog restru’r prosiectau sydd wedi elwa o arian Amcan 1 yn sir Benfro, gan nodi’r swm a nifer y swyddi a grewyd ym mhob achos, ac a yw’r swyddi’n rhai amser llawn neu ran-amser? (WAQ41881)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog restru’r prosiectau sydd wedi elwa o arian Amcan 1 yn sir Gaerfyrddin, gan nodi’r swm a nifer y swyddi a grewyd ym mhob achos, ac a yw’r swyddi’n rhai amser llawn neu ran-amser? (WAQ41882)

**Andrew Davies:** Ar gyfer ardal pob un o'r awdurdodau lleol a enwyd yn y WAQs, mae'r tabl sydd ynghlwm yn darparu rhestr o'r holl brosiectau sy'n cael nawdd Amcan 1 a gefnogwyd gan bartneriaethau lleol Amcan 1 mewn ardaloedd oedd â thargedau creu swyddi fel rhan o'u cynnig grant, a nifer y swyddi sydd wedi cael eu creu hyd yma yn ardaloedd y partneriaethau lleol hynny—nid yw swyddi a grëwyd yn ardaloedd partneriaethau lleol eraill wedi'u cynnwys. Nid yw'r ffigurau hyn yn adlewyrchu prosiectau a swyddi a grëwyd gan brosiectau rhanbarthol sy'n cwmpasu'r cyfan neu ran o ardal Amcan 1. Dylid nodi bod rhai prosiectau wedi cael eu cymeradwyo nifer o flynyddoedd yn ôl efallai, tra nad yw eraill ond wedi cael eu cymeradwyo'n ddiweddar ac nad ydynt efallai yn rhoi gwybod am eu canlyniadau eto. Mae'n ofynnol i brosiectau adrodd yn erbyn targedau creu swyddi yn nhermau swyddi cyfwerth ag amser llawn, nid ar ffurf swyddi amser llawn neu ran-amser.

Mae cyfanswm y swyddi a grëwyd wedi'i lunio o'r canlyniadau isod:

- nifer y swyddi uniongyrchol newydd crynswth;
- nifer y swyddi anuniongyrchol newydd crynswth;
- nifer y swyddi newydd crynswth mewn uwch dechnoleg;
- nifer y swyddi newydd crynswth ym maes prosesu bwyd;
- nifer y swyddi newydd crynswth mewn prosiectau o dan arweiniad y gymuned a mentrau cymunedol; a
- dwy ran o dair o'r swyddi a ddiogelwyd.

Nid yw'r canlyniadau o ran nifer y swyddi anuniongyrchol newydd crynswth yn cael eu hadrodd yn ofodol. Caiff y swyddi hyn eu priodoli i ardaloedd awdurdodau lleol ar sail y bartneriaeth sy'n arwain pob prosiect.

**Swyddi a oedd wedi'u creu yn Sir Gaerfyrddin erbyn 31 Ionawr 2005**

| **Teitl y Prosiect** | **Grant prosiect** | **Cost lawn y prosiect** | **Swyddi a grëwyd** |
|---|---|---|---|
| Canolfan Datblygu Busnes Gwledig, Caerfyrddin | £458,351 | £1,118,286 | 80 |
| Rhaglen Datblygu Gallu ar gyfer Fforymau Ardal/ Partneriaethau Cymunedol | £214,200 | £510,000 | 3 |
| Tournet Sir Gaerfyrddin | £443,622 | £887,244 | 34 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| MCP—canolfan parc | £404,000 | £1,770,000 | - |
| Cronfa Allweddol Datblygu Cymunedol (Ardal Llanelli) | £800,165 | £1,190,207 | 66 |
| Rhaglen Cist Gymunedol Sir Gaerfyrddin | £1,719,806 | £2,697,238 | 130 |
| Cyfieithwyr Cymunedol | £122,986 | £312,024 | 11 |
| Cyfieithwyr Cymunedol | £265,837 | £429,000 | 18 |
| Cynaliadwyedd ar Waith | £60,000 | £122,671 | 1 |
| Canolfan Adnoddau Cymunedol Gwendraeth | £29,679 | £51,679 | 16 |
| Ailddatblygu'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol—Adfywio drwy Dreftadaeth | £350,000 | £1,765,747 | - |
| Menter Ailgylchu Amgylcheddol | £528,386 | £997,144 | 7 |
| Cynllun Lliniaru Llifogydd Llanymddyfri | £470,839 | £1,358,200 | - |
| Addysg o blaid Cynaliadwyedd | £117,695 | £243,221 | 1 |
| Hyrwyddo Busnesau Cymunedol yn Sir Gaerfyrddin Wledig | £170,100 | £485,000 | 1 |
| Menter y Trefi a'r Pentrefi Strategol | £950,000 | £5,861,000 | 3 |
| Safleoedd ac Eiddo ar gyfer Canolfannau Twf Gwledig | £450,000 | £2,300,000 | - |
| SAVER'S Friend—Undeb Credyd Llanelli a'r Cylch | £72,089 | £180,674 | 3 |
| Cronfa Thematig a Gwasanaethau Gwledig | £525,000 | £1,249,706 | 3 |
| Cam 1 y Gronfa Thematig a Gwasanaethau Gwledig | £525,000 | £1,219,706 | 3 |
| Datblygu Papurau Bro | £189,961 | £452,289 | 18 |
| Datblygu Mentrau Cymunedol | £942,484 | £1,481,894 | 51 |
| Rhaglen Ddatblygu Parc Coetir Mynydd Mawr | £217,484 | £463,028 | 3 |
| Tywys—Celfyddydau yn y Cwm | £68,350 | £170,950 | 1 |
| Cynllun Grant Cymorth Busnes | £1,252,844 | £3,477,750 | 176 |
| Mentrau Cymunedol ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy | £132,632 | £331,580 | 14 |
| Consortiwm Busnesau Bach a Chanolig eu Maint ym maes Gofal Cymdeithasol | £344,255 | £778,154 | 2 |
| Menter Beicio Mynydd Coedwig Brechfa—Cam 1 | £240,311 | £511,750 | - |
| Yr Adnodd Gwledig | £201,022 | £402,043 | - |
| Adfer Plasty Aberglasne | £296,000 | £1,160,860 | - |
| Clwstwr Rhwydwaith Arloesi Gwledig | £236,437 | £472,875 | - |
| Safleoedd ac Eiddo Sir Gaerfyrddin | £2,512,000 | £30,241,000 | - |
| Llwybrau Strategol Afonydd Teifi/Tywi/Arfordir Caerfyrddin | £258,333 | £550,000 | - |
| Partneriaeth dros Weithredu Cymunedol | £3,028,263 | £5,555,399 | - |
| Systemau Gwybodaeth Cymunedol | £127,521 | £180,475 | - |
| Partneriaeth dros Weithredu Cymunedol | £900,000 | £3,299,900 | - |
| Y Ddraig Gudd | £1,386,116 | £2,263,795 | - |
| Rhaglen Wella Parc Gwledig Llyn Llech Owain | £320,133 | £681,576 | - |
| Hyrwyddo Busnes a Chymorth Marchnata | £89,687 | £264,255 | 24 |

**Swyddi a oedd wedi'u creu yng Ngheredigion erbyn 31 Ionawr 2005**

| **Teitl y Prosiect** | **Grant prosiect** | **Cost lawn y prosiect** | **Swyddi a grëwyd** |
|---|---|---|---|
| Cymorth i Ddatblygu Economaidd Lleol yn Ngheredigion | £129,800 | £303,000 | 4 |
| Grantiau Busnes Ceredigion | £87,500 | £350,000 | 47 |
| Datblygu Busnesau Bach a Chanolig Cystadleuol Hyfforddiant a Chyngor ar Ddatblygu Cynaliadwy | £16,000 | £32,000 | 1 |
| Ymchwil, Arloesi, Creadigrwydd a Menter: Prosiect RICE | £219,603 | £524,587 | 52 |
| Gwasanaeth Cymorth i Gynhyrchwyr (Bwyd a Chrefftau) | £211,678 | £423,356 | 56 |
| Llwybr Arfordir Ceredigion / Bae Ceredigion | £234,943 | £501,622 | 1 |
| Prosiectau Datblygu Theatr Mwldan | £1,600,000 | £7,690,629 | 8 |
| Constitution Hill | £200,000 | £444,000 | 6 |
| Prosiect Datblygu Cymunedol Llandysul | £52,819 | £106,639 | 6 |
| Canolfan Dreftadaeth Llangrannog | £438,000 | £1,420,933 | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymunedau'r Dyfodol | £174,000 | £474,000 | 3 |
| Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion | £72,654 | £96,872 | 1 |
| Parc Technoleg Aberporth Cam 1 | £1,623,582 | £4,388,060 | - |
| Cynllun Gwella Bioamrywiaeth Ceredigion | £99,873 | £208,069 | 2 |
| Prosiect Adfywio Cei Newydd 1 | £164,833 | £296,489 | 2 |
| Prosiect Trydaneiddio Cwm Brefi | £143,900 | £298,900 | 2 |
| Llwybr Ystwyth | £625,000 | £1,410,000 | - |
| Llanerchaeron Cam 4 | £683,285 | £1,453,553 | 9 |
| Prosiect Datblygu Cynaliadwy Nant yr Arian | £334,786 | £757,849 | - |
| Grantiau Cychwyn Ceredigion i Gwmnïau Bach | £117,000 | £480,000 | 67 |
| Menter Twristiaeth Safonol Ceredigion | £286,500 | £612,067 | 2 |
| Unedau Busnes Parod Parc Teifi | £271,200 | £678,000 | - |
| Technium Aberystwyth | £882,054 | £1,696,271 | - |
| Canolfan Greadigrwydd a Gwyliau Addysgol Waunifor | £97,110 | £334,273 | 1 |
| Pafiliwn Pantyfedwen: Catalydd i Adfywio | £857,836 | £1,757,836 | - |
| Dysgu Integredig ym maes Twristiaeth | £79,788 | £180,355 | - |
| Telynau Teifi | £709,515 | £1,628,544 | 3 |
| Dim Pen y Daith | £1,406,086 | £2,593,652 | 6 |
| Parc Technoleg Aberporth Cam 1B | £666,666 | £1,808,685 | - |
| Canolfan Gymunedol Edward Richard | £356,199 | £537,903 | - |
| Castell Aberteifi—Datgloi'r Potensial | £44,000 | £107,000 | - |
| Cynllun Treftadaeth Treflun Tregaron | £240,051 | £708,970 | 1 |
| Ail-greu Balchder yn Aberteifi | £805,217 | £2,800,727 | - |
| Gwasanaethau a Chyfleusterau Ymchwil a Datblygu Ychwanegol i Fusnesau Bwyd Lleol | £1,560,857 | £3,063,976 | - |
| Grantiau Busnes Ceredigion 2 | £273,000 | £1,092,000 | - |
| Unedau Deor yng Nghanolfan Fwyd Cymru | £368,080 | £920,200 | - |

**Swyddi a oedd wedi'u creu yng Ngwynedd erbyn 31 Ionawr 2005**

| **Teitl y Prosiect** | **Grant prosiect** | **Cost lawn y prosiect** | **Swyddi a grëwyd** |
|---|---|---|---|
| Pecyn Datblygu Busnes | £731,500 | £1,463,000 | 305 |
| Adfywio Cymunedol drwy Gwmnïau Cydweithredol | £69,619 | £139,238 | 26 |
| Cyswllt Busnes a Mwy (Gogledd-orllewin Cymru) | £5,210,056 | £10,602,476 | 791 |
| Canolfan Sgiliau'r Faenol | £155,742 | £365,346 | 9 |
| Comisiwn Digwyddiadau Gwynedd | £960,000 | £4,102,376 | 10 |
| Canolfan Groeso Glanllyn | £206,000 | £796,424 | 7 |
| Canolfan Uwch Dechnoleg Meddalwedd – Datblygiad Clwstwr Meddalwedd | £8,000,473 | £15,711,223 | - |
| Peilot Menter Wledig Melin y Cim | £102,754 | £346,168 | - |
| Canolfan Mentrau Creadigol, Caernarfon | £361,648 | £904,122 | - |
| Canolfan Mentrau Creadigol, Caernarfon | £942,618 | £4,063,407 | 5 |
| Croeso Cymraeg mewn Busnes | £109,720 | £260,896 | 8 |
| Cwlwm Iaith—Ymlaen â'r Gymraeg yn y Gymuned | £242,333 | £342,896 | 2 |
| Adwy Cyf: Cam 11a | £195,471 | £528,300 | - |
| Adwy Cyf: Cam 11b | £282,182 | £691,750 | - |
| Cronfa Allweddol Gwynedd | £420,000 | £870,000 | - |
| Canolfan Gymunedol Abermaw a Theatr y Ddraig | £243,897 | £375,427 | 2 |
| Parc Busnes Tywyn a Pharc Menter y Bala | £461,366 | £1,244,000 | - |
| MAAG—Menter Arloesi Amaethyddol Gwynedd (Cam 1) | £1,242,505 | £2,618,980 | 1 |
| Pecyn Datblygu Busnes Gwynedd—Cam II | £731,500 | £2,753,890 | 133 |
| Canolfan Datblygu Cymuned a Menter Trawsfynydd | £206,427 | £479,094 | 3 |
| Swyddog Datblygu i Gymdeithas Pysgotwyr Llyn | £104,952 | £139,936 | 1 |
| Rhaglen y Gogledd a'r Gorllewin i Dorri 'V' ar Gimychiaid | £147,015 | £196,020 | - |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Warws Werdd | £496,920 | £883,552 | - |
| Canolfan Gadwraeth y Faenol | £1,249,777 | £2,033,659 | 6 |
| Prosiect Amgylcheddol Uwchgwyrfai | £180,583 | £363,366 | 2 |
| Cadw'r Lliw yn Llyn | £247,501 | £497,142 | 2 |
| Canolfan Celf a Dylunio Eryri | £210,000 | £459,363 | 5 |
| Tafarn y Fic | £401,120 | £659,079 | 2 |
| Menter Cymorth Tecstilau | £407,803 | £877,795 | 5 |
| Prosiect Twristiaeth Gynaliadwy Parc Coedwig Coed y Brenin | £654,000 | £1,721,890 | - |
| Unedau Technoleg Parc Menai (llain 7) | £744,734 | £1,999,286 | 30 |
| Capel Bethania, Nantgwynant | £136,031 | £276,813 | - |
| Ty Newydd | £375,000 | £2,410,683 | - |
| Neuadd Craflwyn | £270,626 | £884,374 | 6 |
| Canolfan Gymunedol Abergynolwyn | £423,258 | £700,494 | 1 |
| Eryri-Bywiol, Snowdonia-Active | £73,782 | £183,330 | - |
| Y Ganolfan Deulu Integredig, Blaenau Ffestiniog | £296,308 | £568,048 | - |
| Datblygiad y Siediau Du, Aberdyfi | £550,000 | £1,400,000 | - |
| Datblygu Diwydiant Cynhyrchu Tatws Had, Seiliedig ar Ymchwil, yng Ngogledd Cymru | £358,801 | £1,033,301 | - |
| Datblygu Cynhyrchwyr (2004-06) | £26,006 | £58,784 | - |
| Rhannu'r Weledigaeth | £654,121 | £1,422,621 | - |
| Adfywio'r Hen Felin, Abergwyngregyn | £131,204 | £302,408 | - |
| Rhaglen Rheoli Tir Eryri | £2,159,500 | £4,325,000 | 4 |

**Swyddi a oedd wedi'u creu yn Sir Benfro erbyn 31 Ionawr 2005**

| **Teitl y Prosiect** | **Grant prosiect** | **Cost lawn y prosiect** | **Swyddi a grëwyd** |
|---|---|---|---|
| Cronfa Cymorth Busnes Sir Benfro | £247,584 | £2,475,837 | 319 |
| BusiNet (Sir Benfro) | £364,809 | £797,745 | 23 |
| Codi Eiddo Parod, Sir Benfro | £1,610,000 | £4,025,000 | 21 |
| Fforwm Arfordirol Sir Benfro | £142,600 | £301,800 | 2 |
| Prosiect TG y Sector Gwirfoddol | £184,672 | £392,003 | 2 |
| Cynllun Grantiau Bach – Twristiaeth Amgylcheddol i Bawb | £26,781 | £76,517 | - |
| Cynllun Grantiau Bach – Twristiaeth Gynhwysol i Bawb | £26,781 | £76,518 | - |
| Parc Busnes, Havens Head, Doc Milffwrd | £1,445,216 | £3,800,000 | 48 |
| Treftadaeth Forol Sir Benfro Cam 1 | £63,213 | £163,099 | 1 |
| Cymorth Grant y Loteri Dreftadaeth – Doc Penfro | £43,038 | £86,076 | 1 |
| Twristiaeth Arbenigol Safonol – Cymorth a Datblygu | £60,843 | £121,687 | 4 |
| Cefnogi Cymunedau | £154,068 | £308,137 | 2 |
| Canolfan Gynadledda a Dehongli Parc Slebech | £1,026,410 | £6,705,098 | 5 |
| Partneriaeth Canol Tref Hwlffordd | £28,960 | £68,960 | 40 |
| Parc Treftadaeth Stepaside | £187,600 | £536,000 | - |
| Eiddo Busnes a Seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Pont Cleddau, Doc Penfro | £1,034,677 | £2,770,220 | - |
| Cronfa Allweddol Sir Benfro | £238,249 | £433,180 | 3 |
| Prosiect Datblygu Span | £36,041 | £76,479 | 3 |
| Cyfleuster Prosesu Pysgod Cregyn sy'n Ychwanegu Gwerth | £68,393 | £195,408 | 5 |
| Datblygu Cyfle yn y Farchnad | £588,201 | £1,196,992 | 19 |
| Ailddatblygu Ty Tyddewi | £189,280 | £474,031 | 2 |
| Sied Awyrennau East Sunderland, Doc Penfro | £379,754 | £951,051 | - |
| Ty Sunderland—Gwaith Mewnol | £134,662 | £337,246 | - |
| Balchder yn ein Cymuned | £25,679 | £36,341 | 1 |
| Bro Beca | £29,830 | £59,660 | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddiad Greenways Sir Benfro | £65,441 | £138,500 | 2 |
| RETEC | £537,739 | £1,111,261 | 2 |
| Partneriaeth Tref Dinbych-y-pysgod ac Ymddiriedolaeth De Valance | £165,113 | £513,757 | - |
| Prosper | £916,172 | £2,070,915 | 2 |
| Cynllun grant cymorth Sir Benfro i fusnesau bach a chanolig eu maint | £787,899 | £3,096,555 | - |
| Datblygu'r Diwydiant Cyflenwi Olew a Nwy yn Sir Benfro | £552,383 | £1,124,101 | 2 |
| Canolfan Gymunedol Ty Bloomfield | £123,000 | £351,000 | - |
| 1-2-3 i TGCh—Camau dichonadwy i ddenu'r gymuned i gymryd rhan mewn TGCh | £160,918 | £324,472 | 1 |
| Prosiect The Cloisters | £415,368 | £1,950,801 | - |
| Nodi a Datblygu Cynnyrch a Phecynnau Twristiaeth Newydd yn Sir Benfro | £148,653 | £302,509 | 2 |
| Twristiaeth Wledig Gynaliadwy | £62,000 | £147,620 | 1 |
| Canolfan Ieuenctid Bush | £211,639 | £351,993 | - |
| FRAME 'Pontio'r Bwlch' | £84,915 | £213,597 | - |

### Lleoedd Gweigion Technium Aberystwyth

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar leoedd gweigion Technium Aberystwyth? (WAQ41885)

**Andrew Davies:** Mae rheolwr amser llawn y Technium yno yn ymroi i sicrhau bod lleoedd gweigion yn cael eu llenwi gan y gymysgedd iawn o fusnesau sydd wedi'u seilio ar wybodaeth.

### Lluosogrwydd Arwyddion Ffyrdd

**Nick Bourne:** A oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bolisi mewn perthynas â'r nifer fawr o arwyddion ffyrdd sydd i'w gweld mewn rhai cymunedau yng Nghymru? (WAQ41889)

**Andrew Davies:** Yr ydym yn cydnabod bod darparu gormod o arwyddion yn gallu cael effaith andwyol ar gymunedau ar draws Cymru a'u bod yn gallu peryglu diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r cyngor sydd wedi'i gyhoeddi ar ddylunio a defnyddio arwyddion traffig, ar ffurf y llawlyfr arwyddion traffig, yn atgofffa awdurdodau lleol o'r angen i ddarparu gwybodaeth ddigonol i ddefnyddwyr y ffyrdd tra'n osgoi gormod o arwyddion ac effeithiau amgylcheddol andwyol eraill.

### Y Gwaith Ffordd sydd ar yr A40 i'r De o Gas-blaidd, Sir Benfro

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwaith ffordd sydd ar yr A40 i'r de o Gas-blaidd yn sir Benfro? (WAQ41890)

**Andrew Davies:** Ar Droeon Trefgarn (i'r de o Gas-blaidd), yr oedd gofyniad i ddarparu darn 55m o hyd o rwystr diogelwch trawst bocs agored lle mae'r graig ar yr wyneb. Yr oedd angen rheoli'r traffig, yn cynnwys gosod goleuadau traffig dros dro, ar gyfer y gwaith hwn felly achubwyd ar y cyfle i newid y 230m o rwystr diogelwch trawst rhychog didyniant nad yw mwyach yn cydymffurfio â'r manylebau cyfredol. Mae'r gwaith i fod i gael ei gwblhau erbyn 3 Mawrth.

### Damweiniau Angheuol a Difrifol ar yr A487

**Nick Bourne:** Sawl damwain angheuol a sawl damwain ddifrifol a fu ar yr A487 ar gyfer pob blwyddyn ers 1999? (WAQ41902)

**Andrew Davies:** Rhydd y tablau isod fanylion nifer y damweiniau a'r rhai a anafwyd, yn ôl difrifoldeb, ar yr A487 ar gyfer pob blwyddyn er 1999:

**Nifer y damweiniau anafiadau personol, yn ôl difrifoldeb, ar yr A487**

| Blwyddyn | 1999 | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 |
|---|---|---|---|---|---|
| Angheuol | 8 | 2 | 5 | 7 | 3 |
| Difrifol | 52 | 29 | 39 | 30 | 41 |
| Mân anafiadau | 140 | 139 | 164 | 146 | 149 |
| Cyfanswm | 200 | 170 | 208 | 183 | 193 |

**Nifer y rhai a anafwyd mewn damweiniau ffyrdd, yn ôl difrifoldeb, ar yr A487**

| Blwyddyn | 1999 | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 |
|---|---|---|---|---|---|
| Angheuol | 9 | 2 | 5 | 9 | 3 |
| Difrifol | 66 | 36 | 50 | 44 | 56 |
| Mân anafiadau | 250 | 242 | 248 | 235 | 268 |
| Cyfanswm | 325 | 280 | 303 | 288 | 327 |

**Damweiniau Angheuol a Difrifol ar yr A470**

**Nick Bourne:** Sawl damwain angheuol a sawl damwain ddifrifol a fu ar yr A470 ar gyfer pob blwyddyn ers 1999? (WAQ41903)

**Andrew Davies:** Rhydd y tablau isod fanylion nifer y damweiniau a'r rhai a anafwyd, yn ôl difrifoldeb, ar yr A470 ar gyfer pob blwyddyn er 1999:

**Nifer y damweiniau anafiadau personol, yn ôl difrifoldeb, ar yr A470**

| Blwyddyn | 1999 | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 |
|---|---|---|---|---|---|
| Angheuol | 12 | 7 | 7 | 12 | 9 |
| Difrifol | 41 | 46 | 44 | 50 | 36 |
| Mân anafiadau | 196 | 217 | 242 | 236 | 225 |
| Cyfanswm | 249 | 270 | 293 | 298 | 270 |

**Nifer y rhai a anafwyd mewn damweiniau ffyrdd, yn ôl difrifoldeb, ar yr A470**

| Blwyddyn | 1999 | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 |
|---|---|---|---|---|---|
| Angheuol | 12 | 10 | 7 | 15 | 11 |
| Difrifol | 63 | 69 | 58 | 74 | 51 |
| Mân anafiadau | 325 | 412 | 449 | 412 | 353 |
| Cyfanswm | 400 | 491 | 514 | 501 | 415 |

**Damweiniau Angheuol a Difrifol ar yr A483**

**Nick Bourne:** Sawl damwain angheuol a sawl damwain ddifrifol a fu ar yr A483 ar gyfer pob blwyddyn ers 1999? (WAQ41904)

**Andrew Davies:** Rhydd y tablau isod fanylion nifer y damweiniau a'r rhai a anafwyd, yn ôl difrifoldeb, ar yr A483 ar gyfer pob blwyddyn er 1999:

**Nifer y damweiniau anafiadau personol, yn ôl difrifoldeb, ar yr A483**

| Blwyddyn | 1999 | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 |
|---|---|---|---|---|---|
| Angheuol | 6 | 3 | 8 | 3 | 9 |
| Difrifol | 28 | 33 | 39 | 22 | 26 |
| Mân anafiadau | 104 | 157 | 141 | 165 | 166 |
| Cyfanswm | 138 | 193 | 188 | 190 | 201 |

**Nifer y rhai a anafwyd mewn damweiniau ffyrdd, yn ôl difrifoldeb, ar yr A483**

| Blwyddyn | 1999 | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Angheuol | 6 | 3 | 12 | 3 | 9 |
| Difrifol | 33 | 41 | 48 | 32 | 33 |
| Mân anafiadau | 164 | 236 | 225 | 256 | 311 |
| Cyfanswm | 203 | 280 | 285 | 291 | 353 |

### Damweiniau Angheuol a Difrifol ar yr A44

**Nick Bourne:** Sawl damwain angheuol, a sawl damwain ddifrifol a fu ar yr A44 ar gyfer pob blwyddyn ers 1999? (WAQ41905)

**Andrew Davies:** Rhydd y tablau isod fanylion nifer y damweiniau a'r rhai a anafwyd, yn ôl difrifoldeb, ar yr A44 ar gyfer pob blwyddyn er 1999:

**Nifer y damweiniau anafiadau personol, yn ôl difrifoldeb, ar yr A44**

| Blwyddyn | 1999 | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 |
|---|---|---|---|---|---|
| Angheuol | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 |
| Difrifol | 14 | 12 | 7 | 9 | 7 |
| Mân anafiadau | 22 | 23 | 28 | 32 | 28 |
| Cyfanswm | 37 | 35 | 36 | 42 | 36 |

**Nifer y rhai a anafwyd mewn damweiniau ffyrdd, yn ôl difrifoldeb, ar yr A44**

| Blwyddyn | 1999 | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 |
|---|---|---|---|---|---|
| Angheuol | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 |
| Difrifol | 18 | 17 | 9 | 11 | 13 |
| Mân anafiadau | 30 | 35 | 45 | 55 | 46 |
| Cyfanswm | 49 | 52 | 55 | 67 | 60 |

### Damweiniau Angheuol a Difrifol ar yr A40

**Nick Bourne:** Sawl damwain angheuol a sawl damwain ddifrifol a fu ar yr A40 ar gyfer pob blwyddyn ers 1999? (WAQ41906)

**Andrew Davies:** Rhydd y tablau isod fanylion nifer y damweiniau a'r rhai a anafwyd, yn ôl difrifoldeb, ar yr A40 ar gyfer pob blwyddyn er 1999:

**Nifer y damweiniau anafiadau personol, yn ôl difrifoldeb, ar yr A40**

| Blwyddyn | 1999 | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 |
|---|---|---|---|---|---|
| Angheuol | 10 | 5 | 6 | 6 | 5 |
| Difrifol | 41 | 47 | 41 | 52 | 41 |
| Mân anafiadau | 173 | 128 | 115 | 130 | 119 |
| Cyfanswm | 224 | 180 | 162 | 188 | 165 |

**Nifer y rhai a anafwyd mewn damweiniau ffyrdd, yn ôl difrifoldeb, ar yr A40**

| Blwyddyn | 1999 | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 |
|---|---|---|---|---|---|
| Angheuol | 11 | 5 | 7 | 6 | 5 |
| Difrifol | 63 | 56 | 67 | 81 | 56 |
| Mân anafiadau | 273 | 224 | 210 | 226 | 202 |
| Cyfanswm | 347 | 285 | 284 | 313 | 263 |

### Y Gwaith Ffordd ar yr A487

**Nick Bourne:** Pryd y disgwylir y bydd y gwaith ffordd ar yr A487 yn Aberarth yn cael ei gwblhau? (WAQ41909)

**Andrew Davies:** Yr ydym yn disgwyl cwblhau cam presennol y gwaith yn yr haf eleni. Fodd bynnag, bydd angen gwaith pellach cyn y bydd y strategaeth i'r pentref drwyddi draw wedi cael ei chwblhau. Bydd y gwaith pellach hwn yn cynnwys pompren newydd dros yr afon, darn bach o droedffordd ar lefel uwch a man croesi i gerddwyr, i gyd yng nghanol y pentref.

Mae angen inni gaffael darnau bach o dir oddi wrth yr eiddo cyffiniol ar gyfer y gwaith pellach hwn, ac ar hyn o bryd yr ydym yn cael rhywfaint o anhawster i sicrhau rhai o'r lleiniau hyn drwy gytundeb. Efallai y bydd yn rhaid inni benderfynu pa un i roi'r gorau i rai neu bob un o'r elfennau hyn, neu ddibynnu ar weithdrefnau statudol i gaffael y lleiniau sy'n weddill. Gallai'r dull gweithredu olaf hwn olygu y byddai'n rhaid cynnal ymchwiliad cyhoeddus, a beth bynnag fyddai'r amgylchiadau byddai'n golygu oedi hir iawn.

Os llwyddwn i gaffael tir drwy gytundeb yn fuan, gallem adeiladu'r gwaith terfynol cyn diwedd 2005. Os bydd yn rhaid inni gyhoeddi gorchymyn prynu gorfodol drafft, hyd yn oed os byddwn yn llwyddiannus nid ydym yn debygol o gwblhau'r prosiect yn ei gyfanrwydd cyn 2007.

### Cynhyrchu Ynni sy’n Fwy na 50 Megawat

**Nick Bourne:** A wnaiff gyhoeddi unrhyw ohebiaeth a anfonwyd at yr Adran Masnach a Diwydiant ac a ddaeth i law oddi wrth yr adran ynghylch trosglwyddo swyddogaethau’n ymwneud â chynhyrchu ynni sy’n fwy na 50 megawat? (WAQ41913)

**Andrew Davies:** Byddaf yn ystyried eich cais a chaiff ymateb ei anfon atoch maes o law.

### Y Sgaffaldiau a ddymchwelodd yng Ngorsaf Drenau Aberystwyth

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar amserlen a chylch gorchwyl ymchwiliad Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i achos y sgaffaldiau a ddymchwelodd yng ngorsaf drenau Aberystwyth ar 22 Chwefror 2005? (WAQ41915)

**Andrew Davies:** Nid oes gennyf unrhyw gyfrifoldeb am weithgareddau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a gellir cael gwybodaeth am ddigwyddiadau penodol yn uniongyrchol oddi wrtho ef.

### Nifer yr Arwyddion Traffig ym Mhentref Clyro

**Nick Bourne:** A wnaiff ymchwilio i’r posibilrwydd y gellid lleihau nifer yr arwyddion traffig ym mhentref Clyro ar brif ran yr A438 drwy Clyro? (WAQ41917)

**Andrew Davies:** Mater i Gyngor Sir Powys fel yr awdurdod lleol cyfrifol yw hwn.

### Ymestyn yr Amser y bydd Stryd y Farchnad, Hwlffordd ar Gau

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ymestyn yr amser y bydd Stryd y Farchnad yn Hwlffordd ar gau i draffig trwodd, a’r bwriad i ymestyn yr amser y bydd ar gau? (WAQ41918)

**Andrew Davies:** Mater i'r awdurdod lleol yw hwn. Fodd bynnag, deallaf fod gwaith i ddymchwel rhan flaen Commerce House wedi dechrau ym mis Rhagfyr 2004. Yn wreiddiol roedd y gwaith i fod i gael ei gwblhau ym mis Mawrth 2005. Fodd bynnag, yr oedd gwaith strwythurol ychwanegol sylweddol yn ofynnol i sefydlogi'r adeilad a'r adeilad cyffiniol yn Stryd y Farchnad. Bu'n rhaid ymestyn y gorchymyn yn cau'r ffordd oherwydd y gwaith ychwanegol ac erbyn hyn rhagwelir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn mis Medi 2005.

## Arwyddion i Rybuddio Pobl bod Pont Hafren ar Gau

**David Davies:** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl y bydd cyllid ar gael i godi arwyddion ar yr A40/A449 yn Nhrefynwy i rybuddio pobl bod Pont Hafren ar gau? (WAQ41934)

**Andrew Davies:** Mae arian ar gael ar gyfer y gwaith paratoadol angenrheidiol i osod arwydd negeseuon sy'n newid (VMS) ar gylchfan Dixton yn 2005-06. Mae hyn yn cynnwys asesiad risg llawn o effaith VMS yn y fan hon ac, yn arbennig, yr effaith a gaiff ar ymddygiad gyrwyr mewn man ar y rhwydwaith cefnffyrdd sy'n nodedig am y llif traffig trwm. Gwneir penderfyniad terfynol pan fydd pob agwedd o'r gwaith paratoadol wedi cael ei hystyried.

## Datblygiad Maes Awyr Blaenannerch yng Ngheredigion

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygiad maes awyr Blaenannerch yng Ngheredigion? (WAQ41950)

**Andrew Davies:** Mae parc technoleg Aberporth, neu 'ParcAberporth', yng Ngheredigion, yn ddatblygiad strategol o bwys sy'n cael ei arwain gan Awdurdod Datblygu Cymru. Bydd datblygu'r parc yn dod â buddsoddiad a swyddi sy'n galw am sgiliau lefel uchel i'r ardal drwy gefnogi busnesau o safon uchel sy'n ehangu ym meysydd awyrofod, amddiffyn, bio-wyddorau, datblygu meddalwedd, y cyfryngau a sectorau sy'n gysylltiedig â pheirianneg. Mae'r gwaith o adeiladu'r parc yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac arian strwythurol o Ewrop.

Bydd y Parc yn cynnwys canolfan ragoriaeth i'r DU ym maes cerbydau awyrol di-griw (UAV). Mae'r grwp rhanddeiliaid UAV ar draws y Llywodraeth a luniwyd gyda'r nod o sefydlu amgylchedd gweithredol addas o amgylch safle ParcAberporth i alluogi'r diwydiant awyrofod i brofi a datblygu UAVs ar gyfer marchnadoedd sifil a milwrol yn bwrw ymlaen yn dda â'i waith.

## Prawf Cymhwyster am Grantiau Cymunedol PACT

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y meini prawf cymhwyster am grantiau cymunedol PACT a weinyddir gan WEFO? (WAQ41954)

**Andrew Davies:** Nid yw Grantiau Cymunedol PACT yn cael eu gweinyddu gan WEFO. Mae prosiect PACT sy'n cael ei ariannu drwy Amcan 1 yn darparu cronfa gweithredu cymunedol ar gyfer grwpiau a mudiadau cymunedol mewn rhannau o Sir Gaerfyrddin. Pennir y meini prawf cymhwyso i gael grantiau drwy'r prosiect gan noddwr y prosiect, sef Cyngor Sir Caerfyrddin.

## Banc Gwybodaeth i Entrepreneuriaid

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fanc gwybodaeth i entrepreneuriaid yng Nghymru? (WAQ41955)

**Andrew Davies:** Dim ond ddoe, cyhoeddais fod Mr Glenn Massey, partner gyda PricewaterhouseCoopers, i gael ei secondio i fod yn gyfarwyddwr lansio ar 'fanc gwybodaeth' Llywodraeth y Cynulliad. Bydd y 'banc gwybodaeth' yn agor i fusnes yn yr haf ar sail arbrofol, gan weithio i ddechrau gyda rhyw 50 o gwmnïau sydd â photensial twf uchel.

## Ysbyty Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion unrhyw asesiad sydd wedi ei wneud o'r effaith a gaiff ysbyty newydd arfaethedig bwrdeistref sirol Caerffili ar draffig? (WAQ41997)

**Laura Anne Jones:** Pa fesurau fyddai'n cael eu rhoi ar waith i leihau unrhyw dagfeydd traffig posibl gerllaw Pontllanffraith, Ystrad Mynach, Maes y Cymer a Nelson o ran y safle sy'n cael ei ffafrio ar gyfer ysbyty newydd bwrdeistref sirol Caerffili yn Ystrad Fawr? (WAQ41998)

**Laura Anne Jones:** Beth fyddai cost unrhyw fesurau i rwystro tagfeydd traffig fyddai yn gysylltiedig ag ysbyty newydd bwrdeistref sirol Caerffili? (WAQ41999)

**Andrew Davies:** Mater i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel yr awdurdod priffyrdd a chynllunio lleol yw hwn. Deallaf fodd bynnag fod yr awdurdod lleol fel arfer yn mynnu bod asesiadau o'r effaith ar y traffig yn cael eu cynnal yng nghyswllt prosiectau o'r maint hwn, a bod asesiadau ar y gweill. Hyd nes y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, byddai'n amhriodol dyfalu pa fesurau fyddai'n angenrheidiol i ddelio â phroblemau traffig posibl, neu'r costau cysylltiol.

**Annog Ymwelwyr o Tsieina i Gymru**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd Bwrdd Croeso Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Visit Britain o ran y fenter 'Britain Welcome China' i annog ymwelwyr o Tsieina i ddod i Gymru? (WAQ42024)

**Andrew Davies:** Gan adeiladu ar y 'statws cyrchfan gymeradwy' a roddwyd i'r DU gan Tsieina ym mis Ionawr, mae Bwrdd Croeso Cymru yn gweithio gyda VisitBritain i ddatblygu fframwaith i farchnata Cymru a rhanbarthau eraill o'r DU.

**Effaith a Gaiff Dydd Gŵyl Dewi ar Economi Cymru**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar pa drafodaethau y mae wedi eu cael gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ar yr effaith a gaiff Dydd Gŵyl Dewi ar economi Cymru? (WAQ42025)

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ar yr effaith a gaiff Dydd Gwyl Dewi ar economi Cymru.

**Cynyddu Nifer y Menywod sy'n Gweithio yng Nghymru**

**Lisa Francis:** Pa fesurau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu defnyddio i gynyddu nifer y menywod sy'n gweithio yng Nghymru? (WAQ42026)

**Andrew Davies:** Ymysg y mesurau yr ydym yn eu cymryd i roi sylw i'r mater hwn mae gweithio mewn partneriaeth â Chwarae Teg—corff sector gwirfoddol sy'n hyrwyddo datblygiad economaidd menywod yng Nghymru.

Mae'r Swyddfa Gymreig gynt a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cymorth cyllido craidd, wedi'i seilio ar y cynllun busnes a gweithredol, sydd â gwaith ymchwil yn gefn iddo, ers sefydlu Chwarae Teg yn 1992. Mae Chwarae Teg hefyd, o bryd i'w gilydd, wedi cael cymorth ychwanegol ar gyfer prosiectau penodol.

Mae ei gynllun gweithredol cyfredol ar gyfer 2004-05 wedi'i strwythuro o amgylch pedwar maes gweithgaredd allweddol: cyflogaeth, addysg a dysgu gydol oes, hunangyflogaeth a pholisi cyhoeddus. Mae Chwarae Teg yn gweithredu ar amryw o lefelau: yn strategol, i ddylanwadu ar ddatblygu polisi a hyrwyddo arferion da; yn weithredol, i arddangos a chreu arferion gorau a thrwy gymryd rhan weithredol mewn gwaith ymchwil a datblygu. Ymysg y prosiectau llwyddiannus sydd ar y gweill mae menter menywod Cymru a'r fenter i rieni unigol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cymorth ariannol o £236,000 fel cynhaliaeth tuag at ei weithgareddau craidd yn 2005-06.

Ymysg y mesurau eraill yr ydym yn eu cymryd i gynyddu nifer y menywod mewn gwaith mae gweithio'n agos gyda Chanolfan Byd Gwaith i sicrhau bod rhaglen y Fargen Newydd i rieni unigol yn darparu cymorth priodol i helpu rhieni unigol sydd am gael gwaith. Mae rhaglen y Fargen Newydd i rieni unigol wedi cael cryn lwyddiant yng Nghymru, ac mae'r wybodaeth ddiweddaraf (ddiwedd mis Medi 2004) yn dangos bod dros 21,300 o rieni unigol wedi cael help i gael gwaith drwy'r rhaglen.

**Nifer sy'n Ddi-waith yng Nghymru ers 1999**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y bobl sy'n ddi-waith yng Nghymru, fesul blwyddyn, ers 1999? (WAQ42027)

**Andrew Davies:** Rhoddir y wybodaeth yn y tabl. Bu gostyngiad o 33,000 neu 34 y cant yn nifer y bobl ddi-waith yng Nghymru rhwng 1999 a 2004. Gwelodd y DU drwyddi draw ostyngiad o 18 y cant dros y cyfnod hwn.

**Nifer y bobl ddi-waith yng Nghymru**

| Blwyddyn | 000oedd |
|---|---|
| 1999 (1) | 95.8 |
| 2000 | 82.8 |
| 2001 | 76.6 |
| 2002 | 71.9 |
| 2003 | 65.2 |
| 2004 | 62.8 |
| *Newid canrannol 1999-2004* | *-34%* |

Ffynhonnell: Arolwg y Llafurlu
(1) Cyfartaledd pedwar chartref y blynyddoedd calendr yw pob ffigur.

**Gwerth Ffilmiau i Dwristiaeth**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba waith ymchwil sy'n cael ei wneud i werth ffilmiau i dwristiaeth yng Nghymru? (WAQ42028)

**Andrew Davies:** Nid yw Bwrdd Croeso Cymru wedi gwneud unrhyw ymchwil i werth ffilmiau i dwristiaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Comisiwn Sgrin Cymru yn amcangyfrif bod ffilmio ar leoliad yng Nghymru dros y 12 mis diwethaf wedi ychwanegu rhyw £15 miliwn i economi Cymru.

**Gwerth Twristiaeth Antur**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba waith ymchwil sy'n cael ei wneud i werth twristiaeth antur yng Nghymru? (WAQ42029)

**Andrew Davies:** Mae ymchwil Bwrdd Croeso Cymru i werth twristiaeth antur wedi dangos ei bod yn cyfrannu dros draean o'r holl incwm twristiaeth yng Nghymru. Mae'r tabl isod yn manylu ar y gwerth cyfredol a'r potensial fesul gweithgaredd.

**Targedau Bwrdd Croeso Cymru ar gyfer Twristiaeth Antur erbyn 2010**

| **CYNNYRCH** | **Gwerth ar hyn o bryd (miliynau)** | **Potensial** |
|---|---:|---:|
| Twristiaeth Cerdded | 550 | 700 |
| Twristiaeth Chwaraeon Dwr | 160 | 225 |
| Twristiaeth Antur | 133 | 220 |
| Twristiaeth Seiclo | 103 | 172 |
| Twristiaeth Pysgota | 76 | 115 |

| | | |
|---|---:|---:|
| Twristiaeth Marchogaeth | 18 | 27 |
| **Cyfanswm** | **1,040** | **1,429** |

### Gwerth Twristiaeth Golff

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba waith ymchwil sy'n cael ei wneud i werth twristiaeth golff yng Nghymru? (WAQ42030)

**Andrew Davies:** Ar hyn o bryd mae Bwrdd Croeso Cymru yn amcangyfrif bod twristiaeth golff yn werth dros £70 miliwn. Mae'r bwrdd wedi datblygu strategaeth twristiaeth golff 10 mlynedd gyda'r nod o fanteisio ar Gwpan Ryder 2010 i wella cynnyrch golff Cymru a chynyddu gwariant ymwelwyr.

### Gwerth Twristiaeth Busnes

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba waith ymchwil sy'n cael ei wneud i werth twristiaeth busnes yng Nghymru? (WAQ42031)

**Andrew Davies:** Mae ymchwil a wnaed gan Fwrdd Croeso Cymru yn amcangyfrif bod twristiaeth busnes yn werth £285 miliwn y flwyddyn i economi Cymru ar hyn o bryd.

Mae'r bwrdd yn datblygu nifer o fentrau i godi ymwybyddiaeth ymhellach o Gymru fel cyrchfan twristiaeth busnes ac i hybu cynnydd yn nifer y cynadleddau a'r cyfarfodydd sy'n cael eu trefnu ac yn y rhaglenni teithio cymhelliant o'r DU a sectorau twristiaeth busnes rhyngwladol.

### Ailddynodi Uned Gweithgynhyrchu Wag y WDA yn Nhrefyclo

**Nick Bourne:** A oes unrhyw gynlluniau ar y gweill i ailddynodi uned 'gweithgynhyrchu' wag y WDA yn Nhrefyclo yn uned at ddibenion 'gwasanaeth'? (WAQ42032)

**Andrew Davies:** Mae'r opsiwn hwn yn cael ei ystyried.

### Menywod Hunangyflogedig

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch nifer y menywod hunangyflogedig yng Nghymru, a hynny fesul blwyddyn ers 1999? (WAQ42065)

**Andrew Davies:** Rhoddir y wybodaeth yn y tabl. Dylid trin newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yng ngwybodaeth Arolwg y Llafurlu am Gymru ar lefel mor fanwl â hon gyda gofal.

**Menywod hunangyflogedig yng Nghymru**

| Blwyddyn | 000oedd |
|---|---|
| 1999 (1) | 36 |
| 2000 | 40 |
| 2001 | 37 |
| 2002 | 44 |
| 2003 | 51 |
| Blwyddyn hyd at fis Tachwedd 2004 | 43 |

Ffynhonnell: Arolwg y Llafurlu
(1) Cyfartaledd pedwar chwarter yn rhedeg o fis Mawrth i fis Chwefror yw'r ffigurau am 1999-2003.

### Nifer y Menywod mewn Entrepreneuriaeth

**Lisa Francis:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu unrhyw grwpiau i roi cyngor ar ffyrdd o gynyddu nifer y menywod mewn entrepreneuriaeth? (WAQ42066)

**Andrew Davies:** Fel rhan o raglen bwrpasol o gymorth drwy'r cynllun gweithredu ar entrepreneuriaeth, cafwyd cymorth arbenigol gan amrywiaeth o gyrff. Mae partneriaeth Cyfenter o dan arweiniad y WDA, a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad a'r rhaglen Equal, ac a gefnogir gan gyrff fel Chwarae Teg, yn ymwneud ag ymchwil ar y mater hwn ar hyn o bryd.

### Rhwystrau y mae Menywod yn eu Hwynebu pan Fyddant yn Ystyried Sefydlu Busnes

**Lisa Francis:** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gynnal o'r rhwystrau y mae menywod yn eu hwynebu pan fyddant yn ystyried sefydlu busnes yng Nghymru a pha asesiad a wnaed o'r ffordd y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ddymchwel y rhwystrau hynny? (WAQ42067)

**Andrew Davies:** O'r ymchwil sydd wedi'i wneud yng Nghymru, mae'r prif rwystrau a welir rhag mentro i fyd busnes yn cynnwys sicrhau cyllid, y system fudd-daliadau, a pherthnasedd y gwasanaethau cymorth sydd ar gael. Mae'r gwahanol fecanweithiau cymorth sydd ar gael wedi cael eu bwriadu i helpu cleientiaid i oresgyn y materion hyn.

### Entrepreneuriaeth

**Lisa Francis:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod entrepreneuriaeth yn cael ei marchnata fel gyrfa ddeniadol i fenywod Cymru? (WAQ42068)

**Andrew Davies:** Mae'r WDA wedi bod wrthi'n weithgar yn hyrwyddo entrepreneuriaeth fel gyrfa, fel rhan o'i ymgyrch 'Gallwch' ledled Cymru gyfan, sy'n gysylltiedig â'r cynllun gweithredu entrepreneuriaeth. Rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2004, canolbwyntiodd yr ymgyrch ar fenywod. Daeth saith deg y cant o'r ymatebion i'r ymgyrch oddi wrth fenywod.

### Mentergarwch Ymhlith Menywod

**Lisa Francis:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i annog mentergarwch ymhlith menywod Cymru? (WAQ42069)

**Andrew Davies:** Mae cynyddu entrepreneuriaeth ymysg grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, yn cynnwys menywod, yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r cynllun gweithredu entrepreneuriaeth yn cynnwys amryw o raglenni a roddir ar waith mewn partneriaeth â nifer o gyrff i fynd i'r afael â'r diffyg hwn.

### Trosiant Staff Awdurdod Datblygu Cymru

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion trosiant staff Awdurdod Datblygu Cymru, a hynny fesul blwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf? (WAQ42096)

**Andrew Davies:** Cyfradd trosiant staff y WDA am y blynyddoedd yn gorffen 31 Rhagfyr 2000, 2001, 2002, 2003 a 2004 oedd 10.6 y cant, 8.6 y cant, 8.5 y cant, 6.8 y cant ac 8.1 y cant yn eu tro.

### Trosiant Uwch-Reolwyr Awdurdod Datblygu Cymru

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion trosiant uwch-reolwyr Awdurdod Datblygu Cymru, a hynny fesul blwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf? (WAQ42097)

**Andrew Davies:** Nid oes gan y WDA ddosbarth i uwch staff. At ddibenion y cwestiwn hwn diffinnir uwch staff fel staff band 7 (cyfarwyddwyr a phenaethiaid ardaloedd) a band 8 (Cyfarwyddwyr Gweithredol/Tîm Rheoli) y WDA. Cyfradd trosiant staff y WDA o ran uwch staff am y blynyddoedd yn gorffen 31 Rhagfyr 2000, 2001, 2002, 2003 a 2004 oedd 6 y cant, 7 y cant, 10 y cant, 5 y cant a 10 y cant yn eu tro.

**Staff sy'n cael eu Cyflogi yn Swyddfa WEFO, Machynlleth**

**Lisa Francis:** Faint o staff sy'n cael eu cyflogi yn swyddfa WEFO ym Machynlleth ar hyn o bryd? (WAQ42134)

**Andrew Davies:** Ar hyn o bryd mae WEFO yn cyflogi 34 o staff yn swyddfa Machynlleth.

**Staff sy'n cael eu Cyflogi yn Swyddfa Bwrdd Croeso Cymru, Machynlleth**

**Lisa Francis:** Faint o staff sy'n cael eu cyflogi yn swyddfa Bwrdd Croeso Cymru ym Machynlleth ar hyn o bryd? (WAQ42135)

**Andrew Davies:** Ar hyn o bryd mae 36 o staff yn cael eu cyflogi yn swyddfa'r bwrdd croeso ym Machynlleth. Fodd bynnag, mae chwech o'r rhain yn gweithio i Bartneriaeth Dwristiaeth Canolbarth Cymru (cwmni preifat) a Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru.

**Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd**

**Lisa Francis:** Pa gynlluniau sydd gan Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd i gyflawni'r ddyletswydd arfaethedig i roi cyngor a chymorth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a fydd cyngor o'r fath yn cael ei gyhoeddi er mwyn craffu arno? (WAQ42140)

**Lisa Francis:** Mewn perthynas â bwriad Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd i sefydlu canolfan wybodaeth i ddarparu data diwydiant allweddol ar gostau, perfformiad, allbwn etc, ar ba sail ddaearyddol y bydd y wybodaeth hon ar gael? (WAQ42139)

**Andrew Davies:** Mae Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd yn ymgynghori ar ei rôl ar hyn o bryd yn ei 'Draft Corporate Strategy: A Consultation' a dylid cyflwyno cwestiynau manwl am ei weithrediadau yn y dyfodol yn uniongyrchol i'r swyddfa. Mae'r ymgynghori yn dod i ben ar 31 Mawrth 2005. Byddwn yn barod i'r cyngor a roddwyd i Lywodraeth y Cynulliad gael ei gyhoeddi at ddibenion craffu, ond bai fod rhesymau penodol yn erbyn ei ddatgelu. Mae ar ba lefel y caiff y wybodaeth ei dadgyfuno'n ddaearyddol o dan drafodaeth.

**Y Cynllun PlusBus**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gynlluniau i ymestyn y cynllun PlusBus i ardaloedd eraill yng Nghymru? (WAQ42141)

**Andrew Davies:** Mae 25 o orsafoedd allweddol ar draws Cymru eisoes yn cymryd rhan yng nghynllun PlusBus yn cynnwys Aberystwyth, Caerfyrddin, Llanelli, Hwlffordd, Abertawe a Dinbych-y-pysgod. Ar 12 Mehefin 2005 ychwanegir Pontypridd a phob gorsaf yn ardal Caerdydd at y cynllun.

**Y Cynllun PlusBus**

**Lisa Francis:** Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i fuddsoddi yn y cynllun PlusBus eleni a faint y mae'n bwriadu ei fuddsoddi yn y dyfodol? (WAQ42142)

**Andrew Davies:** Dros ddwy flynedd, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu cyllid grant o £50,000 i'r diben o ddarparu seilwaith arddangos a deunydd cyhoeddusrwydd cysylltiol mewn gorsafoedd

rheilffyrdd yng Nghymru i hyrwyddo menter tocynnau integredig PlusBus. Clustnodwyd £28,000 pellach ar gyfer gweithgareddau marchnata pellach.

### Galluoedd Iaith y Gweithlu o ran y Sector Cyhoeddus ac o Ran y Sector Preifat

**Owen John Thomas:** Ydy'r Gweinidog wedi gwneud arolwg o alluoedd iaith y gweithlu yng Nghymru o ran y sector cyhoeddus ac o ran y sector preifat? (WAQ42144) [W]

**Andrew Davies:** Roedd yr Arolwg o Sgiliau Dyfodol Cymru 2003 yn cynnwys arolwg o gartrefi yn gofyn i unigolion am lefel eu sgiliau Cymraeg a'u sgiliau ieithoedd tramor, a pha lefel oedd yn ofynnol yn y swydd oedd ganddynt ar hyn o bryd, neu, i'r rheini nad oedd yn gyflogedig, y swydd yr oeddent yn ei dymuno. Mae adroddiad llawn o'r arolwg i'w weld ar wefan Sgiliau Dyfodol Cymru (www.sgiliaudyfodolcymru.com). Hefyd, mae ELWa wedi cynnal arolygon dilynol ymhlith cyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat er mwyn darparu mwy o fanylion o'u hanghenion o ran yr iaith Gymraeg. Caiff adroddiadau eu cyhoeddi gan ELWa cyn hir.

### VisitBritain a Bwrdd Croeso Cymru

**Michael German:** Gan gyfeirio at ei ateb i WAQ41750, a yw'r Gweinidog wedi gwneud ymholiadau er mwyn cael gwybod beth oedd sylwadau Yr Arglwydd Marshall ynghylch y berthynas rhwng VisitBritain a Bwrdd Croeso Cymru? (WAQ42145)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn trafod y trefniadau newydd gyda Gweinidogion Twristiaeth y DU ar 23 Mawrth, a bwriadaf gwrdd â'r Cadeirydd yn y dyfodol agos.

### Perthynas Waith VisitBritain â Bwrdd Croeso Cymru

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r newidiadau arfaethedig i berthynas waith VisitBritain â Bwrdd Croeso Cymru? (WAQ42146)

**Andrew Davies:** Bydd y newidiadau yn y trefniadau gwaith yn golygu y bydd VisitBritain yn canolbwyntio'n bennaf ar farchnadoedd tramor newydd a'r rhai sy'n dechrau datblygu, er budd pob rhan o Brydain. Canlyniad hyn yw y bydd y byrddau croeso cenedlaethol yn arwain mwy ar y gwaith marchnata yn eu marchnadoedd allweddol eu hunain a marchnadoedd mwy aeddfed Ewrop.

### A40 drwy Raeadr Gwy

**Nick Bourne:** Pa gynlluniau sy'n bodoli i wella'r A40 drwy Raeadr Gwy, ac yn arbennig trefn y ffordd yn South Street? (WAQ42169)

**Andrew Davies:** Nid oes gennym gynlluniau ar hyn o bryd i wella'r A470 drwy Raeadr Gwy. Ni fyddai'n bosibl gwella South Street mewn ffordd ystyrlon heb ddymchwel nifer o adeiladau. Mae ffordd osgoi ar gyfer Rhaeadr Gwy wedi ei rhestru yng Ngham 3 blaenraglen y cefnffyrdd.

### Ystadegau Damweiniau mewn Perthynas â'r A40

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr ystadegau damweiniau mewn perthynas â'r A40 drwy Raeadr Gwy? (WAQ42170)

**Andrew Davies:** O fewn y pum mlynedd diwethaf, dwy ddamwain a achosodd fân anafiadau sydd wedi cael eu cofnodi gan yr heddlu ar yr A470 drwy Raeadr Gwy ar ei hyd . Ni fu unrhyw ddamweiniau a achosodd anafiadau i'r gogledd o ganol y dref. O'r ddwy ddamwain i'r de o ganol y dref, yr oedd un yn y darn 30mya ac un yn y darn 40mya. Troi yn annoeth oedd achos y naill ddamwain a'r llall. Er y byddem yn ddelfrydol am weld sefyllfa lle na cheir damweiniau o gwbl, yn realistig rhaid ystyried y record hon o ran damweiniau yn un dda.

## Ffordd Osgoi Rhaeadr Gwy

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyflwyno'r newyddion diweddaraf ynghylch unrhyw drafodaethau sydd wedi'u cynnal ynghylch bwrw ymlaen â ffordd osgoi Rhaeadr Gwy? (WAQ42171)

**Andrew Davies:** Mae'r cynllun yng Ngham 3 Atodiad 2004 at flaenraglen y cefnffyrdd ac nid yw'n debygol o ddechrau cyn 2010. Ni fu trafodaethau'n ddiweddar gan nad oes ymgynghorwyr wedi cael eu penodi eto i gynnal arfarniad o'r opsiynau.

## Y Parth 30 Milltir yr awr drwy South Street yn Rhaeadr Gwy

**Nick Bourne:** A oes yna unrhyw gynlluniau i ymestyn y parth 30 milltir yr awr drwy South Street yn Rhaeadr Gwy? (WAQ42172)

**Andrew Davies:** Nid oes gennym gynlluniau ar hyn o bryd i newid y gyfundrefn cyfyngiadau cyflymder yn Rhaeadr Gwy. Mae'r nifer isel o ddamweiniau yn awgrymu bod y gyfundrefn bresennol yn gwbl briodol. Fodd bynnag, megis gyda phob rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd, byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa, a phe bai pethau'n newid byddwn yn gweithredu fel sy'n briodol.

## Prosiectau Pwer Gwynt

**Nick Bourne:** Mewn perthynas â phrosiectau pwer gwynt ym mis Hydref 2004, a wnaiff y Gweinidog nodi faint o'r cwmnïau sy'n gysylltiedig â'r prosiectau sydd wedi'u perchenogi'n gyfan gwbl o fewn y DU, a faint o'r cwmnïau sydd y tu allan i'r DU o ran eu perchenogaeth gyfan? (WAQ42173)

**Andrew Davies:** Mae un ar ddeg o gwmnïau yn berchen ar y 18 o ffermydd gwynt ar y tir a'r un fferm wynt ar y môr sy'n gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r cwmnïau i gyd wedi eu cofrestru yn y DU ond mae rhiant gwmni chwech ohonynt y tu allan i'r DU.

## Tyrbinau Gwynt

**Nick Bourne:** Beth yw manteision economaidd cynhyrchu tyrbinau gwynt i Gymru? (WAQ42174)

**Andrew Davies:** Amcangyfrifir bod y buddsoddiad cyfalaf sy'n gysylltiedig â datblygiadau ynni gwynt o 800MW ar y tir yng Nghymru oddeutu £600 miliwn. Yn ychwanegol at hynny, ein nod yw sicrhau'r potensial economaidd mwyaf posibl drwy'r gadwyn gyflenwi, gweithgynhyrchu a gwaith cynnal a chadw. Nid yw mor hawdd mesur yr elfen olaf hon fodd bynnag, ac mae'n dal yn gynnar yn y broses ddatblygu i roi syniad ystyrlon a manwl o'r gwerth economaidd posibl.

## Ynni Adnewyddadwy

**Nick Bourne:** Pam y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i'r afael â gwynt fel ffynhonnell o ynni adnewyddadwy yn hytrach na phwer llanw a thrai? (WAQ42175)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo'n llwyr i ddatblygu ystod o dechnolegau ynni adnewyddadwy yn cynnwys technolegau morol y dyfodol. Ar hyn o bryd, ystyrir mai pwer gwynt yw'r dechnoleg sy'n fwyaf dichonadwy yn fasnachol a bydd yn cyfrannu'n arwyddocaol at ein targedau. Credir bod i dechnolegau'r tonnau a'r llanw botensial cryf i'r dyfodol. Ynghyd â'r WDA, yr ydym yn cefnogi a datblygu'r technolegau hyn ar gyfer prosiectau peilot yng Nghymru. Rhagwelir, fodd bynnag, y bydd angen cymorth ariannol sylweddol ar dechnolegau o'r fath i'w datblygu'n ddigonol fel eu bod yn ddichonadwy yn fasnachol.

### Faint o Grant RSA sydd wedi'i Gynnig i T-Mobile

**Michael German:** Yn dilyn ateb y Gweinidog i WAQ41751, a wnaiff wneud sylw ar faint o grant RSA sydd wedi'i gynnig i T-Mobile ac a wnaiff ddweud beth yw union bwrpas y grant hwn? (WAQ42178)

**Andrew Davies:** Cynigiwyd £5 miliwn o grant RSA i T-Mobile ym mis Ionawr 2000 i gynorthwyo ei brosiect i sefydlu canolfan galwadau yn Rhyd-y-Car, Merthyr Tudful. Amcangyfrifwyd y byddai'r prosiect yn costio oddeutu £12,530,000 ac y byddai'n creu 810 o swyddi newydd.

Agorwyd y ganolfan galwadau yn swyddogol ar 21 Awst 2001. Mae'r prosiect wedi bod yn mynd yn ei flaen yn dda ac mae'r ganolfan galwadau yn weithredol, gyda dros 600 o swyddi wedi cael eu sefydlu. Talwyd hawliad am randaliad cyntaf y grant RSA, sef £2,500,000, ym mis Mawrth 2002, a'r cwmni wedi buddsoddi dros £8.8 miliwn ac wedi creu 410 o swyddi.

### Cost y Prydlesau

**Michael German:** Mewn perthynas â Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet dyddiedig 3 Mawrth 2005, a all y Gweinidog ddweud beth yw union gost y prydlesau y cyfeirir atynt yn nhrydydd paragraff y dudalen gyntaf? (WAQ42186)

**Andrew Davies:** Ni allaf ryddhau'r wybodaeth hon gan fod y ffigurau yn fasnachol gyfrinachol fel rhan o gontract rhwng y cwmni trenau a'r cwmni sy'n prydlesu'r cerbydau.

### Fforwm Trafnidiaeth

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion pa mor aml y mae'r Fforwm Trafnidiaeth wedi cyfarfod, gan gynnwys pa bryd y cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf, ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu copi o'r papurau ar gyfer y cyfarfod hwnnw? (WAQ42208)

**Andrew Davies:** Mae Fforwm Trafnidiaeth Cymru, sy'n cynnwys amryw o randdeiliaid trafnidiaeth, yn cwrdd tua dwy neu dair gwaith y flwyddyn. Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ar 11 Hydref, ac mae'r un nesaf wedi'i gynllunio ar gyfer 14 Ebrill. Cyhoeddir y papurau ar gyfer y fforwm ar dudalennau trafnidiaeth gwefan y Cynulliad.

### Arian Cydlyniant Ar Ôl 2006

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf o ran arian cydlyniant ar ôl 2006? (WAQ42231)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cymhwyster Gorllewin Cymru a'r Cymoedd am arian cydlyniant ar ôl 2006? (WAQ42232)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau ar lefel y DU ynghylch arian cydlyniant i Gymru ar ôl 2006? (WAQ42233)

**Andrew Davies:** Ar sail y ffigurau a gyhoeddwyd gan Eurostat yn ddiweddar am 2000-02, byddai gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys i gael statws cydlyniant llawn ynghyd â'r posibilrwydd o arian rhaglen drosiannol ar ôl 2013 o dan unrhyw raglenni cronfeydd strwythurol yn y DU i'r dyfodol, ar sail y meini prawf cyfredol fel y'u cynigiwyd gan y comisiwn fis Gorffennaf diwethaf.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gael y fargen orau i Gymru o'r trafodaethau am arian cydlyniant ar ôl 2006 ac yr ydym yn parhau i weithio ar lefel y DU ac Ewrop i sicrhau hyn. Mae materion yn ymwneud â'r cronfeydd strwythurol yn rhan o'r trafodaethau gweinidogol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gweinidogion Llywodraeth y DU ac mae swyddogion y Cynulliad yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'r Trysorlys a'r Adran Masnach a Diwydiant.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Addysg Uwch yn y De Ddwyrain

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau sydd o ran polisïau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer addysg uwch yn y De-ddwyrain? (WAQ41965)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae ‘Ymgeisio yn Uwch’ yn nodi polisïau Llywodraeth y Cynulliad i wneud y sector addysg uwch yng Nghymru yn fwy cystadleuol. Byddwn yn parhau i gefnogi'r camau sy'n cael eu cymryd ar draws sefydliadau addysg uwch yn unol â'r polisïau hynny.

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi cyhoeddi adolygiad o'r trefniadau cyfredol a'r opsiynau i'r dyfodol i ddarparu addysg uwch drwy'r sefydliadau ôl-1992 yn y De-ddwyrain fel rhan o'r broses o wneud y sector yn fwy cystadleuol.

### Casgliadau Dros Dro Adolygiad Rees o’r Cynllun Cymorth i Fyfyrwyr

**Peter Black:** Pa gamau mae’r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i gasgliadau dros dro Adolygiad Rees o’r cynllun Cymorth i Fyfyrwyr? (WAQ41966)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn croesawu canfyddiadau adroddiad interim Rees yn gynnes ac yr oeddwn yn falch fod yr Athro Rees wedi gallu dod i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 9 Mawrth i drafod dadansoddiad rhagarweiniol yr adroddiad gyda'r Aelodau. Er nad yw'n llunio casgliadau nac yn gwneud argymhellion pendant ar hyn o bryd, mae'r adroddiad yn disgrifio'n glir y materion sy'n gysylltiedig â'r opsiynau i ariannu addysg uwch yng Nghymru o 2007 ymlaen. Edrychaf ymlaen at dderbyn adroddiad terfynol y grwp gyda'i gasgliadau a'i argymhellion, a byddaf yn ymateb yn llawn bryd hynny.

### Casgliadau Dros Dro Adolygiad Rees o’r Cynllun Cymorth i Fyfyrwyr

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gasgliadau dros dro Adolygiad Rees o’r cynllun Cymorth i Fyfyrwyr? (WAQ41967)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn croesawu adroddiad interim adolygiad Rees yn gynnes. Mae dadansoddiad rhagarweiniol yr adroddiad yn amlygu'r materion ymarferol, ariannol a chyfreithiol y bydd angen i'r Cynulliad eu pwyso a'u mesur wrth lunio barn am yr opsiynau i gyllido addysg uwch yng Nghymru o 2007 ymlaen. Fel y cyfryw, mae'n gwneud cyfraniad amhrisiadwy i'r ddadl gyhoeddus ehangach ar y mater hwn. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymateb yn ffurfiol pan dderbyniwn yr adroddiad terfynol.

### Ariannu Ysgolion yn Uniongyrchol gan y Cynulliad

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ariannu ysgolion yn uniongyrchol gan y Cynulliad? (WAQ41968)

**Jane Davidson:** Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad gynlluniau i ariannu ysgolion yn uniongyrchol. Bydd arian i ysgolion yn parhau i gael ei ddarparu'n bennaf drwy setliad refeniw llywodraeth leol, gyda'r awdurdodau yn penderfynu ar y lefelau cyllid i ysgolion yng ngoleuni anghenion ac amgylchiadau lleol. Mae awdurdodau lleol yn atebol i'w hetholwyr am y penderfyniadau a wnânt.

## Cynlluniau i Ariannu Ysgolion yn Uniongyrchol gan y Cynulliad

**David Davies:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael â CLlLC ynghylch unrhyw gynlluniau i ariannu ysgolion yn uniongyrchol gan y Cynulliad? (WAQ41969)

**Jane Davidson:** Nid wyf wedi cael trafodaethau o'r fath.

## Rhaglen Ehangach i Adeiladu Ysgolion

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog roi amlinelliad o'r mesurau sy'n cael eu cymryd i hyrwyddo partneriaethau, megis yr un a ddefnyddiwyd i adeiladu Ysgol Uwchradd Gatholig St Joseph's yng Nghasnewydd, i'r rhaglen ehangach i adeiladu ysgolion yng Nghymru? (WAQ41970)

**Jane Davidson:** Pan ymgymerir â phrosiectau cyfalaf o dan y rhaglen gyfalaf i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, mae gan Lywodraeth y Cynulliad, corff llywodraethu'r ysgol, cyfarwyddwr yr esgobaeth a'r awdurdod addysg lleol i gyd gyfrifoldebau. Yr wyf yn falch o ddweud bod partneriaeth waith agos wedi bodoli erioed yng nghyswllt cynlluniau o'r fath.

Mae yna hefyd bartneriaethau waith agos rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r awdurdodau lleol wrth ddelio â phrosiectau cyfalaf i ysgolion sy'n cael eu hariannu o dan gynllun grant gwella adeiladau ysgolion y Cynulliad.

## Y Twf yn y Gyllideb ar gyfer Cynnal a Chadw Adeiladau Ysgolion

**Carl Sergeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y twf yn y gyllideb ar gyfer cynnal a chadw adeiladau ysgolion? (WAQ41971)

**Jane Davidson:** Darperir cyllid i atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau ysgolion drwy gyllidebau dirprwyedig yr ysgolion. Unwaith y mae'r awdurdodau lleol wedi gosod eu cyllidebau addysg, dirprwyir arian i ysgolion drwy'r fformiwla ariannu leol yn unol â Rheoliadau Cyllidebau AALl, Cyllidebau Ysgolion a Chyllidebau Ysgolion Unigol (Cymru) 2003.

## Adeiladau Ysgolion

**Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar adeiladau ysgolion yng Nghaerdydd? (WAQ41972)

**Jane Davidson:** Cyfrifoldeb Cyngor Dinas Caerdydd yw adeiladau ysgolion yng Nghaerdydd, ac eithrio adeiladau ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Mae arian ar gael ar gyfer gwaith cyfalaf mewn ysgolion o adnoddau'r awdurdod ei hun—ei ddyraniad arian cyfalaf cyffredinol blynyddol gan y Cynulliad, derbyniadau a benthyca darbodus. Mae'r Cynulliad hefyd yn darparu arian drwy'r grant gwella adeiladau ysgolion sydd wedi'i neilltuo. Mater i'r awdurdod yw penderfynu pa gynlluniau i'w cyllido yng ngoleuni'r anghenion a'r amgylchiadau yn lleol. Dylai'r penderfyniadau adlewyrchu cynllun rheoli asedau'r awdurdod.

Cyfrifoldeb corff llywodraethu'r ysgol yw adeiladau ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Mae arian ar gyfer prosiectau cyfalaf ar gael drwy raglen y Cynulliad i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.

## Gwasanaethau Addysg yn Sir Ddinbych

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau addysg yn Sir Ddinbych? (WAQ41973)

**Jane Davidson:** Mae rhai datblygiadau cyffrous iawn yn y gwasanaethau addysg yn Sir Ddinbych y mae'n werth eu nodi.

Mae grant y blynyddoedd cynnar wedi darparu arian i Sir Ddinbych i sicrhau bod lle rhan-amser ar gael i bob plentyn tair oed y mae ei rieni yn dymuno hynny ac mae hefyd yn darparu arian tuag at sefydlu'r Ganolfan Integredig yn y Rhyl. Canolfan un safle yw'r ganolfan ac mae darpariaeth loeren chwarae mynediad agored i gael ei datblygu. Mae cylch chwarae cyfrwng Saesneg yn cynnig darpariaeth estynedig i blant 0 i 5 oed.

Mae Sir Ddinbych yn un o'r naw awdurdod lleol a ddetholwyd i gymryd rhan ym mheilot y fenter brecwast ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd o fis Medi diwethaf. Mae un ysgol gynradd yn ardal Cymunedau yn Gyntaf Sir Ddinbych yn rhan o'r fenter hon ar hyn o bryd. Hyd yma yn y peilot nid oes ysgolion cynradd ychwanegol yn ardal Cymunedau yn Gyntaf yr awdurdod wedi nodi eu bod am gymryd rhan yn y fenter.

O ran anghenion addysgol arbennig, mae £2.8 miliwn wedi cael ei wario ar ailddatblygu Ysgol Plas Brondyffryn yn Sir Ddinbych fel rhan o'r gwaith o ddatblygu darpariaeth ranbarthol i anhwylderau ar y sbectrwm awtistig yng Ngogledd Cymru. Bydd y ddarpariaeth hon yn fodd i gadw anghenion arbennig plant sydd ag anhwylderau hynod gymhleth ar y sbectrwm awtistig yng ngogledd Cymru yn hytrach na'r trefniadau cyfredol lle rhoddir darpariaeth amrywiol i'r plant hyn mewn ysgolion ar draws y DU. Ysgol Plas Brondyffryn yw'r prosiect rhanbarthol cyntaf o'r math hwn ac mae'r gwaith o'i ddatblygu, er na fu heb rai problemau sydd wedi mynd â llawer o amser, yn torri tir newydd.

Cafodd arian cyfalaf ei ddarparu i ysgol arbennig Tir Morfa. Wrth i gam 2 ddatblygu, mae iechyd yn dod yn rhan o'r cynllun a chaiff yr uned asesu ei lleoli ar y safle. Bydd plant ifanc, felly, yn treulio amser yn yr ysgol yn ystod cyfnodau asesu byr cyn iddynt gael eu hintegreiddio gyda rhaglen arbennig i'w sefydliadau eu hunain. Caiff yr ysgol ei defnyddio hefyd fel canolfan hyfforddi i athrawon ac arweinwyr a bydd cysylltiadau rhwng rhaglen ICC y Rhyl a'r datblygiadau.

Mae Sir Ddinbych wedi cael dros £1 miliwn o dan y rhaglen gwella adeiladau ysgolion.

Ar lefel leol, mae'r agenda 'Ymestyn Hawliau', polisi trosfwaol blaenllaw y Cynulliad Cenedlaethol i bob person ifanc 11 i 25 oed, yn cael ei gyflwyno gan amryw o asiantaethau sy'n cael eu cyd-drefnu gan 22 o Bartneriaethau Pobl Ifanc amlasiantaethol—un ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol ar draws Cymru, yn cynnwys Sir Ddinbych. Mae'r partneriaethau hyn yn cynnwys cyrff sydd â rôl i'w chwarae yn natblygiad ein pobl ifanc. Mae'n ofynnol i'r partneriaethau weithio gyda phobl ifanc i ddatblygu a chynnal archwiliad anghenion wedi'i ddiweddaru a'r ddarpariaeth bresennol gan weithio gyda phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaethau presennol a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn Sir Ddinbych yn cael £14,000 i gynorthwyo i hyfforddi gweithwyr ieuenctid yn 2004-05 a 2005-06. Darparwyd swm o £30,000 i Bartneriaeth Pobl Ifanc Sir Ddinbych yn 2004-05 ar ffurf grant arbennig i gefnogi gweithgaredd datblygu gan ei phartneriaid ym maes cyfranogiad, trafnidiaeth a/neu iechyd rhywiol pobl ifanc.

Yr wyf yn ymwybodol fod AALl Sir Ddinbych yn ddiweddar wedi cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth ysgolion ac wedi nodi nifer o faterion y bydd angen rhoi sylw iddynt, yn cynnwys lleoedd dros ben mewn rhannau o'r sir a phrinder lleoedd yn y gogledd. Nid yw'r awdurdod eto wedi cyrraedd y cam ymgynghori statudol ynghylch ad-drefnu neu gau ysgolion penodol, ond mae'n gwneud gwaith pellach i asesu'r opsiynau a chanfod barn pobl yn lleol.

Mae nifer o ganolfannau yn Sir Ddinbych yn treialu cymhwyster Bagloriaeth Cymru i bobl ifanc 16 i 19 oed. Mae'r peilot yn weithredol o fis Medi 2003 tan fis Awst 2006 ac mae tair carfan wedi cael eu cyhoeddi gydag amseroedd cychwyn gwahanol. Dechreuodd Coleg Glannau Dyfrdwy ac Ysgol Uwchradd Gatholig St. Albans gyflwyno'r Fagloriaeth ym mis Medi 2003 a dechreuodd Ysgol Brynhyfryd ym mis Medi 2004.

Ar hyn o bryd mae 115 o ysgolion yn ymwneud â'r peilot ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 2 sy'n gweithredu rhwng mis Medi 2004 a mis Medi 2006. Sefydlodd y Cynulliad Ganolfan

Wybodaeth ac Ymchwil Cymru ar Ddysgu Ieithoedd fel ein prif bartner ar gyfer y strategaeth genedlaethol ar ieithoedd tramor modern i gyflwyno rhaglen gymorth wedi'i theilwrio ar gyfer dysgu ieithoedd yng Nghymru. Mae un ysgol gynradd, Ysgol Frongoch, yn rhan o'r peilot CA2 hwn yn ardal Sir Ddinbych, yn cyflwyno Ffrangeg i flwyddyn 6. Mae cysylltiad rhyngddi ag Ysgol Uwchradd Dinbych sydd, ar gyfer y prosiect peilot hwn, yn gweithredu fel ysgol arweiniol i Ysgol Frongoch.

Mae CILT Cymru hefyd wedi sefydlu compactau ieithoedd tramor modern gydag ysgolion ar draws Cymru i wella'r safonau dysgu ac addysgu mewn ieithoedd tramor modern yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, a'r gobaith yw y gallai arwain at ragor o ddisgyblion yn dewis ieithoedd mewn ysgolion yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae 50 o ysgolion wedi ymuno â'r compact ac mae saith o'r rheini yn Sir Ddinbych.

Mae CILT Cymru hefyd yn treialu cynllun yng ngogledd Cymru ar hyn o bryd a fydd yn caniatáu i nifer o ysgolion gael help cynorthwywyr ieithoedd modern gwirfoddol. Bu hyn yn bosibl drwy i CILT Cymru sicrhau cymorth myfyrwyr Erasmus o Brifysgol Bangor i weithio mewn ysgolion am bedair awr yr wythnos.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn cynnig am brosiect gan ELWa, o dan y gronfa her dysgu, i ddatblygu rhwydwaith o saith canolfan ddysgu gymunedol yn Sir Ddinbych. Mae'r canolfannau, sydd wedi'u lleoli mewn chwe ysgol ac un siop un stop, wedi'u gwasgaru ledled Sir Ddinbych, a nod y prosiect yw gwella'r ddarpariaeth ôl-16 bresennol yn yr ardal a, thrwy wneud hynny, denu dysgwyr ychwanegol yn y grwp oedran hwn. Gwnaed cais am £2,950,332 o gyllid tuag at brosiect yr amcangyfrifir y bydd yn costio £4,426,888 i gyd.

### Ariannu Addysg yn Sir Ddinbych

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ariannu addysg yn Sir Ddinbych? (WAQ41974)

**Jane Davidson:** Mae Sir Ddinbych wedi elwa drwy gael arian mewn nifer o feysydd allweddol, gan sicrhau bod pobl Sir Ddinbych yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu o safon uchel.

Drwy grant y blynyddoedd cynnar, yr ydym wedi darparu £1,222,300 i Sir Ddinbych i sicrhau bod lle rhan-amser ar gael i bob plentyn tair oed y mae ei rieni yn dymuno hynny a thuag at sefydlu canolfan integredig yn y Rhyl.

Hyd yma, mae Sir Ddinbych wedi cael £14,603 ar gyfer y fenter brecwast ysgol am ddim.

Yr ydym wedi cydnabod bod teuluoedd ar incwm isel yn aml yn ei chael hi'n anodd talu costau gwisg ysgol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru felly wedi rhoi cymorth i gynllun benthyciadau cost isel gan undebau credyd ym mlwyddyn ariannol 2004-05 i helpu rhieni i gwrdd â'r costau o brynu gwisg ysgol. Mae'r cynllun wedi gweithredu yn ardaloedd 4 undeb credyd yn Sir Ddinbych (Arfordir Clwyd). Canolfan Gydweithredol Cymru sy'n rheoli'r cynllun.

O ran anghenion addysgol arbennig, mae cyfanswm o £12 miliwn wedi cael ei ddarparu gan y Cynulliad i helpu AALlau i ddatblygu cyfleusterau rhanbarthol. Mae rhyw £2.8 miliwn o'r swm hwn eisoes wedi cael ei wario ar ailddatblygu Ysgol Plas Brondyffryn yn Sir Ddinbych fel rhan o'r gwaith o ddatblygu darpariaeth ranbarthol ar gyfer anhwylderau ar y sbectrwm awtistig yng ngogledd Cymru.

Bydd y ddarpariaeth hon yn fodd i gadw anghenion arbennig plant sydd ag anhwylderau hynod gymhleth ar y sbectrwm awtistig yng ngogledd Cymru yn hytrach na'r trefniadau cyfredol lle rhoddir darpariaeth amrywiol i'r plant hyn mewn ysgolion ar draws y DU. Ysgol Plas Brondyffryn yw'r prosiect rhanbarthol cyntaf o'r math hwn ac mae'r gwaith o'i ddatblygu, er na fu heb rai problemau sydd wedi mynd â llawer o amser, yn torri tir newydd.

Mae Sir Ddinbych wedi cael yr arian canlynol o dan y rhaglen Grant Gwella Adeiladau Ysgolion:
2002-03-£2,087,292.94

2003-04-£320,707.06
2004-05-£1,044,590

O dan y ‘dyraniadau £9 miliwn’ i brosiectau mawr, mae Sir Ddinbych wedi cael cymeradwyaeth i:

Prestatyn – ysgol gynradd newydd:
2005-06-£200,000
2006-07-£2,500,000
2007-08-£800,000

Ysgol Glan Clwyd – labordai gwyddoniaeth newydd:
2005-06-£75,000
2006-07-£925,000

Ysgol Dinas Bran ac Ysgol Brynhyfryd – cyfleusterau bwyta:
2005-06-£200,000
2006-07-£700,000
2007-08-£600,000

Ysgol Emmanuel, y Rhyl – estyniad 4 ystafell ddosbarth:
2005-06-£300,000
2006-07-£200,000

Darparwyd arian cyfalaf hefyd ar gyfer ysgol arbennig Tir Morfa. Wrth i gam 2 ddatblygu, mae iechyd yn dod yn rhan o'r cynllun a chaiff yr uned asesu ei lleoli ar y safle. Bydd plant ifanc, felly, yn treulio amser yn yr ysgol yn ystod cyfnodau asesu byr cyn iddynt gael eu hintegreiddio gyda rhaglen arbennig i'w sefydliadau eu hunain. Caiff yr ysgol ei defnyddio hefyd fel canolfan hyfforddi i athrawon ac arweinwyr a bydd cysylltiadau rhwng rhaglen ICC y Rhyl a'r datblygiadau.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn Sir Ddinbych yn cael £14,000 i gynorthwyo i hyfforddi gweithwyr ieuenctid yn 2004-05 a 2005-06. Darparwyd swm o £30,000 i Bartneriaeth Pobl Ifanc Sir Ddinbych yn 2004-05 ar ffurf grant arbennig i gefnogi gweithgaredd datblygu gan ei phartneriaid ym meysydd cyfranogiad, trafnidiaeth a/neu iechyd rhywiol pobl ifanc.

Mae £50,000 yn cael ei ddarparu hefyd yn 2005-06 ar ffurf grant arbennig i gefnogi gweithgaredd datblygiadol gan bartneriaid y Bartneriaeth Pobl Ifanc ym meysydd cyfranogiad, trafnidiaeth a/neu iechyd rhywiol.

O dan setliad refeniw llywodraeth leol ar gyfer 2005-06, bydd Sir Ddinbych yn cael £111.8 miliwn mewn cymorth refeniw heb ei neilltuo y flwyddyn nesaf, cynnydd o 4.4 y cant ar 2004-05. Nid oes gwybodaeth am gyllidebau addysg yr awdurdodau lleol ar gyfer 2005-06 ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dangosodd fy adroddiad i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ym mis Gorffennaf 2004 ar y cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2004-05 fod Sir Ddinbych wedi cynyddu ei chyllideb addysg net 7.7 y cant eleni, yn uwch na'r cynnydd yn y setliad ar gyfartaledd am y drydedd flwyddyn yn olynol. Byddaf yn adrodd i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ym mis Gorffennaf ar y cyllidebau addysg a bennir ar gyfer 2005-06.

Bydd llywodraeth leol yn cael bron i £3.3 biliwn drwy'r setliad y flwyddyn nesaf i ariannu gwasanaethau allweddol. Mae hynny'n cynrychioli cynnydd o 5.1 y cant neu £159 miliwn ar yr hyn a dderbyniodd yr awdurdodau y llynedd. Byddant hefyd yn cael dros £52 miliwn ar ffurf cyllid ychwanegol heb ei neilltuo (grant cymell perfformiad - £31 miliwn a grant amddifadedd - £21 miliwn). Drwyddo draw mae'r sectliad yn un teg a rhesymol ac mae'n rhoi cynnydd uwch na chwyddiant i'r awdurdodau i gyd.

Mae ELWa yn darparu arian i awdurdodau addysg lleol ar gyfer y chweched dosbarth. Ar gyfer 2005-06, mae ELWa wedi cynyddu cyfanswm y cyllid sydd ar gael i ryw £108.9 miliwn gyda Sir Ddinbych yn cael

£3.9 miliwn. Darparodd ELWa ryw £241 miliwn hefyd ar gyfer darpariaeth AB drwy ei fethodoleg cyllid rheolaidd ar gyfer blwyddyn academaidd 2004-05. O'r swm hwn, cafodd Coleg Llandrillo £14.8 miliwn a Choleg Llysfasi £2.2 miliwn.

**Datblygu Cwmnïau Cydweithredol Ifanc**

**Lorraine Barrett:** Pa gamau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i annog ysgolion i ddatblygu Cwmnïau Cydweithredol Ifanc? (WAQ41975)

**Jane Davidson:** Cyfeiriaf yr Aelod at WAQ38722, WAQ40245 ac OAQ0063(ELL), lle y dywedais fod hyrwyddo cwmnïau cydweithredol ifanc yn rhan o'n hagenda ehangach i ddatblygu economi gymdeithasol gynaliaday ac adfywio ein cymunedau, a nodais y gweithredu sy'n digwydd mewn ysgolion i annog menter ac entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc.

**Y Ddarpariaeth ar gyfer yr Anabl mewn Ysgolion yng Nghymru**

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth ar gyfer yr anabl mewn ysgolion yng Nghymru? (WAQ41976)

**Jane Davidson:** Mae gwella mynediad at addysg i ddisgyblion anabl yn elfen allweddol o weithredu cyfrifoldeb statudol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 i gyflawni ei swyddogaethau o ran darparu cyfle cyfartal i bawb.

Mae Rhan IV o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001) yn cynnwys dyletswydd ar AALlau ac ysgolion i gynllunio i wneud ysgolion yn fwyfwy hygyrch i ddisgyblion anabl (y ddyletswydd gynllunio). Daeth y ddyletswydd hon i rym ym mis Hydref 2003 yng Nghymru a dylai strategaethau hygyrchedd AALlau a chynlluniau hygyrchedd ysgolion fod wedi eu sefydlu erbyn 1 Ebrill 2004. Cylchredwyd cylchlythyr canllawiau 15/2004 i AALlau ac ysgolion ym mis Mawrth 2004.

Bydd y ddyletswydd gynllunio yn helpu AALlau ac ysgolion i wella mynediad i ddisgyblion anabl mewn ffordd strategol, wedi'i chynllunio, ac wrth wneud hynny bydd yn galluogi disgyblion anabl i ddatblygu i'w llawn botensial yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn 'Y Wlad sy'n Dysgu'.

Disgrifir cymorth i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yng nghod ymarfer AAA Cymru 2002. Mae'n amlinellu'r gweithdrefnau sydd i gael eu mabwysiadu ar gyfer ystod o anghenion addysgol arbennig.

**Annog Mentrau Awyr Agored Mewn Ysgolion**

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar annog mentrau awyr agored mewn ysgolion? (WAQ41977)

**Jane Davidson:** Mater yn y lle cyntaf i AALlau ac ysgolion yw penderfynu i ba raddau y maent yn defnyddio'r amgylchedd awyr agored. Byddwn, fodd bynnag, yn eu hannog i wneud hynny cyn belled ag sy'n ymarferol.

Mae defnyddio'r amgylchedd awyr agored yn elfen allweddol o'r cyfnod sylfaen newydd yr ydym yn ei gyflwyno i blant 3-7 oed lle y rhagwelir y bydd yn darparu cyfleoedd i blant i ddysgu drwy brofiad personol a datrys problemau mewn bywyd go-iawn. Yn gefn i'r ymrwymiad hwn, yr ydym yn cefnogi'n arbennig yn ein hysgolion a'n sefydliadau peilot nifer sy'n gysylltiedig â menter ysgolion y goedwig.

Mae fforwm coedlannau Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi cael ei gomisiynu'n benodol i adolygu'r ymchwil a'r arferion gorau ar hyn o bryd yng nghyswllt y mater pwysig hwn ac i lunio canllawiau ar ddysgu yn yr awyr agored. Dylai'r canllawiau hyn fod ar gael erbyn yr haf. Yr ydym hefyd

yn cefnogi astudiaeth ddichonoldeb gan Learning through Landscapes a disgwylir eu hadroddiad nhw o fewn y ddau fis nesaf yn fras.

**Dyled Myfyrwyr**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyled myfyrwyr yng Nghymru? (WAQ41978)

**Jane Davidson:** Dangosodd y data diweddaraf a ryddhawyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau (o'r arolwg o incwm a gwariant myfyrwyr) fod y ddyled ddisgwyliedig ar gyfartaledd o bob ffynhonnell i fyfyrwyr oedd yn graddio yn 2002-03 yn £8,666. Nid oes ffigurau ar wahân am fyfyrwyr o Gymru na myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau yng Nghymru.

**Buddsoddiad mewn Dysgu ôl-16 ym Merthyr Tudful a Rhymni**

**Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fuddsoddiad mewn dysgu ôl-16 ym Merthyr Tudful a Rhymni? (WAQ41979)

**Jane Davidson:** Dyrannwyd cyllideb o ryw £520 miliwn i ELWa ar gyfer 2004-05 gogyfer ag addysg ôl-16 ledled Cymru. Derbyniodd AALlau Merthyr Tudful a Chaerffili ryw £8 miliwn ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth a dysgu yn y gymuned i oedolion. Ar gyfer addysg bellach, darparodd ELWa ryw £12 miliwn i golegau Merthyr Tudful ac Ystrad Mynach. Dim ond ar sail ranbarthol y mae gwybodaeth am gontractau dysgu seiliedig ar waith ar gael: yn rhanbarth de-ddwyrain Cymru yn 2004-05 mae rhyw £51 miliwn wedi cael ei ddyrannu.

Mae ELWa wedi cael cyllideb o ryw £544 miliwn ar gyfer 2005-06: ac ers hynny mae ELWa wedi cyhoeddi dyraniadau i'r AALlau ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Mae AALlau Merthyr Tudful a Chaerffili i dderbyn rhyw £8 i gyd ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth a dysgu i oedolion a dysgu yn y gymuned. Caiff dyraniadau ar gyfer addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith eu cyhoeddi'n fuan.

Mae nifer o gynlluniau wedi cael eu sefydlu hefyd ym Merthyr a Rhymni i wella ansawdd, ehangu'r dewis i ddysgwyr, ac annog cyfranogiad. Mae ELWa wedi cyfrannu rhyw £750,000 tuag at astudiaeth ddichonoldeb am gampws dysgu gydol oes i Ferthyr Tudful i ddarparu cyfleoedd dysgu a all helpu unigolion i gyflawni hyd eithaf eu potensial a gwneud busnesau yn yr ardal leol yn fwy cystadleuol. Dechreuodd yr astudiaeth ym mis Mehefin 2004 a disgwylir adroddiad erbyn mis Ebrill 2006.

Mae strategaeth sgiliau sylfaenol genedlaethol Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cefnogi amryw o gynlluniau ôl-16 yn yr ardal, yn cynnwys y cynllun adduned cyflogwyr a'r nod ansawdd sgiliau sylfaenol ôl-16, a gynhaliwyd gan Golegau Merthyr ac Ystrad Mynach a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae pob un o'r rhwydweithiau 14-19 yng Nghymru, yn cynnwys y rheini ym Merthyr Tydfil a Chaerffili, wedi cael £50,000 oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo'r gwaith o weithredu llwybrau dysgu i bobl ifanc 14-19 oed.

Yn ddiweddar hefyd mae ELWa wedi cyhoeddi y bydd cynllun braenaru daearyddol yn cael ei leoli ym Merthyr yn y don gyntaf o'r fenter hon i Gymru gyfan. Bydd y cynllun braenaru yn archwilio'r ffordd orau o ddatblygu darpariaeth ôl-16 yn y cylch a bydd yn helpu darparwyr i ganolbwyntio ar gryfderau ac anghenion, ac yn eu galluogi i ddatblygu addysg a hyfforddiant yn unol â hynny.

I gyd-fynd â'r gwaith braenaru, mae ELWa bellach wedi lansio ei gronfa cyd-fuddsoddi. Bydd y gronfa yn ysgogiad i ddarparwyr feddwl yn greadigol a llunio cynigion ymarferol i weithio gyda'i gilydd. Bydd buddsoddiad ELWa o £6m yn hwb sylweddol i'r rhwydwaith darparwyr i wneud cydweithio yn realiti, nid yn unig ym Merthyr ac ardaloedd braenaru eraill ond ledled Cymru.

**Prosiectau'r Sefydliad Eco Schools yn Sir y Fflint**

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brosiectau'r sefydliad Eco Schools yn Sir y Fflint? (WAQ41980)

**Jane Davidson:** Mae Eco-ysgolion yn rhaglen ragorol sy'n annog disgyblion i ymdrin yn weithredol â materion amgylcheddol a datblygu cynaliadwy ac mae Sir y Fflint wedi bod ar flaen y gad wrth iddi dyfu yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae 34 o ysgolion Sir y Fflint wedi cofrestru ar y rhaglen Eco-ysgolion ac yn 1994 cafodd Ysgol Uwchradd Treffynnon y bri o fod yr Eco-ysgol gyntaf yng Nghymru. Yr ysgol ddiweddaraf i ymuno yw Ysgol Gynradd Maesglas, a gofrestrodd ym mis Ionawr 2005.

Gall Sir y Fflint ymfalchïo hefyd fod un o'r tair ysgol sydd â dyfarniad 'parhaol' wedi ei lleoli yma: mae Ysgol Gynradd Northop Hall wedi ennill Baner Werdd Ewrop, dyfarniad o bwys, ddim llai na phedair o weithiau. Mae hynny'n golygu nad yw Cadwch Gymru'n Daclus mwyach yn gorfod cynnal asesiadau yno, gan fod datblygu cynaliadwy yn cael ei weld fel rhywbeth sydd wedi ei wreiddio yn arferion gwaith a rheolaeth yr ysgol. Mae tair ysgol arall sy'n dal y Faner Werdd, sef Ysgolion Cynradd Greenfield, Golftyn a Ewloe Green.

Yr wyf yn falch fod Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy ei grant addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ESDGC), yn cynorthwyo Cadwch Gymru'n Daclus ar hyn o bryd i ddatblygu ei raglen Eco-ysgolion. Yn wir, ar 28 Chwefror, cyhoeddais bedwaredd blwyddyn o arian grant ESDGC a gwahoddais geisiadau gan unigolion a chyrff sy'n dymuno defnyddio'r £150,000 o adnoddau sydd ar gael i gefnogi prosiectau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

**Astudiaeth Estyn**

**Lisa Francis:** Ymhellach at WAQ41716, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pryd y mae disgwyl i astudiaeth Estyn gael ei chwblhau? (WAQ42000)

**Jane Davidson:** Byddaf yn ysgrifennu atoch yn fuan a chaiff copi o'r llythyr ei gyhoeddi ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd.

**Isafswm Oriau ar gyfer Addysg Rhyw**

**Lisa Francis:** Ymhellach at WAQ41716, a ydyw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried pennu isafswm oriau ar gyfer addysg rhyw? (WAQ42001)

**Jane Davidson:** Byddaf yn ysgrifennu atoch yn fuan a chaiff copi o'r llythyr ei gyhoeddi ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd.

**Addysg Rhyw a Chydberthynas**

**Lisa Francis:** Ymhellach at WAQ41716, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y nodau a'r amcanion a roddwyd i Estyn mewn perthynas â'u hastudiaeth i addysg rhyw a chydberthynas yng Nghymru? (WAQ42002)

**Jane Davidson:** Byddaf yn ysgrifennu atoch yn fuan a chaiff copi o'r llythyr ei gyhoeddi ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd.

**Grŵp Rees**

**Lisa Francis:** A wnaeth y Gweinidog gyfarwyddo Grŵp Rees i osgoi ystyried diddymu ffioedd dysgu yng Nghymru? (WAQ42014)

**Jane Davidson:** Cyhoeddais gylch gwaith adolygiad Rees ar ôl i Ddeddf Addysg Uwch 2004 gael Cydsyniaeth Frenhinol.
Mae ar gael ar http://www.learning.wales.gov.uk/scripts/fe/news_details.asp?NewsID=1151. Mae'r adolygiad yn ystyried opsiynau o ran y swyddogaethau ffioedd hyfforddi a chymorth i fyfyrwyr a drosglwyddwyd i'r Cynulliad gan y Ddeddf a bydd yn cyflwyno ei adroddiad terfynol imi ym mis Ebrill.

## Lleoedd Gofal Plant

**Lisa Francis:** A ydyw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi pennu unrhyw dargedau ar gyfer cynyddu nifer y lleoedd gofal plant yng Nghymru? (WAQ42015)

**Lisa Francis:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gynyddu nifer y lleoedd gofal plant yng Nghymru? (WAQ42016)

**Jane Davidson:** Gweithiodd Llywodraeth y Cynulliad gyda phartneriaid i gyrraedd a rhagori ar y targed yn 'Gwell Cymru' o greu 22,000 o leoedd gofal plant newydd erbyn mis Mawrth 2003. Crëwyd dros 24,000 o leoedd newydd o dan raglen cyllido gofal plant y tu allan i oriau ysgol y Gronfa Cyfleoedd Newydd.

Yng nghyllideb ddiwethaf y Cynulliad, cyhoeddwyd arian newydd sylweddol ar gyfer rhaglenni'r blynyddoedd cynnar a chynllun grantiau Cymorth. Bydd y rhain yn caniatáu ymyriadau i wella cyfleoedd oes plant dan anfantais, yn cynnwys gofal plant o ansawdd dda. Mae cynnydd o £79 miliwn yn cael ei ddarparu i'r dibenion hyn dros gyfnod y gyllideb.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi gwneud cais llwyddiannus am ryw £12.5 miliwn o arian strwythurol Ewropeaidd ar gyfer darpariaeth gofal plant ar draws Cymru. Mae gan y prosiect, sy'n dwyn y teitl Genesis Cymru, darged i greu 8,500 o leoedd gofal plant dros ei oes dair blynedd.

Yr ydym hefyd wedi lansio'r peilot gofal plant i ysgolion bro yn ardal Tor-faen ym mis Medi 2004. Bydd hwn yn rhoi prawf ar yr haeriad fod diffyg gofal plant hygyrch, fforddiadwy, yn rhwystr rhag gweithio drwy ddarparu'r gofal plant y mae ar rieni unigol ei angen er mwyn cael gwaith. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi darparu oddeutu £529,000 o gyllid i Gymru ar gyfer y prosiect 18 mis hwn.

Byddaf yn dod â chynllun newydd ar gyfer gofal plant, yn adeiladu ar waith y tasglu gofal plant, gerbron i'w drafod mewn cyfarfod llawn yn ddiweddarach yn y gwanwyn.

## Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd Oedolion

**Lisa Francis:** Pa dargedau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu pennu i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd oedolion yng Nghymru? (WAQ42017)

**Jane Davidson:** Dyfynnai ein strategaeth sgiliau sylfaenol, a lansiwyd ym mis Ebrill 2001, y targedau dysgu cenedlaethol a oedd yn bodoli bryd hynny, gan gydnabod y cyfraniad y mae gwell sgiliau sylfaenol yn ei wneud tuag at dargedau addysgol ehangach. I oedolion, y targed oedd y dylai fod gan 90 y cant o oedolion sgiliau llythrennedd 'gweithredol' a 60 y cant sgiliau rhifedd 'gweithredol' erbyn 2004.

Byddwn yn cyhoeddi strategaeth sgiliau sylfaenol ddiwygiedig ym mis Ebrill eleni ac, fel rhan o hynny, byddwn yn gosod targedau sydd wedi'u diffinio'n fwy penodol, wedi'u seilio ar y safonau cenedlaethol newydd i lythrennedd a rhifedd oedolion ac ar ymchwil llinell sylfaen diweddar.

## Gwella Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd Plant

**Lisa Francis:** Pa dargedau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu pennu i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd plant yng Nghymru? (WAQ42018)

**Jane Davidson:** Mae 'Y Wlad sy'n Dysgu' yn nodi fy ymrwymiad i roi i bob plentyn y cychwyn gorau mewn bywyd a'r cyfle i gyrraedd ei lawn botensial. Llythrennedd a rhifedd yw'r sylfaen ar gyfer dysgu yn yr ysgol a gydol oes. Ar y sail hon pennwyd targedau heriol i'r pynciau craidd i gyd yn cynnwys y rheini y mae a wnelont yn uniongyrchol â datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd—Cymraeg, Saesneg a Mathemateg.

Pennir y targedau allweddol i ddisgyblion yn y sector hwn yn ôl cyfnod allweddol. Yng nghyfnod allweddol 2, dylai canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 o leiaf yn y pynciau craidd gynyddu i'r ystod 80-85 y cant o 2004, i 85-90 y cant erbyn 2007 ac i 90 y cant erbyn 2010. Yng nghyfnod allweddol 3, erbyn 2004 i 2007 dylai canran y rhai sy'n cyrraedd lefel 5 o leiaf yn y pynciau craidd fod yn 80 i 85 y cant, gyda 85 i 90 y cant yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig erbyn 2010.

Bu cynnydd da yng nghyfnod allweddol 2 ond yng nghyfnod allweddol 3 mae tystiolaeth fod y canlyniadau wedi cyrraedd man gwastad. I fynd i'r afael â'r targedau, mae'r awdurdodau lleol gan weithio gydag ysgolion wedi sefydlu strategaethau llythrennedd a rhifedd sydd wedi'u teilwrio i amgylchiadau ac anghenion lleol. Ym mhob achos caiff y cynnydd ei adolygu'n rheolaidd ac mae cynlluniau gwella manwl yn cael eu nodi yng nghynllun strategol addysg yr awdurdod.

Mae'r Cynulliad yn cefnogi'r gwaith hwn drwy ddarparu adnoddau a glustnodwyd ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn y gronfa ysgolion gwell gyda ffocws penodol ar godi safonau yng nghyfnod allweddol 3 a thrwy'r gefnogaeth a ddarperir i awdurdodau lleol ac ysgolion i dargedu disgyblion sy'n tangyflawni fel rhan o'r strategaeth sgiliau sylfaenol. Mae'r Cynulliad hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno trefniadau pontio mwy effeithiol a fydd yn sicrhau bod y momentwm da iawn a sefydlwyd yng nghyfnod allweddol 2 i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn cael ei gynnal ym mlynyddoedd cynnar addysg uwchradd.

### Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd Gwael

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael yng Nghymru? (WAQ42019)

**Jane Davidson:** Drwy ein strategaeth sgiliau sylfaenol genedlaethol i bob oedran, a lansiwyd ym mis Ebrill 2001, yr ydym wedi gwneud cynnydd da ym mhob sector i hybu gwella safonau llythrennedd a rhifedd yn gyffredinol yng Nghymru. Cafodd y strategaeth ei gwerthuso yn 2004 ac yr ydym wedi cymryd yr argymhellion o'r gwerthusiad i ystyriaeth wrth ddrafftio ein cynigion ar gyfer strategaeth ar ei newydd wedd i redeg am bum mlynedd o fis Ebrill 2005. Cyhoeddwyd y cynigion hynny er mwyn ymgynghori rhwng mis Rhagfyr 2004 a mis Chwefror 2005 ac mae'r ymatebion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd wrth ddrafftio'r strategaeth derfynol a gaiff ei chyhoeddi ym mis Ebrill.

Cydnabyddir yn gyffredinol fod y strategaeth wedi llwyddo i roi sgiliau sylfaenol yn uchel ar yr agenda, nid yn unig mewn ysgolion a cholegau ond ar draws llu o gyrff megis Canolfan Byd Gwaith, undebau llafur, cynghorau sgiliau sector, y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf a mudiadau yn y sectorau gwirfoddol a chymunedol. Mae ymrwymiad torfol i godi lefelau llythrennedd a rhifedd a byddwn yn parhau i annog a chefnogi'r ymrwymiad hwnnw, drwy ganolbwyntio ar feysydd allweddol lle mae angen gwella a thrwy fynd i'r afael â'r prif rwystrau rhag gwneud cynnydd. Un o'n prif amcanion yn ail gam y strategaeth fydd sicrhau, lle bynnag y mae hynny'n bosibl, fod y gweithgareddau yn cael eu hymgorffori mewn rhaglenni dysgu prif ffrwd fel bod materion sgiliau sylfaenol yn cael sylw fel mater o drefn a bod rhaglenni yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

### Plant sydd wedi Gadael yr Ysgol yn Methu Darllen, Ysgrifennu nac Adio

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y plant yng Nghymru, fesul pob blwyddyn ers 1999, sydd wedi gadael yr ysgol yn methu darllen, ysgrifennu nac adio? (WAQ42020)

**Jane Davidson:** Mae adroddiad diweddaraf y Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant, am flwyddyn ysgol 2003-04, yn rhoi sylwadau manwl ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyrraedd yng nghyfnod allweddol 4 ym mhob pwnc ac, yn arbennig, yn y pynciau sy'n cyfateb agosaf i lythrennedd a rhifedd – Cymraeg, Saesneg a Mathemateg. Mae'r data a gasglwyd gan yr arolygiaeth yn rhoi trosolwg werthfawr gan ei bod yn edrych ar y safonau a gyflawnwyd gan bob disgybl yn nwy flynedd olaf addysg orfodol yn yr ysgolion a gafodd eu harolygu.

Gan droi'n gyntaf at fathemateg, mae Estyn yn adrodd bod y safonau a gyflawnwyd gan ddisgyblion yn foddhaol neu'n well mewn 98 y cant o ddosbarthiadau ac aseswyd bod 67 y cant un ai'n dda neu'n dda iawn. O ran y Saesneg, yr oedd y safonau a gyflawnwyd gan ddisgyblion yn yr holl ddosbarthiadau a arolygwyd yn foddhaol neu'n well ac aseswyd bod 81 y cant yn dda neu'n dda iawn. Mae'r ffigurau am y Gymraeg yn cadarnhau bod y safonau a gyflawnwyd gan ddisgyblion mewn 98 y cant o'r dosbarthiadau a arolygwyd yn foddhaol neu'n well ac aseswyd bod 83 y cant un ai'n dda neu'n dda iawn.

Mae hwn yn ganlyniad calonogol er bod llawer i'w wneud eto i fanteisio ar y llwyfan hwn a gostwng y niferoedd sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig. Gwnaed cynnydd da yn y maes hwn gyda chanran y garfan sy'n gadael heb gymwysterau cydnabyddedig yn gostwng o 3.7 y cant yn 1999 i 2.8 y cant yn 2004. Bydd yr hyblygrwydd a'r cyfleoedd a ddarperir gan ein rhaglen llwybrau dysgu i bobl ifanc 14-19 oed, ynghyd â chymorth wedi'i dargedu i ddisgyblion sy'n tangyflawni drwy ein strategaeth sgiliau sylfaenol, yn ffactorau allweddol wrth wireddu ein hymrwymiad na fydd unrhyw ddisgybl yng Nghymru, erbyn diwedd y degawd, yn gadael yr ysgol heb gymwysterau cydnabyddedig.

Rhoddir ffigurau isod am y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yng nghyfnod allweddol 4 mewn gwahanol bynciau, o 1999 ymlaen. Yn ogystal, rhoddir ffigurau am y niferoedd sy'n gadael addysg amser llawn heb gymwysterau cydnabyddedig.

| % y dosbarthiadau cyfnod allweddol 4 a arolygwyd lle'r oedd y safonau a gyflawnwyd gan y disgyblion yn foddhaol neu'n well | Mathemateg | Cymraeg | Saesneg |
|---|---|---|---|
| 1999-2000 | 90 | 96 | 97 |
| 200001 | 91 | 100 | 95 |
| 2001-02 | 96 | 100 | 98 |
| 2002-03 | 95 | 96 | 98 |
| 2003-04 | 98 | 98 | 100 |

Ffynhonnell – Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru, 2003-04.

| | Nifer y disgyblion yn gadael addysg amser llawn heb gymwysterau cydnabyddedig | Canran y garfan yn gadael addysg amser llawn heb gymwysterau cydnabyddedig |
|---|---|---|
| 1999 | 1,322 | 3.7 |
| 2000 | 1,226 | 3.5 |
| 2001 | 1,122 | 3.0 |
| 2002 | 1,133 | 3.0 |
| 2003 | 1,064 | 2.8 |
| 2004 | 1,080 | 2.8 |

### Oedolion Sydd wedi Gadael yr Ysgol yn Methu Darllen, Ysgrifennu nac Adio

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer yr oedolion yng Nghymru, fesul pob blwyddyn ers 1999, sydd wedi gadael yr ysgol yn methu darllen, ysgrifennu nac adio? (WAQ42021)

**Jane Davidson:** Nid ydym yn casglu data bob blwyddyn am nifer yr oedolion yng Nghymru sydd â sgiliau llythrennedd a rhifedd isel. Mae arolwg drwy Gymru gyfan yn tynnu tua'i derfyn ac mae'r canlyniadau interim yn dangos bod 24 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio â sgiliau llythrennedd islaw lefel 1 ar hyn o bryd a bod gan 53 y cant sgiliau rhifedd islaw'r lefel honno. Nod y lefel hon yw cydnabod gwybodaeth a sgiliau sylfaenol a'r gallu i gymhwyso dysgu gyda chyfarwyddyd neu

oruchwyliaeth. Nid yw'n golygu nad yw'r bobl hyn yn gallu darllen, ysgrifennu nac adio o gwbl. Nid oes modd cymharu'r canlyniadau hyn yn uniongyrchol ag arolygon blaenorol gan fod y mesurau a ddefnyddiwyd i fesur y sgiliau hun wedi cael eu hailddiffinio a bod methodolegau gwahanol wedi cael eu defnyddio.

**Gohebiaeth ag Aelodau Comisiwn Rees**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r holl ohebiaeth a fu rhyngddi hi ag aelodau comisiwn Rees ers iddo gael ei sefydlu yn Medi 2004? (WAQ42101)

**Jane Davidson:** Derbyniais ohebiaeth oddi wrthych dyddiedig 8 Mawrth yn gwneud cais cyffelyb. Mae fy swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn casglu'r ohebiaeth berthnasol ynghyd. Byddaf yn ysgrifennu atoch yn fuan.

**Cost Lleoliadau Gofal Plant i Rieni ar Gyfartaledd**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gost lleoliadau gofal plant yng Nghymru i rieni ar gyfartaledd, ar gyfer pob blwyddyn ers 1999? (WAQ42148)

**Jane Davidson:** Mae'r tabl isod yn nodi costau gofal plant fesul wythnos ar gyfartaledd yn y DU, fel y'u cyhoeddwyd gan Gyllid y Wlad yn ei ystadegau credyd treth.
Nid oes ffigurau ar wahân am Gymru yn cael eu casglu ar hyn o bryd.

| **Dyddiad/Blwyddyn** | **Costau gofal plant a ganiateir ar gyfartaledd (£ yr wythnos) yn y DU** |
|---|---|
| Rhag 2004 | 73.51 |
| Ebr 2004 | 71.12 |
| Ion 2004 | 70.99 |
| Hyd 2003 | 71.37 |
| Gorff 2003 | 71.05 |
| Mai 2002 | 60.62 |
| Chwe 2002 | 59.56 |
| Mai 2001 | 55.92 |
| Chwe 2001 | 54.92 |
| Mai 2000 | 50.16 |
| Chwe 2000 | CT = 45.40<br>CTTG = 49.18 |
| Tach 1999 | CT = 44.63<br>CTTG = 49.36 |

CT = Credyd Teulu
CTTG = Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio

Mae gan Gyllid y Wlad, fodd bynnag, wybodaeth am y cymorth gyda chostau gofal plant a dderbynnir ar gyfartaledd yng Nghymru a thrwy'r DU, a manylir ar hyn yn y tabl isod. Mae hyn yn dangos y budd-dal ar gyfartaledd o'r elfen gofal plant ond nid y costau gofal plant ar gyfartaledd gan y bydd faint o gymorth y mae teulu yn ei dderbyn mewn gwirionedd tuag at gostau gofal plant yn dibynnu nid yn unig ar y costau gofal plant ond hefyd ar incwm y teulu ac amgylchiadau eraill.

| **Dyddiad/Blwyddyn** | **Cymorth ar gyfartaledd gyda chostau gofal plant (£ yr wythnos)** | |
|---|---|---|
| | Y DU | Cymru |
| Rhag 2004 | 51.35 | 46.31 |
| Ebr 2004 | 49.66 | 44.65 |
| Ion 2004 | 49.57 | 44.67 |
| Hyd 2003 | 49.83 | 44.96 |

| | | |
|---|---|---|
| Gorff 2003 | 49.61 | 46.33 |
| Mai 2002 | 39.66 | 37 |
| Chwe 2002 | 39.22 | 37 |
| Mai 2001 | 35.96 | 33 |
| Chwe 2001 | 35.46 | Ddim yn berthnasol |
| Mai 2000 | 32.23 | Ddim yn berthnasol |
| Chwe 2000 | CT = 20.85<br>CTTG = 31.23 | Ddim yn berthnasol |
| Tach 1999 | CT = 21.06<br>CTTH = 30.98 | Ddim yn berthnasol |

CT = Credyd Teulu
CTTG = Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio gyda'r Adran Addysg a Sgiliau, Cyllid y Wlad a'r Adran Gwaith a Phensiynau i gomisiynu arolwg o'r galw o du rheini am ofal plant yng Nghymru a Lloegr. Disgwylir i'r canlyniadau fod ar gael yn yr haf. Mae'r arolwg wedi'i deilwrio ar gyfer amgylchiadau Cymru ac mae'n cynnwys cwestiynau manwl am gostau gofal plant. Bydd canlyniadau i Gymru gyfan ar gael.

### Bysiau Deulawr fel Cludiant i’r Ysgol

**Lisa Francis:** A yw’n fwriad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wahardd y defnydd o fysiau deulawr fel cludiant i’r ysgol yng Nghymru erbyn 2010? (WAQ42149)

**Jane Davidson:** Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad bwerau i gyflwyno gwaharddiad o'r fath. Mae rhoi'r gorau'n raddol i ddefnyddio bysiau deulawr ar gontractau cludiant i'r ysgol erbyn 2010 yn un o nifer o argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ei adroddiad ar gludiant i'r ysgol. Mater ydyw i'w symud yn ei flaen gan yr AALlau yn eu trafodaethau contractyddol gyda chwmnïau bysiau. Byddaf yn ystyried yr argymhellion yn fwy manwl ar ôl i adroddiad y pwyllgor gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill.

### Peiriannau Gwerthu Mewn Ysgolion

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trafodaethau y mae ei swyddogion wedi’u cael â swyddogion o’r Adran Iechyd neu’r Adran Addysg a Sgiliau i drafod peiriannau gwerthu mewn ysgolion? (WAQ42179)

**Jane Davidson:** Mae swyddogion o'r is-adran Hybu Iechyd mewn cysylltiad rheolaidd â swyddogion o'r rhaglen ‘Food in Schools’ yn yr Adran Iechyd. Mae'r rhaglen ‘Food in Schools’ yn Lloegr wedi bod yn treialu wyth ffordd o ymdrin â bwyta'n iach mewn ysgolion, yn cynnwys peiriannau gwerthu â chynnyrch iach, ar ran y naill adran a'r llall. Mae eu canllawiau ar beiriannau gwerthu â chynnyrch iach i fod i gael eu lansio'n fuan.

Mae cysylltiad rheolaidd hefyd â swyddogion perthnasol yng Ngweithrediaeth yr Alban.

### Gohebiaeth wedi’i Derbyn ynghylch Peiriannau Gwerthu Mewn Ysgolion

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba ohebiaeth y mae ei swyddogion wedi’i derbyn ynghylch peiriannau gwerthu mewn ysgolion? (WAQ42181)

**Jane Davidson:** Mae swyddogion o fewn Addysg a Hybu Iechyd wedi derbyn gohebiaeth oddi wrth The Green Machine. Mae'r swyddogion wedi cytuno i gwrdd â chynrychiolwyr o'r cwmni, ond ni chytunwyd eto ar ddyddiad.

Mae swyddogion yn yr is-adran Hybu Iechyd wedi delio ag o leiaf un eitem o ohebiaeth a gyfeiriwyd ymlaen oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Llundain sy'n cynnwys sylwadau am beiriannau gwerthu mewn ysgolion.

Mae swyddogion Hybu Iechyd hefyd wedi bod mewn cysylltiad â nifer o ddarparwyr peiriannau gwerthu di-frand fel rhan o'r broses o dendro am beiriannau i gael eu defnyddio yn y peilot peiriannau gwerthu â chynnyrch iach yn Sir Benfro.

### Peiriannau Gwerthu

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd sydd â a) peiriannau gwerthu traddodiadol b) peiriannau gwerthu traddodiadol yn cynnig nifer fach o fyrbrydau iachach a c) peiriannau gwerthu sydd dim ond yn cynnig dewisiadau iachach? (WAQ42182)

**Kirsty Williams:** A yw’r Gweinidog yn ymwybodol fod nifer o ysgolion yng Nghymru yn cael gwared ar beiriannau gwerthu traddodiadol ac yn eu lle, yn cynnig dewisiadau iachach, sef cynnyrch naturiol sy’n cynnwys llai o halen, braster a siwgwr ac heb flasau artiffisial, lliwiau, melysyddion, cadwolion ac ychwanolion? (WAQ42184)

**Jane Davidson:** Nid oes gwybodaeth yn cael ei dal yn ganolog am nifer y peiriannau gwerthu yng Nghymru. Fodd bynnag, er mwyn helpu i ymateb i'r cwestiwn hwn anfonwyd e-bost at gyd-drefnwyr ysgolion iach yng Nghymru yn holi am eu gwybodaeth am beiriannau gwerthu yn eu hardal. Mae'r atebion, sy'n cwmpasu 14 awdurdod unedol, yn dangos nad ydynt ond yn gwybod am un ysgol gynradd sy'n defnyddio peiriant gwerthu: ond maent i'w cael mewn 80-90 y cant o ysgolion uwchradd. Yr oeddynt yn nodi hefyd fod un awdurdod yn cynnal arolwg o'r peiriannau gwerthu yn ei ysgolion ar hyn o bryd, a bod rhai ysgolion mewn o leiaf bum awdurdod yn arbrofi gyda chynnyrch iachach mewn peiriannau gwerthu.

### Peiriannau Gwerthu Iach mewn Ysgolion

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar beiriannau gwerthu iach mewn ysgolion? (WAQ42183)

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar beiriannau gwerthu mewn ysgolion? (WAQ42185)

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar beiriannau gwerthu iach? (WAQ42180)

**Jane Davidson:** Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyfrifoldeb am beiriannau gwerthu mewn ysgolion.

O dan Adran 512 o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002) gall awdurdodau addysg lleol ddarparu prydau a lluniaeth arall i ddisgyblion yn yr ysgolion y maent yn eu cynnal a rhaid iddynt sicrhau bod darpariaeth o'r fath yn cael ei gwneud ar gyfer disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim.

Fodd bynnag, yr ydym wedi gweithio gydag awdurdod lleol Sir Benfro i dreialu peiriannau gwerthu â chynnyrch iach mewn ysgolion uwchradd. Mae pum ysgol uwchradd, sy'n rhan o'r cynllun ysgolion iach yn lleol, wedi cyflwyno diodydd a bwydydd iach mewn peiriannau gwerthu sydd ar gael gydol y dydd. Rhoddir manylion pellach yn WAQ52189.

Mae tystiolaeth o lwyddiant wedi arwain at ddrafftio dogfen ganllawiau i ysgolion—‘Think Healthy Vending’, sy'n cael ei pharatoi i'w chyhoeddi ar hyn o bryd. Mae'r ddogfen wedi'i hanelu at ysgolion, ond mae'r materion a godir yr un mor gymwys i sefydliadau eraill, a gellid eu defnyddio fel man cychwyn i drafodaeth mewn sefydliadau eraill.

**Dwyieithrwydd o fewn Colegau Addysg Bellach**

**Janet Ryder:** Sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu mynd i'r afael â dwyieithrwydd o fewn colegau Addysg Bellach? (WAQ42189)

**Jane Davidson:** Dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n ofynnol i bob sefydliad addysg bellach lunio cynllun iaith Gymraeg, yn cynnwys cynlluniau i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Cynulliad wedi nodi cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog yn 'Iaith Pawb', sy'n ymgorffori dull strategol ELWa o ymdrin â dysgu dwyieithog ôl-16.

Yn gefn i 'Iaith Pawb', mae ELWa wedi datblygu ei strategaeth ar ddysgu dwyieithog, sy'n cwmpasu holl rychwant ei weithrediadau ar gyfer dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a Chymraeg i Oedolion. Mae wedi ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch ei gynlluniau i ad-drefnu'r rhaglen Cymraeg i Oedolion ac mae hefyd wedi datblygu strategaeth i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol cyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-16. Cefnogir y strategaeth hon gan gynllun tymor hir i wella'r seilwaith ar draws y sector ôl-16 gan ddechrau gyda chwe maes allweddol (hamdden a thwristiaeth, y blynyddoedd cynnar, gofal, busnes a TG, y cyfryngau ac amaethyddiaeth).

Mae ELWa wrthi ar hyn o bryd yn datblygu rhaglen hyfforddi genedlaethol ar gyfer darlithwyr AB a hyfforddwyr preifat, ac mae'n gweithio'n agos gyda'm swyddogion ar ddatblygu rhaglen gyffelyb ar gyfer athrawon ysgol. Bydd y rhaglen yn darparu hyfforddiant gloywi a bydd yn ceisio rhoi hwb i hyder ymarferwyr presennol sydd â'r potensial i ddysgu'n ddwyieithog. Dyrannwyd £3m i ELWa dros y tair blynedd nesaf, fel rhan o gynllun gweithredu 'Iaith Pawb', i sefydlu trefn i dreialu cyfnodau sabothol iaith ar gyfer ymarferwyr fel sylfaen i'r rhaglen hyfforddi, drwy ddarparu cymorth i hyfforddeion a'u cyflogwyr.

Mae ELWa hefyd yn cynorthwyo Canolfan Sgiliaith yng Ngholeg Meirion Dwyfor i hyrwyddo a datblygu darpariaeth ddwyieithog ac i wasanaethau fel canolfan adnoddau sy'n darparu help a chyngor ar draws y sector AB.

**Arian Ychwanegol i Hyfforddi Staff a Chynyddu Dwyieithrwydd o Fewn Colegau**

**Janet Ryder:** A oes gan y Llywodraeth unrhyw gynlluniau ar gyfer darparu arian ychwanegol i hyfforddi staff a chynyddu dwyieithrwydd o fewn colegau? (WAQ42190)

**Jane Davidson:** Mae £1 miliwn wedi cael ei ddyrannu i ELWa ym mhob un o'r tair blynedd nesaf er mwyn bwrw ymlaen â'i raglen hyfforddi genedlaethol i ymarferwyr a'r cynllun cyfnodau sabothol peilot cysylltiol sy'n sail i'r rhaglen honno.

Nod y rhaglen hyfforddi genedlaethol i ymarferwyr yw cynyddu'r gronfa o staff sy'n gallu cyflwyno cyrsiau ac asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r nifer o gyrsiau y mae modd eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. I ddechrau caiff y rhaglen ei thargedu at ymarferwyr ôl-16 sy'n siarad Cymraeg hyd at safon weddol rugl ond nad oes ganddynt ar hyn o bryd yr hyder, y derminoleg arbenigol neu'r sgiliau ysgrifenedig i allu addysgu neu hyfforddi'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd y cynllun cyfnodau sabothol yn sylfaen i'r rhaglen hyfforddi genedlaethol i ymarferwyr drwy roi cymorth ariannol i ymarferwyr sy'n dymuno manteisio ar y rhaglen hyfforddi a'u cyflogwyr. Bydd y costau cymwys yn cynnwys taliadau i'r coleg neu'r corff hyfforddi ar gyfer darpariaeth gyflenwi; costau teithio i'r hyfforddeion; costau llety lle bo hynny'n angenrheidiol; a rhywfaint o gostau cyflenwi ar gyfer hyfforddiant dilynol neu i baratoi deunyddiau addysgu.

Mae ELWa wedi dangos ei ymrwymiad ei hun drwy ddyblu nifer y staff a lefel yr adnoddau a ddyrennir i'w uned dysgu dwyieithog. Erbyn hyn mae gan yr uned staff o wyth aelod a chyllideb o ryw £2.6 miliwn ar gyfer 2005-06.

**Gwariant Cyfalaf yn y Sector Addysg Bellach**

**Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r gwariant cyfalaf yn y sector addysg bellach, fesul etholaeth y Cynulliad ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf? (WAQ42191)

**Jane Davidson:** Mae ELWa wedi darparu rhyw £39 miliwn dros y tair blynedd academaidd flaenorol yn benodol ar gyfer gwariant cyfalaf. Yn y flwyddyn academaidd hon mae £17.4 miliwn wedi cael ei ddyrannu ar gyfer gwariant cyfalaf.

Yn ogystal, ariennir gwariant cyfalaf arwyddocaol yn uniongyrchol gan golegau yn defnyddio eu cronfeydd ariannol eu hunain, benthyciadau allanol neu arian Ewropeaidd.

Nid oes ffigurau am wariant cyfalaf colegau ar gael fesul etholaeth. Nodir yn y tabl isod gyfanswm gwariant cyfalaf pob coleg fel y'i nodwyd yng nghyfrifon statudol y sefydliadau.

| **Awdurdod** | **2001-02** | **2002-03** | **2003-04** |
|---|---|---|---|
| Aberdâr * | 175,422 | 135,972 | - |
| Y Barri | 420,000 | 866,000 | 837,000 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2,271,000 | 2,627,000 | 885,000 |
| Ceredigion | 307,000 | 166,000 | 167,000 |
| Glannau Dyfrdwy | 1,321,000 | 4,320,000 | 738,000 |
| Glan Hafren | 2,188,000 | 415,000 | 176,000 |
| Gorseinon | 2,277,000 | 1,455,000 | 799,000 |
| Gwent | 4,789,000 | 5,455,000 | 5,813,000 |
| Harlech | 758,630 | 324,670 | 386,341 |
| Coleg Garddwriaeth Cymru | 117,673 | 177,688 | 147,016 |
| Llandrillo | 2,654,000 | 4,988,000 | 1,887,000 |
| Llysfasi | 305,506 | 271,645 | 102,401 |
| Meirion Dwyfor | 77,376 | 575,901 | 1,282,668 |
| Menai | 1,422,000 | 1,921,000 | 1,846,000 |
| Merthyr Tudful | 255,000 | 573,780 | 385,000 |
| Morgannwg * | - | 956,000 | 861,000 |
| Castell-nedd Port Talbot | 922,000 | 4,341,000 | 3,818,000 |
| Sir Benfro | 939,000 | 3,963,000 | 1,037,000 |
| Pontypridd * | 762,000 | - | - |
| Powys | 485,000 | 119,000 | 555,000 |
| Sir Gâr | 226,000 | 2,628,000 | 719,000 |
| Tyddewi | 492,000 | 998,000 | 220,000 |
| Abertawe | 715,000 | 1,511,000 | 1,190,000 |
| WEA y De | 136,991 | 71,304 | 34,410 |
| Iâl | 1,600,000 | 872,000 | 635,000 |
| Ystrad Mynach | 865,000 | 3,481,000 | 1,412,000 |
| YMCA | 30,891 | 41,090 | 293,493 |
| Cyfanswm | **26,512,489** | **43,254,050** | **26,226,329** |

***** Yn ystod 2002-03 unodd colegau Pontypridd ac Aberdâr i ffurfio Coleg Morgannwg

**Arian a Wariwyd ar Addysg Gynradd ac Addysg Uwchradd Fesul Disgybl**

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar yr arian a wariwyd ar addysg gynradd, ac addysg uwchradd, ar gyfer pob disgybl, fesul awdurdod addysg lleol, yn 2004-05? (WAQ42192)

**Jane Davidson:** Rhoddir gwybodaeth gymharu am y gwariant a gyllidebwyd fesul disgybl ar draws yr awdurdodau lleol yng Nghymru, wedi'i ddadansoddi rhwng y sector cynradd a'r sector uwchradd, yn yr adroddiad a gyflwynaf yn flynyddol i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Mae fy adroddiad i'r pwyllgor ar 7 Gorffennaf 2004 yn dadansoddi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2004/05 ar gael ar http://www.wales.gov.uk/servlet/EducationAndLifelongLearningCommittee?area_code=39EEFDE30004A6480000713800000000&document_code=N0000000000000000000000000022307&p_arch=post&module=dynamicpages&month_year=7|2004.

**Cyllideb Addysg**

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion faint o arian y mae pob awdurdod lleol wedi'i wario ar addysg bob blwyddyn ers 1999, a sut y mae hyn yn cymharu â'u hasesiad o wariant safonol ar gyfer addysg? (WAQ42228)

**Jane Davidson:** Dengys Tabl 1 sydd ynghlwm wrth yr ateb hwn wariant refeniw net pob awdurdod lleol ar addysg bob blwyddyn rhwng 1999-2000 a 2004-05. Mae Tablau 2 a 3 yn rhoi ffigurau'r asesiadau o wariant safonol wedi'u rhannu rhwng gwasanaethau am 2005-06 a 2004-05 – y ddwy flynedd y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi'r data hwn amdanynt gyda manylion setliad refeniw llywodraeth leol.

Dadansoddiad tybiannol o'r dyraniad fesul awdurdod a fesul gwasanaeth a geir wrth rannu ffigurau'r asesiadau o wariant safonol a rhydd hyn inni'r cefndir i sut mae dyraniad y grant cynnal refeniw yn cael ei ddeillio. Nid yw'r grant cynnal refeniw yn cael ei neilltuo a mater i bob awdurdod yw sut mae'n penderfynu gwario'r grant cynnal refeniw ar draws y gwahanol wasanaethau y mae yn eu darparu.

**Tabl 1**
**Gwariant refeniw net ar Addysg 1999-00 i 2004-05 (£000)**

| Awdurdod | 1999-2000 | 2000-01 | 2001-02 | 2002-03 | 2003-04 | 2004-05 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 31,282 | 33,158 | 35,300 | 34,510 | 38,371 | 40,966 |
| Gwynedd | 50,830 | 54,619 | 58,173 | 58,460 | 64,911 | 69,060 |
| Conwy | 43,744 | 47,141 | 51,293 | 51,118 | 57,045 | 62,368 |
| Sir Ddinbych | 39,793 | 41,600 | 44,716 | 45,932 | 50,732 | 54,673 |
| Sir y Fflint | 64,175 | 65,880 | 69,122 | 69,496 | 78,077 | 81,879 |
| Wrecsam | 50,303 | 53,854 | 56,882 | 59,648 | 65,490 | 68,897 |
| Powys | 61,053 | 64,402 | 69,804 | 69,002 | 75,807 | 79,390 |
| Ceredigion | 34,727 | 36,576 | 39,223 | 37,578 | 41,696 | 43,401 |
| Sir Benfro | 54,789 | 58,435 | 61,614 | 60,116 | 67,011 | 69,703 |
| Sir Gaerfyrddin | 81,212 | 87,770 | 93,614 | 92,378 | 103,138 | 109,369 |
| Abertawe | 97,072 | 103,115 | 110,290 | 112,777 | 124193 | 130,565 |
| Castell-nedd Port Talbot | 64,928 | 68,606 | 72.703 | 74.517 | 83.132 | 85.241 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 59,211 | 62,135 | 65,574 | 66,412 | 71,836 | 77,066 |
| Bro Morgannwg | 49,057 | 53,472 | 57,362 | 58,453 | 65,825 | 70,870 |
| Rhondda Cynon Taf | 119,218 | 129,861 | 135,635 | 132,595 | 141,650 | 150,072 |
| Merthyr Tudful | 30,771 | 32,301 | 33,943 | 33,030 | 35,710 | 37,004 |
| Caerffili | 81,430 | 85,912 | 91,645 | 92,823 | 102,274 | 108,994 |
| Blaenau Gwent | 34,715 | 36,193 | 37,373 | 38,389 | 40,146 | 43,424 |
| Tor-faen | 43,495 | 46,891 | 49,589 | 48,696 | 52,644 | 55,899 |
| Sir Fynwy | 33,939 | 36,455 | 39,365 | 38,860 | 42,209 | 45,016 |
| Casnewydd | 62,884 | 67,835 | 72,400 | 71,124 | 77,753 | 83,683 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Caerdydd | 129,682 | 141,134 | 150,576 | 151,673 | 163,871 | 175,568 |
| Cymru | 1,318,310 | 1,407,345 | 1,496,196 | 1,497,586 | 1,643,521 | 1,743,106 |

Nid yw'r tabl yn cynnwys grantiau felly nid yw'n cynnwys yr arian chweched dosbarth oddi wrth ELWa o 2002-03 ymlaen.

**Tabl 2**
**Setliad Llywodraeth Leol Cymru 2005-06 Sectorau Gwasanaeth yr Asesiad o Wariant Safonol 2005-06**

| **Awdurdod** | **Addysg** | **Gwas. Personol /Cymd.** | **Ffyrdd a Thrafnidiaeth** | **Tân** | **Gwasanaethau eraill** | **Cyfalaf** | **Cyf.** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44,021 | 20,333 | 6,505 | 2,966 | 17,700 | 7,869 | 99,392 |
| Gwynedd | 74,921 | 34,178 | 12,987 | 5,097 | 33,385 | 13,471 | 174,038 |
| Conwy | 65,337 | 36,920 | 9,598 | 4,810 | 28,233 | 10,972 | 155,870 |
| Sir Ddinbych | 59,993 | 30,871 | 7,949 | 4,116 | 23,647 | 10,424 | 137,000 |
| Sir y Fflint | 90,312 | 38,689 | 9,669 | 6,482 | 35,235 | 13,628 | 194,015 |
| Wrecsam | 71,513 | 38,344 | 8,493 | 5,628 | 29,501 | 11,401 | 164,880 |
| Powys | 83,306 | 34,513 | 18,076 | 5,612 | 33,452 | 15,142 | 190,100 |
| Ceredigion | 44,230 | 19,870 | 8,743 | 3,347 | 19,750 | 8,396 | 104,335 |
| Sir Benfro | 75,176 | 33,831 | 11,609 | 5,046 | 31,255 | 12,514 | 169,431 |
| Sir Gaerfyrddin | 109,558 | 54,365 | 16,409 | 7,632 | 43,392 | 18,218 | 249,575 |
| Abertawe | 131,792 | 72,089 | 12,712 | 9,744 | 55,143 | 24,427 | 305,907 |
| Castell-nedd Port Talbot | 86,037 | 45,744 | 8,543 | 5,865 | 33,261 | 14,396 | 193,846 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 80,806 | 37,816 | 8,049 | 5,634 | 30,723 | 12,437 | 175,464 |
| Bro Morgannwg | 75,685 | 32,788 | 7,974 | 5,259 | 27,302 | 10,331 | 159,339 |
| Rhondda Cynon Taf | 154,113 | 74,182 | 13,855 | 10,046 | 57,137 | 25,476 | 334,809 |
| Merthyr Tudful | 37,836 | 19,200 | 3,238 | 2,402 | 13,557 | 6,338 | 82,571 |
| Caerffili | 115,143 | 53,551 | 10,974 | 7,384 | 41,522 | 16,387 | 244,961 |
| Blaenau Gwent | 44,675 | 24,530 | 4,544 | 2,990 | 17,543 | 9,517 | 103,800 |
| Tor-faen | 61,303 | 28,799 | 5,162 | 3,932 | 21,181 | 10,551 | 130,928 |
| Sir Fynwy | 49,823 | 21,307 | 7,462 | 3,739 | 20,048 | 7,450 | 109,828 |
| Casnewydd | 88,866 | 43,676 | 7,854 | 6,042 | 34,359 | 14,547 | 195,344 |
| Caerdydd | 177,929 | 91,620 | 15,933 | 13,669 | 75,482 | 29,601 | 404,234 |
| Cyf. prif gynghorau | 1,822,374 | 887,215 | 216,337 | 127,442 | 722,807 | 303,493 | 4,079,669 |

**Troednodyn:** Mae'r tabl hwn wedi ei fwriadu fel cefndir cyffredinol i'r gwaith o gyfrifo'r asesiadau o wariant safonol.
Dylid ei ystyried fel adroddiad ystadegol i gyd-fynd â'r adroddiad ar gyllid llywodraeth leol.
Rhaid cofio mai dadansoddiad i'r diben o gyfrifo cyfanswm yr asesiad o wariant safonol yn unig yw hwn.
Mae gallu awdurdodau lleol i bennu eu blaenoriaethau gwariant eu hunain yn rhan bwysig o system dosbarthu grant cynnal refeniw Cymru.
Felly, nid yw'r asesiadau o wariant safonol fesul sector yn y tabl hwn wedi'u bwriadu i gael eu defnyddio wrth benderfynu ar y gwariant y mae awdurdodau unigol yn ei gyllidebu ar wasanaethau penodol.

**Tabl 3**
**Dadansoddiad o'r asesiad o wariant safonol (SSA), fesul awdurdod 2004-05 (£ miloedd)**

| | **Domestig arall** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod** | **Addysg** | **Gwas. Personol /Cymd.** | **Ffyrdd a Thraf-nidiaeth** | **Tân** | **Swydd-feydd** | **Gwas. Eraill** | **SSA Cyfalaf** | **Cyf. SSA** |
| Ynys Môn | 41,405 | 18,434 | 6,641 | 2,687 | 202 | 17,498 | 7,727 | 94,594 |
| Gwynedd | 70,775 | 33,822 | 12,652 | 4,651 | 350 | 32,885 | 13,082 | 168,216 |
| Conwy | 61,569 | 33,522 | 9,399 | 4,384 | 331 | 27,861 | 14,830 | 151,896 |
| Sir Ddinbych | 56,797 | 27,347 | 7,726 | 3,739 | 280 | 22,925 | 12,145 | 130,960 |
| Sir y Fflint | 85,211 | 33,510 | 9,490 | 5,923 | 442 | 34,372 | 13,381 | 182,330 |
| Wrecsam | 67,291 | 35,300 | 8,281 | 5,129 | 385 | 28,872 | 11,104 | 156,362 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Powys | 77,967 | 30,143 | 17,340 | 5,056 | 376 | 32,074 | 14,713 | 177,670 |
| Ceredigion | 41,629 | 16,992 | 8,400 | 3,038 | 230 | 18,855 | 10,012 | 99,155 |
| Sir Benfro | 71,168 | 29,938 | 11,250 | 4,572 | 338 | 30,171 | 13,354 | 160,791 |
| Sir Gaerfyrddin | 103,907 | 47,771 | 15,880 | 6,937 | 515 | 41,681 | 17,502 | 234,192 |
| Abertawe | 124,200 | 65,922 | 12,508 | 8,867 | 787 | 53,151 | 24,336 | 289,772 |
| Castell-nedd Port Talbot | 81,428 | 40,653 | 8,384 | 5,340 | 472 | 31,720 | 14,109 | 182,107 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 76,016 | 33,753 | 7,912 | 5,109 | 450 | 29,316 | 12,212 | 164,767 |
| Bro Morgannwg | 70,904 | 29,263 | 7,788 | 4,762 | 417 | 26,205 | 10,196 | 149,535 |
| Rhondda Cynon Taf | 146,711 | 66,761 | 13,645 | 9,163 | 805 | 54,588 | 24,261 | 315,935 |
| Merthyr Tudful | 36,524 | 17,805 | 3,216 | 2,215 | 194 | 13,103 | 6,214 | 79,272 |
| Caerffili | 109,539 | 46,390 | 10,754 | 6,752 | 526 | 39,778 | 19,220 | 232,959 |
| Blaenau Gwent | 43,112 | 20,298 | 4,472 | 2,750 | 214 | 16,878 | 9,320 | 97,045 |
| Tor-faen | 58,325 | 24,557 | 5,112 | 3,605 | 281 | 20,456 | 10,474 | 122,810 |
| Sir Fynwy | 46,962 | 17,155 | 7,155 | 3,366 | 264 | 19,404 | 6,513 | 101,304 |
| Casnewydd | 84,331 | 36,734 | 7,796 | 5,508 | 427 | 32,942 | 21,023 | 188,760 |
| Caerdydd | 166,558 | 86,423 | 15,448 | 12,241 | 1,080 | 71,706 | 28,954 | 382,409 |
| Cymru | 1,722,332 | 792,978 | 211,250 | 155,794 | 9,366 | 696,439 | 314,683 | 3,862,841 |

**Troednodyn:** Mae'r tabl hwn wedi ei fwriadu fel cefndir cyffredinol i'r gwaith o gyfrifo'r asesiadau o wariant safonol.
Dylid ei ystyried fel adroddiad ystadegol i gyd-fynd â'r adroddiad ar gyllid llywodraeth leol.
Rhaid cofio mai dadansoddiad i'r diben o gyfrifo cyfanswm yr asesiad o wariant safonol yn unig yw hwn.
Mae gallu awdurdodau lleol i bennu eu blaenoriaethau gwariant eu hunain yn rhan bwysig o system dosbarthu grant cynnal refeniw Cymru.
Felly, nid yw'r asesiadau o wariant safonol fesul sector yn y tabl hwn wedi'u bwriadu i gael eu defnyddio wrth benderfynu ar y gwariant y mae awdurdodau unigol yn ei gyllidebu ar wasanaethau penodol.

## Gosod Peiriannau Gwerthu Iach Mewn Ysgolion

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba un a yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cynnal unrhyw ymchwil i'r posibilrwydd o osod peiriannau gwerthu iach mewn ysgolion ac a fydd esiampl y peiriant gwyrdd yn cael ei hystyried wrth wneud unrhyw waith yn y maes hwn yn y dyfodol? (WAQ52189)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithio gydag awdurdod lleol Sir Benfro i dreialu cynllun peiriannau gwerthu â chynnyrch iach mewn ysgolion uwchradd.
Nodau'r peilot oedd:

- Ymchwilio i ddichonoldeb darparu peiriannau gwerthu sy'n cynnig bwydydd a diodydd iach mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru o safbwynt amser a dichonoldeb ariannol
- Nodi'r mathau o fwydydd a diod y gellir eu rhoi mewn peiriannau gwerthu, a'r costau priodol
- Canfod problemau posibl o ran defnyddio peiriannau gwerthu â chynnyrch iach
- Gwneud argymhellion o ran arferion da wrth ddefnyddio peiriannau gwerthu â chynnyrch iach.

Cyflwynodd pum ysgol uwchradd, sy'n rhan o'r cynllun ysgolion iach yn lleol, ddiodydd a bwydydd iach sydd ar gael gydol y dydd yn eu peiriannau gwerthu.

Canolbwyntiodd y cynlluniau peilot ar ddefnyddio peiriannau gwerthu di-frand a gâi eu llenwi gan yr ysgol.

Mae'r diodydd yn cynnwys llefrith hanner sgim, llefrith ffres â blas wedi'i ychwanegu sydd â llai na 5 y cant o siwgr; suddion ffrwythau pur; trwythau ffrwythau a dwr plaen llonydd neu befriol.

Mae'r bwydydd iach yn cynnwys baguettes, brechdanau, potiau salad, iogwrt, ffrwythau (cyfan a salad ffrwythau).

Dangosodd yr astudiaeth beilot fod dichon darparu'r bwydydd a'r diodydd hyn o beiriannau gwerthu, ac mai baguettes oedd yr eitem fwyaf poblogaidd o ran gwerthiant.

Mae'r cynlluniau peilot wedi arwain at ddrafftio dogfen ganllaw i ysgolion – 'Think Healthy Vending' – sy'n cael ei pharatoi ar hyn o bryd i'w chyhoeddi.

Nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i ymchwilio i werthiannau peiriannau gwerthu sy'n gysylltiedig â chwmnïau neu gynhyrchion penodol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

### Is-Adrannau

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar nifer y staff sy'n gweithio yn yr is-adrannau canlynol yng Nghaerdydd; yr Is-adran Bwyd a Ffermio, y Gangen Polisi Cefn Gwlad ac Arfordir, y Gangen Gwarchod Natur, yr Is-adran Polisi Gwledig, Rheoli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAPM)? (WAQ41925)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae nifer y staff sy'n gweithio yng Nghaerdydd ym mhob cangen/is-adran a restrwyd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Yr Is-adran Bwyd a Ffermio | 29 |
| Y Gangen Polisi Cefn Gwlad ac Arfordir | 8 |
| Y Gangen Gwarchod Natur | 6 |
| Yr Is-adran Polisi Gwledig | 7 |
| Is-adran CAPM | 93 |

### Cynllun y Taliad Sengl

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynllun y taliad sengl? (WAQ42022)

**Carwyn Jones:** Daeth y cynllun taliad sengl i rym ar 1 Ionawr 2005 yng Nghymru fel yng ngweddill y DU.

Dros y 12 mis diwethaf, gyda chymorth ymgynghori helaeth, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu agweddau gweithredol manwl y cynllun sy'n adlewyrchu anghenion Cymru a ffermio yng Nghymru.

Mae'r taliad sengl yn daladwy rhwng 1 Rhagfyr 2005 a 30 Mehefin 2006.

### Arferion Ffermio sy'n Gyfeillgar i'r Amgylchedd

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo arferion ffermio sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd yng Nghymru? (WAQ42023)

**Carwyn Jones:** Mae dros 30 y cant o'r tir amaethyddol yng Nghymru yn destun cynllun amaeth-amgylcheddol erbyn hyn, boed hwnnw yn Tir Gofal neu'n un o'r cynlluniau a'i rhagflaenodd megis Tir Cymen, Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif neu'r cynllun Cynefinoedd.

Ymysg y cynlluniau newydd mae Tir Cynnal, y cynllun ffermio sy'n ystyried dalgylchoedd, adolygiadau Cyswllt Ffermio o gyfleoedd amgylcheddol a'r cynllun cynnal organig.

Yn ddiweddar mae'r swyddogion wedi ymgynghori ynghylch rheoliadau datblygu gwledig drafft 2007-13 er mwyn ceisio barn gynnar am gynlluniau ar gyfer y dyfodol.

### Diogelu Hebogiaid Tramor

**Glyn Davies:** Pa gorff sy’n gyfrifol am ddiogelu hebogiaid tramor yng Nghymru? (WAQ42033)

**Carwyn Jones:** Gwarchodir hebogiaid tramor o dan adran 1 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, sy'n ei gwneud yn drosedd lladd, anafu neu gymryd yr adar hyn, neu gymryd neu ddinistrio eu nythod neu eu hwyau. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac adrannau eraill y Llywodraeth, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, heddweision troseddau bywyd gwyllt a'r RSPB yn gweithio mewn partneriaeth i godi ymwybyddiaeth, hyrwyddo arferion da a, lle bo raid, gweithredu i sicrhau bod bywyd gwyllt yn cael ei ddiogelu yn unol â'r ddeddfwriaeth.

### Ymosodiadau ar Hebogiaid Tramor

**Glyn Davies:** Faint o ymosodiadau ar hebogiaid tramor sydd wedi’u cofnodi yng Nghymru ym mhob un o’r tair blynedd diwethaf? (WAQ42034)

**Carwyn Jones:** Yn ôl yr heddweision troseddau bywyd gwyllt, mae nifer yr ymosodiadau ar hebogiaid tramor a gofnodwyd ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf fel a ganlyn:

- 2002 = 4
- 2003 = 7
- 2004 = 2

### Achosion Llys yn erbyn y rheini sydd wedi Ymosod ar Hebogiaid Tramor

**Glyn Davies:** Sawl achos llys sydd wedi’i gyflwyno yn erbyn y rheini sydd wedi ymosod ar hebogiaid tramor ym mhob un o’r tair blynedd diwethaf yng Nghymru, a faint o’r rheini a gafwyd yn euog? (WAQ42035)

**Carwyn Jones:** Yn ôl yr heddweision troseddau bywyd gwyllt, yn y tair blynedd diwethaf cafwyd tri erlyniad am ymosodiadau ar hebogiaid tramor gyda'r canlyniadau canlynol:

| Blwyddyn | Nifer yr Erlyniadau | Rheithfarn |
|---|---|---|
| 2002 | 1 | Euog |
| 2004 | 2 | 1 Dieuog<br>1 Plediwyd yn Euog |

### Trwyddedau i Ladd Mulfrain

**Glyn Davies:** Pa gorff sy’n gyfrifol am gyhoeddi trwyddedau i ladd mulfrain yng Nghymru? (WAQ42036)

**Carwyn Jones:** Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am roi trwyddedau i ladd mulfrain yng Nghymru. Seilir y penderfyniad pa un i roi trwydded ar gyngor ein cynghorwyr bywyd gwyllt proffesiynol a chyngor Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

### Trwyddedau i Ladd Mulfrain

**Glyn Davies:** Sawl trwydded i ladd mulfrain yng Nghymru sydd wedi’i chyhoeddi ym mhob un o’r tair blynedd diwethaf? (WAQ42037)

**Carwyn Jones:** Mae'r tymor saethu yn para o 1 Hydref hyd at 31 Mawrth. Rhoddwyd un drwydded rhwng mis Hydref 2002 a mis Mawrth 2003, rhoddwyd 3 trwydded rhwng mis Hydref 2003 a mis Mawrth 2004 ac mae 9 trwydded wedi cael ei rhoi er mis Hydref 2004.

**Gollyngiadau Nwyon Ty Gwydr**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi datganiad i'r wasg i dynnu sylw at y ffigurau cywir ar gyfer gollyngiadau nwyon ty gwydr yng Nghymru? (WAQ42063)

**Carwyn Jones:** Yr ydym eisoes wedi cyhoeddi'r ffigurau cywir, ynghyd â rhestr wallau, ar ein gwefan. Nid wyf yn bwriadu cyhoeddi datganiad pellach i'r wasg.

**Cyhoeddi'r Ffigurau Anghywir ar gyfer Gollyngiadau Nwyon Tŷ Gwydr ar wefan yr Adran**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cyhoeddi'r ffigurau anghywir ar gyfer gollyngiadau nwyon tŷ gwydr ar wefan ei adran yn ddiweddar? (WAQ42064)

**Carwyn Jones:** Gan i bwynt degol gael ei hepgor yn anffodus yn y ffigurau a gyhoeddwyd, cafodd lefelau'r gollyngiadau nwyon ty gwydr yng Nghymru dros y cyfnod 1999-2002 eu camadrodd. Mae'r wybodaeth ar wefan y Cynulliad wedi cael ei chywiro.

**Rhoi TAN 15 ar Waith**

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau i roi TAN 15 ar waith ac ar y ffordd y caiff unrhyw her lwyddiannus i'r map llifogydd ei hymgorffori? (WAQ42077)

**Carwyn Jones:** Mae TAN 15, ynghyd â 'Pholisi Cynllunio Cymru', yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cynulliad Cymru, a ddylai gael eu hystyried gan awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru wrth iddynt baratoi cynlluniau datblygu, a gallent fod yn berthnasol i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol. Disgwylir i'r mapiau cyngor datblygu gael eu hadolygu ymhen rhyw dair blynedd oni bai y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd wedi hysbysu Llywodraeth y Cynulliad am newidiadau arwyddocaol cyn hynny.

**Stoc Trig**

**Helen Mary Jones:** Fesul blwyddyn ers 1999, faint o 'stoc trig' sydd wedi'u gwaredu yng Nghymru drwy (a) cynelau helfeydd neu (b) gwasanaethau casglu eraill a gymeradwywyd gan DEFRA/Llywodraeth Cynulliad Cymru/Safonau Masnach ac Asiantaeth yr Amgylchedd? (WAQ42081)

**Carwyn Jones:** Daeth cymeradwyaethau o dan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) o ran stoc trig i rym yng Nghymru ym mis Hydref 2003. Nid oes gwybodaeth yn cael ei dal yn ganolog am nifer y stoc trig a waredir yng Nghymru drwy gynelau helfeydd neu ddulliau eraill. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo'r cynllun stoc trig cenedlaethol yn ddyfal i sicrhau bod stoc trig yn cael ei waredu'n ddiogel.

**Canolfannau Stoc Trig**

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi, fesul awdurdod lleol yng Nghymru, sawl un o'r canolfannau stoc trig hynny yng Nghymru sydd wedi'u cymeradwyo gan DEFRA, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Safonau Masnach ac Asiantaeth yr Amgylchedd sydd (a) yn gynelau helfeydd a (b) yn wasanaethau casglu cymeradwy eraill? (WAQ42083)

**Carwyn Jones:** Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r awdurdod cymwys i gymeradwyo ceisiadau o dan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2003. Mae nifer y canolfannau sydd wedi'u cofrestru o dan y cynllun stoc trig cenedlaethol ym mhob awdurdod lleol fel a ganlyn:-

**Eraill -**

| **Sir** | **Cymeradwywyd** | **Cymeradwywyd** |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 0 | 0 |
| Gwynedd | **0** | **0** |
| Sir Ddinbych | 0 | **1** |
| Wrecsam | 1 | 0 |
| Powys | **2** | **2** |
| Ceredigion | **2** | **2** |
| Sir Benfro | 2 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | **2** | **5** |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | **1** |
| Casnewydd | **2** | **0** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | **2** |
| Merthyr Tudful | 0 | **1** |
| Caerdydd | 0 | **1** |
| Sir Fynwy | 0 | **2** |

**Teip trwm** – Cynelau helfeydd (sy'n derbyn stoc trig)

**Ailgylchu Nwyddau Plastig Fferm**

**Kirsty Williams:** Pa wasanaethau sydd ar gael ar gyfer ailgylchu nwyddau plastig fferm? (WAQ42150)

**Carwyn Jones:** Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn darparu gwasanaethau uniongyrchol mewn perthynas â gwastraff fferm, yn cynnwys plastig. Megis gyda gwastraff arall o fusnesau, trefniant masnachol rhwng y cynhyrchwr a'r contractwr rheoli gwastraff yw gwaredu gwastraff o ffermydd. Fodd bynnag, fel rhan o weithredu ei strategaeth wastraff i Gymru, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi gwaith Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau ac Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru yn datblygu marchnadoedd i ddefnyddio plastig eilaidd, yn cynnwys plastig amgylcheddol.

**Lefelau Presennol Tir Glas Parhaol**

**Kirsty Williams:** Beth yw lefelau presennol tir glas parhaol yng Nghymru, a sut y mae hyn yn effeithio ar gynhyrchiant organig? (WAQ42151)

**Carwyn Jones:** Mae ychydig dros 1 miliwn hectar o dir glas parhaol yng Nghymru neu 62 y cant o dir amaethyddol Cymru. Nid oes cynlluniau i bennu mesurau i reoli gwelliannau tir ar dir glas ac nid effeithir felly ar gynhyrchiant organig. Fodd bynnag, rhaid i ffermwyr sicrhau bod unrhyw welliannau i'r tir sy'n ofynnol wrth iddynt newid i ffermio organig yn dderbyniol o dan y rheoliadau asesu effaith amgylcheddol.

**Y Fferm Wynt Arfaethedig yng Nghapel Uchaf, Powys**

**Nick Bourne:** O ran y fferm wynt arfaethedig yng Nghapel Uchaf, Powys, beth yw statws cynnig o'r fath tra disgwylir ymateb y Llywodraeth i TAN 8, a chyn y cynhelir dadl yn ei gylch? (WAQ42152)

**Carwyn Jones:** Mae paragraff 1 drafft TAN 8 yn amlinellu rôl y TAN drafft a datganiadau polisi cynllunio interim cysylltiol y Gweinidog wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio cyfredol. Ni allaf wneud sylwadau am statws cynigion unigol oherwydd, yn y lle cyntaf, materion i'r awdurdodau cynllunio lleol ydynt. Ar ben hynny, mae'n bosibl y gallai cynigion ddod gerbron y Cynulliad ar apêl neu gael eu galw i mewn. Byddai perygl imi danseilio gweithredu pellach efallai pe bawn yn cynnig sylwadau ar gynigion unigol ac ni fyddai hynny'n dderbyniol.

## Y Fferm Wynt Arfaethedig yn Breacon Hill, Powys

**Nick Bourne:** O ran y fferm wynt arfaethedig yn Breacon Hill, Powys, beth yw statws cynnig o'r fath tra disgwylir ymateb y Llywodraeth i TAN 8, a chyn y cynhelir dadl yn ei gylch? (WAQ42153)

**Carwyn Jones:** Mae paragraff 1 drafft TAN 8 yn amlinellu rôl y TAN drafft a datganiadau polisi cynllunio interim cysylltiol y Gweinidog wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio cyfredol. Ni allaf wneud sylwadau am statws cynigion unigol oherwydd, yn y lle cyntaf, materion i'r awdurdodau cynllunio lleol ydynt. Ar ben hynny, mae'n bosibl y gallai cynigion ddod gerbron y Cynulliad ar apêl neu gael eu galw i mewn. Byddai perygl imi danseilio gweithredu pellach efallai pe bawn yn cynnig sylwadau ar gynigion unigol ac ni fyddai hynny'n dderbyniol.

## Y Fferm Wynt Arfaethedig yn Warren Hill, Powys

**Nick Bourne:** O ran y fferm wynt arfaethedig yn Warren Hill, Powys, beth yw statws cynnig o'r fath tra disgwylir ymateb y Llywodraeth i TAN 8, a chyn y cynhelir dadl yn ei gylch? (WAQ42154)

**Carwyn Jones:** Mae paragraff 1 drafft TAN 8 yn amlinellu rôl y TAN drafft a datganiadau polisi cynllunio interim cysylltiol y Gweinidog wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio cyfredol. Ni allaf wneud sylwadau am statws cynigion unigol oherwydd, yn y lle cyntaf, materion i'r awdurdodau cynllunio lleol ydynt. Ar ben hynny, mae'n bosibl y gallai cynigion ddod gerbron y Cynulliad ar apêl neu gael eu galw i mewn. Byddai perygl imi danseilio gweithredu pellach efallai pe bawn yn cynnig sylwadau ar gynigion unigol ac ni fyddai hynny'n dderbyniol.

## Y Fferm Wynt Arfaethedig ym Mlaengwen a Rhoswen, Sir Gaerfyrddin

**Nick Bourne:** O ran y fferm wynt arfaethedig ym Mlaengwen a Rhoswen, Sir Gaerfyrddin, beth yw statws cynnig o'r fath tra disgwylir ymateb y Llywodraeth i TAN 8, a chyn y cynhelir dadl yn ei gylch? (WAQ42155)

**Carwyn Jones:** Mae paragraff 1 drafft TAN 8 yn amlinellu rôl y TAN drafft a datganiadau polisi cynllunio interim cysylltiol y Gweinidog wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio cyfredol. Ni allaf wneud sylwadau am statws cynigion unigol oherwydd, yn y lle cyntaf, materion i'r awdurdodau cynllunio lleol ydynt. Ar ben hynny, mae'n bosibl y gallai cynigion ddod gerbron y Cynulliad ar apêl neu gael eu galw i mewn. Byddai perygl imi danseilio gweithredu pellach efallai pe bawn yn cynnig sylwadau ar gynigion unigol ac ni fyddai hynny'n dderbyniol.

## Y Fferm Wynt Arfaethedig ym Mynydd Sylen, Sir Gaerfyrddin

**Nick Bourne:** O ran y fferm wynt arfaethedig ym Mynydd Sylen, Sir Gaerfyrddin, beth yw statws cynnig o'r fath tra disgwylir ymateb y Llywodraeth i TAN 8, a chyn y cynhelir dadl yn ei gylch? (WAQ42156)

**Carwyn Jones:** Mae paragraff 1 drafft TAN 8 yn amlinellu rôl y TAN drafft a datganiadau polisi cynllunio interim cysylltiol y Gweinidog wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio cyfredol. Ni allaf wneud sylwadau am statws cynigion unigol oherwydd, yn y lle cyntaf, materion i'r awdurdodau cynllunio lleol ydynt. Ar ben hynny, mae'n bosibl y gallai cynigion ddod gerbron y Cynulliad ar apêl neu gael eu galw i mewn. Byddai perygl imi danseilio gweithredu pellach efallai pe bawn yn cynnig sylwadau ar gynigion unigol ac ni fyddai hynny'n dderbyniol.

## Y Fferm Wynt Arfaethedig yng Nghaer Delyn, Dolgran, Sir Gaerfyrddin

**Nick Bourne:** O ran y fferm wynt arfaethedig yng Nghaer Delyn, Dolgran, Sir Gaerfyrddin, beth yw statws cynnig o'r fath tra disgwylir ymateb y Llywodraeth i TAN 8, a chyn y cynhelir dadl yn ei gylch? (WAQ42157)

**Carwyn Jones:** Mae paragraff 1 drafft TAN 8 yn amlinellu rôl y TAN drafft a datganiadau polisi cynllunio interim cysylltiol y Gweinidog wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio cyfredol. Ni allaf wneud sylwadau am statws cynigion unigol oherwydd, yn y lle cyntaf, materion i'r awdurdodau cynllunio lleol ydynt. Ar ben hynny, mae'n bosibl y gallai cynigion ddod gerbron y Cynulliad ar apêl neu gael eu galw i mewn. Byddai perygl imi danseilio gweithredu pellach efallai pe bawn yn cynnig sylwadau ar gynigion unigol ac ni fyddai hynny'n dderbyniol.

**Y Fferm Wynt Arfaethedig ym Mhencader, Sir Gaerfyrddin**

**Nick Bourne:** O ran y fferm wynt arfaethedig ym Mhencader, Sir Gaerfyrddin, beth yw statws cynnig o'r fath tra disgwylir ymateb y Llywodraeth i TAN 8, a chyn y cynhelir dadl yn ei gylch? (WAQ42158)

**Carwyn Jones:** Mae paragraff 1 drafft TAN 8 yn amlinellu rôl y TAN drafft a datganiadau polisi cynllunio interim cysylltiol y Gweinidog wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio cyfredol. Ni allaf wneud sylwadau am statws cynigion unigol oherwydd, yn y lle cyntaf, materion i'r awdurdodau cynllunio lleol ydynt. Ar ben hynny, mae'n bosibl y gallai cynigion ddod gerbron y Cynulliad ar apêl neu gael eu galw i mewn. Byddai perygl imi danseilio gweithredu pellach efallai pe bawn yn cynnig sylwadau ar gynigion unigol ac ni fyddai hynny'n dderbyniol.

**Y Fferm Wynt Arfaethedig yng Ngwernogle, Brechfa, Sir Gaerfyrddin**

**Nick Bourne:** O ran y fferm wynt arfaethedig yng Ngwernogle, Brechfa, Sir Gaerfyrddin, beth yw statws cynnig o'r fath tra disgwylir ymateb y Llywodraeth i TAN 8, a chyn y cynhelir dadl yn ei gylch? (WAQ42159)

**Carwyn Jones:** Mae paragraff 1 drafft TAN 8 yn amlinellu rôl y TAN drafft a datganiadau polisi cynllunio interim cysylltiol y Gweinidog wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio cyfredol. Ni allaf wneud sylwadau am statws cynigion unigol oherwydd, yn y lle cyntaf, materion i'r awdurdodau cynllunio lleol ydynt. Ar ben hynny, mae'n bosibl y gallai cynigion ddod gerbron y Cynulliad ar apêl neu gael eu galw i mewn. Byddai perygl imi danseilio gweithredu pellach efallai pe bawn yn cynnig sylwadau ar gynigion unigol ac ni fyddai hynny'n dderbyniol.

**Y Fferm Wynt Arfaethedig yn Llanfynydd, Sir Gaerfyrddin**

**Nick Bourne:** O ran y fferm wynt arfaethedig yn Llanfynydd, Sir Gaerfyrddin, beth yw statws cynnig o'r fath tra disgwylir ymateb y Llywodraeth i TAN 8, a chyn y cynhelir dadl yn ei gylch? (WAQ42160)

**Carwyn Jones:** Mae paragraff 1 drafft TAN 8 yn amlinellu rôl y TAN drafft a datganiadau polisi cynllunio interim cysylltiol y Gweinidog wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio cyfredol. Ni allaf wneud sylwadau am statws cynigion unigol oherwydd, yn y lle cyntaf, materion i'r awdurdodau cynllunio lleol ydynt. Ar ben hynny, mae'n bosibl y gallai cynigion ddod gerbron y Cynulliad ar apêl neu gael eu galw i mewn. Byddai perygl imi danseilio gweithredu pellach efallai pe bawn yn cynnig sylwadau ar gynigion unigol ac ni fyddai hynny'n dderbyniol.

**Y Fferm Wynt Arfaethedig yn Llwyneuadd, Sir Gaerfyrddin**

**Nick Bourne:** O ran y fferm wynt arfaethedig yn Llwyneuadd, Sir Gaerfyrddin, beth yw statws cynnig o'r fath tra disgwylir ymateb y Llywodraeth i TAN 8, a chyn y cynhelir dadl yn ei gylch? (WAQ42161)

**Carwyn Jones:** Mae paragraff 1 drafft TAN 8 yn amlinellu rôl y TAN drafft a datganiadau polisi cynllunio interim cysylltiol y Gweinidog wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio cyfredol. Ni allaf wneud sylwadau am statws cynigion unigol oherwydd, yn y lle cyntaf, materion i'r awdurdodau cynllunio lleol ydynt. Ar ben hynny, mae'n bosibl y gallai cynigion ddod gerbron y Cynulliad ar apêl neu gael eu galw i mewn. Byddai perygl imi danseilio gweithredu pellach efallai pe bawn yn cynnig sylwadau ar gynigion unigol ac ni fyddai hynny'n dderbyniol.

## Y Fferm Wynt Arfaethedig yng Nghoedwig Melyn, Sir Gaerfyrddin

**Nick Bourne:** O ran y fferm wynt arfaethedig yng Nghoedwig Melyn, Sir Gaerfyrddin, beth yw statws cynnig o’r fath tra disgwylir ymateb y Llywodraeth i TAN 8, a chyn y cynhelir dadl yn ei gylch? (WAQ42162)

**Carwyn Jones:** Mae paragraff 1 drafft TAN 8 yn amlinellu rôl y TAN drafft a datganiadau polisi cynllunio interim cysylltiol y Gweinidog wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio cyfredol. Ni allaf wneud sylwadau am statws cynigion unigol oherwydd, yn y lle cyntaf, materion i'r awdurdodau cynllunio lleol ydynt. Ar ben hynny, mae'n bosibl y gallai cynigion ddod gerbron y Cynulliad ar apêl neu gael eu galw i mewn. Byddai perygl imi danseilio gweithredu pellach efallai pe bawn yn cynnig sylwadau ar gynigion unigol ac ni fyddai hynny'n dderbyniol.

## Y Fferm Wynt Arfaethedig ym Mhencarreg, Sir Gaerfyrddin

**Nick Bourne:** O ran y fferm wynt arfaethedig ym Mhencarreg, Sir Gaerfyrddin, beth yw statws cynnig o’r fath tra disgwylir ymateb y Llywodraeth i TAN 8, a chyn y cynhelir dadl yn ei gylch? (WAQ42163)

**Carwyn Jones:** Mae paragraff 1 drafft TAN 8 yn amlinellu rôl y TAN drafft a datganiadau polisi cynllunio interim cysylltiol y Gweinidog wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio cyfredol. Ni allaf wneud sylwadau am statws cynigion unigol oherwydd, yn y lle cyntaf, materion i'r awdurdodau cynllunio lleol ydynt. Ar ben hynny, mae'n bosibl y gallai cynigion ddod gerbron y Cynulliad ar apêl neu gael eu galw i mewn. Byddai perygl imi danseilio gweithredu pellach efallai pe bawn yn cynnig sylwadau ar gynigion unigol ac ni fyddai hynny'n dderbyniol.

## Y Fferm Wynt Arfaethedig yng Nghoedwig Gorlech, Sir Gaerfyrddin

**Nick Bourne:** O ran y fferm wynt arfaethedig yng Nghoedwig Gorlech, Sir Gaerfyrddin, beth yw statws cynnig o’r fath tra disgwylir ymateb y Llywodraeth i TAN 8, a chyn y cynhelir dadl yn ei gylch? (WAQ42164)

**Carwyn Jones:** Mae paragraff 1 drafft TAN 8 yn amlinellu rôl y TAN drafft a datganiadau polisi cynllunio interim cysylltiol y Gweinidog wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio cyfredol. Ni allaf wneud sylwadau am statws cynigion unigol oherwydd, yn y lle cyntaf, materion i'r awdurdodau cynllunio lleol ydynt. Ar ben hynny, mae'n bosibl y gallai cynigion ddod gerbron y Cynulliad ar apêl neu gael eu galw i mewn. Byddai perygl imi danseilio gweithredu pellach efallai pe bawn yn cynnig sylwadau ar gynigion unigol ac ni fyddai hynny'n dderbyniol.

## Y Fferm Wynt Arfaethedig yng Nghoedwig Brechfa, Sir Gaerfyrddin

**Nick Bourne:** O ran y fferm wynt arfaethedig yng Nghoedwig Brechfa, Sir Gaerfyrddin, beth yw statws cynnig o’r fath tra disgwylir ymateb y Llywodraeth i TAN 8, a chyn y cynhelir dadl yn ei gylch? (WAQ42165)

**Carwyn Jones:** Mae paragraff 1 drafft TAN 8 yn amlinellu rôl y TAN drafft a datganiadau polisi cynllunio interim cysylltiol y Gweinidog wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio cyfredol. Ni allaf wneud sylwadau am statws cynigion unigol oherwydd, yn y lle cyntaf, materion i'r awdurdodau cynllunio lleol ydynt. Ar ben hynny, mae'n bosibl y gallai cynigion ddod gerbron y Cynulliad ar apêl neu gael eu galw i mewn. Byddai perygl imi danseilio gweithredu pellach efallai pe bawn yn cynnig sylwadau ar gynigion unigol ac ni fyddai hynny'n dderbyniol.

## Y Fferm Wynt Arfaethedig yng Nghoedwig Conach, Ceredigion

**Nick Bourne:** O ran y fferm wynt arfaethedig yng Nghoedwig Conach, Ceredigion, beth yw statws cynnig o'r fath tra disgwylir ymateb y Llywodraeth i TAN 8, a chyn y cynhelir dadl yn ei gylch? (WAQ42166)

**Carwyn Jones:** Mae paragraff 1 drafft TAN 8 yn amlinellu rôl y TAN drafft a datganiadau polisi cynllunio interim cysylltiol y Gweinidog wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio cyfredol. Ni allaf wneud sylwadau am statws cynigion unigol oherwydd, yn y lle cyntaf, materion i'r awdurdodau cynllunio lleol ydynt. Ar ben hynny, mae'n bosibl y gallai cynigion ddod gerbron y Cynulliad ar apêl neu gael eu galw i mewn. Byddai perygl imi danseilio gweithredu pellach efallai pe bawn yn cynnig sylwadau ar gynigion unigol ac ni fyddai hynny'n dderbyniol.

## Y Fferm Wynt Arfaethedig yng Nghwmsymlog, Ceredigion

**Nick Bourne:** O ran y fferm wynt arfaethedig yng Nghwmsymlog, Ceredigion, beth yw statws cynnig o'r fath tra disgwylir ymateb y Llywodraeth i TAN 8, a chyn y cynhelir dadl yn ei gylch? (WAQ42167)

**Carwyn Jones:** Mae paragraff 1 drafft TAN 8 yn amlinellu rôl y TAN drafft a datganiadau polisi cynllunio interim cysylltiol y Gweinidog wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio cyfredol. Ni allaf wneud sylwadau am statws cynigion unigol oherwydd, yn y lle cyntaf, materion i'r awdurdodau cynllunio lleol ydynt. Ar ben hynny, mae'n bosibl y gallai cynigion ddod gerbron y Cynulliad ar apêl neu gael eu galw i mewn. Byddai perygl imi danseilio gweithredu pellach efallai pe bawn yn cynnig sylwadau ar gynigion unigol ac ni fyddai hynny'n dderbyniol.

## Statws Cynllunio y Cais am Fferm Wynt yng Nghamddwr, Canolbarth Cymru

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r newyddion diweddaraf mewn perthynas â statws cynllunio y cais am fferm wynt yng Nghamddwr, Canolbarth Cymru? (WAQ42168)

**Carwyn Jones:** Mae paragraff 1 drafft TAN 8 yn amlinellu rôl y TAN drafft a datganiadau polisi cynllunio interim cysylltiol y Gweinidog wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio cyfredol. Ni allaf wneud sylwadau am statws cynigion unigol oherwydd, yn y lle cyntaf, materion i'r awdurdodau cynllunio lleol ydynt. Ar ben hynny, mae'n bosibl y gallai cynigion ddod gerbron y Cynulliad ar apêl neu gael eu galw i mewn. Byddai perygl imi danseilio gweithredu pellach efallai pe bawn yn cynnig sylwadau ar gynigion unigol ac ni fyddai hynny'n dderbyniol.

## Cynigion Dynodi Tir TAN 8

**Nick Bourne:** A ellir cynnwys tir sydd wedi'i gomisiynu gan y Goron yng nghynigion dynodi tir TAN 8? (WAQ42177)

**Carwyn Jones:** Nid oes rheswm technegol pam na all tir y Goron gael ei gynnwys mewn dynodiadau tir TAN 8.

## Ardal o Dir y Comisiwn Coedwigaeth a Werthwyd Bob Blwyddyn

**John Griffiths:** Pa ardal o dir y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru a werthwyd bob blwyddyn o 1992 hyd heddiw? (WAQ42193)

**Carwyn Jones:** Yr arwynebedd o dir o eiddo'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru a werthwyd o 1992 hyd heddiw yw:

| | |
|---|---|
| 1992-93 | 1,082 hectar |
| 1993-94 | 1,409 |

| | |
|---|---|
| 1994-95 | 1,237 |
| 1995-96 | 1,054 |
| 1996-97 | 1,570 |
| 1997-98 | 1,095 |
| 1998-99 | 1,473 |
| 1999-2000 | 1,206 |
| 2000-01 | 1,297 |
| 2001-02 | 399 |
| 2002-03 | 57 |
| 2003-04 | 11 |
| 2004-05 | 8 |

**Enillion a Wnaed wrth Werthu Tir y Comisiwn Coedwigaeth**

**John Griffiths:** Beth oedd yr enillion a wnaed wrth werthu tir y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru ymhob blwyddyn o 1992 hyd heddiw? (WAQ42194)

**Carwyn Jones:** Yr enillion o werthu tir o eiddo'r Comisiwn Coedwigaeth bob blwyddyn o 1992 hyd heddiw yw:

| | |
|---|---|
| 1992-93 | £1,197,110 |
| 1993-94 | £1,917,749 |
| 1994-95 | £1,928,405 |
| 1995-96 | £2,088,372 |
| 1996-97 | £3,336,143 |
| 1997-98 | £1,951,486 |
| 1998-99 | £2,795,957 |
| 1999-2000 | £1,291,805 |
| 2000-01 | £2,006,158 |
| 2001-02 | £485,283 |
| 2002-03 | £113,500 |
| 2003-04 | £20,000 |
| 2004-05 | £27,000 |

**Coedwigaeth neu Dir ar gyfer Coedwigaeth**

**John Griffiths:** Pa arian gan y Llywodraeth a wariwyd i brynu coedwigaeth neu dir ar gyfer coedwigaeth yng Nghymru bob blwyddyn o 1992 hyd heddiw? (WAQ42195)

**Carwyn Jones:** Gwariwyd yr arian canlynol gan y Llywodraeth i brynu tir coedwigaeth o 1992 hyd heddiw:

| | |
|---|---|
| 1992-93 | £4,075 |
| 1993-94 | £17,000 |
| 1994-95 | £17,500 |
| 1995-96 | £9,000 |
| 1996-97 | £65,915 |
| 1997-98 | £56,100 |
| 1998-99 | £0 |
| 1999-2000 | £0 |
| 2000-01 | £62,000 |
| 2001-02 | £330,000 |
| 2002-03 | £316,600 |

| | |
|---|---|
| 2003-04 | £15,000 |
| 2004-05 | £0 |

### Cloddio Tywod a Graean

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y tebygolrwydd y caiff tywod a graean eu cloddio yn Nyffryn Wysg? (WAQ42227)

**Carwyn Jones:** Ni allaf ddweud a yw'n debygol y caiff tywod a graean eu cloddio yn Nyffryn Wysg. Mater i'r awdurdodau cynllunio lleol yw datblygu polisïau mewn perthynas â phob math o echdynnu mwynau, a phenderfynu ar unrhyw geisiadau sy'n dod gerbron.

### Cloddio am Dywod a Graean yn Nyffryn Wysg

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog gynnig sylw ar y cynigion y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu arian i gynnal astudiaeth o'r cynnig i gloddio am dywod a graean yn Nyffryn Wysg? (WAQ42229)

**Carwyn Jones:** Nid wyf yn bwriadu ariannu astudiaeth i gloddio am dywod a graean yn Nyffryn Wysg.

### Ymchwiliad i'r Cynnig i Ddechrau Cloddio am Dywod a Graean yn Nyffryn Wysg

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog gynnig sylw ar sut y câi ymchwiliad i'r cynnig i ddechrau cloddio am dywod a graean yn Nyffryn Wysg ei ariannu? (WAQ42230)

**Carwyn Jones:** Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gynigion i gloddio am dywod a graean yn Nyffryn Wysg.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

### Gwasanaethau Cyhoeddus

**Peter Black:** Pa fesurau newydd, os o gwbl, y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cyflwyno i wella gwasanaethau cyhoeddus yn 2005? (WAQ41981)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gweledigaeth i wasanaethau cyhoeddus yn 'Creu'r Cysylltiadau' ym mis Hydref 2004. Bydd cynllun gweithredu 'Creu'r Cysylltiadau', y byddwn yn cyhoeddi fersiwn cychwynnol ohono erbyn 31 Mai, yn edrych ar gyfnod o bum mlynedd. Caiff ei adolygu a'i ddiweddaru yn flynyddol o leiaf.

### Effaith Ailfandio'r Dreth Gyngor

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith ailfandio'r dreth gyngor yng Ngorllewin De Cymru? (WAQ41982)

**Sue Essex:** Dylai pob cartref yng Nghymru fod wedi cael ei hysbysu o'i fand treth gyngor arfaethedig gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Bydd cartrefi sydd wedi cynyddu mewn gwerth yn unol â, neu islaw'r cynnydd cyfartalog ym mhrisiau tai yng Nghymru, yn aros yn yr un band neu'n symud i fand is.

Yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr, mae cyfrannau uwch o dai na'r cyfartaledd drwy Gymru wedi symud i lawr fand neu wedi aros yn yr un band. Mae cyfrannau is o gartrefi na chyfartaledd Cymru wedi symud i fyny fandiau.

Mae cyngor wedi cael ei roi hefyd i ddeiliaid tai ar sut mae codi cwestiynau ynglyn â'r bandiau prisio ynghyd â gwybodaeth am drefniadau trosiannol a'r help sydd ar gael i bobl sydd ar incwm isel neu incwm penodedig.

### Lefel y Cymorth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei Roi

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefel y cymorth y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ei roi i Gyngor Sir y Fflint ers i'r Cynulliad Cenedlaethol gael ei sefydlu? (WAQ41983)

**Sue Essex:** Denyg y tabl isod faint o gymorth heb ei neilltuo y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ei ddarparu i Gyngor Sir y Fflint ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol yn 1999. Mae'r tabl isod yn dangos bod Sir y Fflint wedi gweld cynnydd o 34 y cant drwyddo draw yn y cymorth a gaiff er 1999-2000. Mae Cymru gyfan wedi gweld cynnydd o 37 y cant.

**Cymorth heb ei neilltuo gan Lywodraeth y Cynulliad[1,2], Sir y Fflint, 1999-2000 i 2005-06 (£miloedd)**

| | 1999-2000 | 2000-01 | 2001-02 | 2002-03 | 2003-04 | 2004-05 | 2005-06 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sir y Fflint | 115,089 | 120,342 | 125,800 | 130,777 | 141,845 | 145,801 | 153,883 |
| Cynnydd blynyddol % | - | 4.56% | 4.54% | 3.96% | 8.46% | 2.79% | 6.74% |
| CYMRU | 2,437,723 | 2,553,630 | 2,706,757 | 2,841,210 | 3,102,639 | 3,170,551 | 3,345,471 |
| Cynnydd blynyddol % | - | 4.75% | 6.00% | 4.97% | 9.20% | 2.19% | 7.21% |

Ffynhonnell: Setliadau Refeniw Llywodraeth Leol 1999-00 i 2005-06.
**Nodiadau:**
1. Yn cynnwys grant cynnal refeniw a threthi annomestig wedi'u hailddosbarthu, grant amddifadedd, grant cymell perfformiad a chynllun awdurdodau lleol i gymell twf busnesau.
2. Heb ei addasu ar gyfer trosglwyddiadau i mewn ac allan o'r setliad.

### Cynghorau Cymuned

**David Davies:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod cynghorau cymuned yng Nghymru yn cael eu cyllido'n ddigonol? (WAQ41984)

**Sue Essex:** Mae cynghorau cymuned yn codi arian o amryw o ffynonellau yn cynnwys y braesept a godir drwy'r dreth gyngor, incwm o renti a gosod, buddsoddiadau, grantiau oddi wrth brif gynghorau, taliadau parcio a'r defnydd o gyfleusterau adloniadol. Canfu astudiaeth Prifysgol Cymru, Aberystwyth (Awst 2003) mai gwariant dim ond chwech o'r 737 o gynghorau lleol yng Nghymru sy'n dod yn agos at y terfyn o dan adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n caniatáu i gynghorau lleol wario arian ar unrhyw bwrpas a fyddai o fudd i'w hardaloedd. Bwriadaf gomisiynu ymchwil yn fuan i archwilio digonolrwydd y trefniadau cyfredol i ariannu cynghorau lleol a mecanweithiau amgen posibl.

### Cyllido Gwasanaethau Cyhoeddus yn Sir Ddinbych

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyllid a roddir ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn sir Ddinbych? (WAQ41985)

**Sue Essex:** Ar gyfer 2005-06 bydd Sir Ddinbych yn derbyn £111.9 miliwn o gyllid heb ei neilltuo oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n cynnwys £1 miliwn o grant perfformiad, £0.1 miliwn o grant amddifadedd a £0.2 miliwn o dan y cynllun i awdurdodau lleol gymell twf busnesau.

Mater i'r awdurdod yw penderfynu sut mae'r cyllid hwnnw i gael ei wario i gyflenwi gwasanaethau i ddiwallu ei anghenion.

Gan ganiatáu ar gyfer trosglwyddiadau, mae hyn yn gynnydd uwchlaw setliad 2004-05 o £4.5 miliwn neu 4.4 y cant. Mae Sir Ddinbych i dderbyn £1,164 y pen o'r boblogaeth, sy'n ei rhoi yn wythfed yng Nghymru o ran cyllid y pen.

**Codi Safonau Gwasanaethau Cyngor Caerdydd**

**Lorraine Barrett:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chyngor Caerdydd ynghylch codi safonau gwasanaethau'r cyngor? (WAQ41986)

**Sue Essex:** Ar 31 Ionawr 2005, ynghyd ag arweinydd Cyngor Dinas a Sir Caerdydd, cwblheais gytundeb polisi sydd â'r nod o godi safon gwasanaethau'r cyngor yng Nghaerdydd.

Bydd y cytundeb hwn yn darparu arian ychwanegol i gyngor Caerdydd i'w helpu i wella ei berfformiad a'i safonau gwasanaeth hyd at lefelau y cytunwyd arnynt erbyn 2007. Ymysg y gwelliannau y cytunwyd arnynt mae:

- helpu rhagor o bobl i gael gwaith drwy ganolfannau hyfforddiant a menter:
- lefelau cyrhaeddiad uwch mewn ysgolion:
- cyfradd bresenoldeb uwch mewn ysgolion uwchradd:
- mwy o help i bobl oedrannus sy'n byw gartref:
- mwy o gymorth i gwmnïau sydd â gwerth ychwanegol uchel:
- cynnydd yn faint o wastraff trefol sy'n cael ei ailgylchu.

**Gwella Rhagor ar Safonau Gwasanaethau Cyhoeddus**

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y gwaith o wella rhagor ar safonau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? (WAQ41987)

**Sue Essex:** Nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gweledigaeth i wasanaethau cyhoeddus yn 'Creu'r Cysylltiadau' ym mis Hydref 2004. Bydd cynllun gweithredu 'Creu'r Cysylltiadau', y byddwn yn cyhoeddi fersiwn cychwynnol ohono erbyn 31 Mai, yn edrych ar gyfnod o bum mlynedd. Caiff ei adolygu a'i ddiweddaru o leiaf unwaith yn flynyddol.

**Lefelau'r Dreth Gyngor**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf am ei thrafodaethau gydag awdurdodau lleol ynghylch lefelau'r dreth gyngor? (WAQ41988)

**Sue Essex:** Yr wyf yn cwrdd yn rheolaidd gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol, pryd y trafodir amrywiaeth eang o faterion yn cynnwys lefelau'r dreth gyngor. Mae'r awdurdodau lleol yn y broses o osod lefelau'r dreth gyngor ar gyfer 2005-06 ar hyn o bryd. Cyhoeddais yr egwyddorion y byddwn yn eu harddel i benderfynu a yw'r cynnydd yng ngofynion cyllideb awdurdod yn cael eu hystyried yn ormodol. Gwneuthum hyn er mwyn i'r awdurdodau fod yn gwbl glir ynglyn â'r codiadau y byddwn yn eu barnu'n ormodol wrth iddynt ystyried eu cyllidebau a lefelau cysylltiol y dreth gyngor am 2005-06. Erbyn hyn mae'r awdurdodau lleol i gyd wedi gosod eu cyllidebau yn unol â'r egwyddorion.

**Arbedion Effeithlonrwydd**

**□ico Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag awdurdodau lleol ynghylch arbedion effeithlonrwydd? (WAQ41989)

**Sue Essex:** Yr wyf yn cwrdd yn rheolaidd gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol, pryd y trafodir amrywiaeth eang o faterion yn cynnwys arbedion effeithlonrwydd. Wrth symud agenda 'Creu'r Cysylltiadau' yn ei blaen, bydd angen i'r awdurdodau lleol, fel pob corff cyhoeddus, ddangos sut y

byddant yn gwneud arbedion effeithlonrwydd. Dylai'r arbedion hyn fod yn unol â thargedau cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad, tra'n cynnal gwasanaethau cyhoeddus effeithiol.

**Gwasanaethau Pryd ar Glud Awdurdodau Lleol**

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwasanaethau pryd ar glud y mae awdurdodau lleol yn eu darparu yng Nghymru? (WAQ41990) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.***

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Darperir y gwasanaeth pryd ar glud gan awdurdodau lleol yn unol â darpariaeth Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970. Mae'r angen am gymorth i gael neu baratoi pryd yn cael ei bennu ar ôl gwneud asesiad o dan y drefn asesu unedig. Gallai amryw o opsiynau fod ar gael i ddarparu pryd a dylid seilio'r opsiwn a ffafrif ar yr asesiad ac ar farn y sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn chwarae rhan hanfodol, yn enwedig i bobl hyn sydd ag anghenion gofal sylweddol, ond mae'r buddion cysylltiol, megis ymweliadau rheolaidd a gwybod bod rhywun yn cadw llygad ar y sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, yn cael eu gwerthfawrogi gymaint â darparu prydau.

**Cynghorwyr o'r Gwrthbleidiau sy'n Cadeirio Pwyllgorau Craffu**

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r trafodaethau y mae wedi'u cael gydag awdurdodau lleol ar gynghorwyr o'r gwrthbleidiau sy'n cadeirio pwyllgorau craffu? (WAQ41991)

**Sue Essex:** Trafodais y mater hwn gydag arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 7 Hydref 2004, yn arbennig yng ngoleuni argymhellion adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Ysgrifennais hefyd at yr awdurdodau lleol ar y mater hwn ym mis Gorffennaf 2004.

Nid yw monitro sut mae cadeiryddiaeth pwyllgorau craffu yng Nghymru yn cael ei dyrannu yn un o swyddogaethau statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, rhaid i'r awdurdodau lleol ystyried y canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan y Cynulliad ('Canllawiau i'r Cynghorau Sir a'r Cynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth') sy'n annog cynghorau o dan reolaeth fwyafrif i ystyried dyrannu cadeiryddiaeth pwyllgorau i aelodau o grwpiau pleidiau eraill.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, fodd bynnag, yn cefnogi'r egwyddor o gydbwysedd gwleidyddol ymysg cadeiryddion pwyllgorau trosolwg a chraffu. Caiff hyn ei adlewyrchu mewn canllawiau statudol diwygiedig ar strwythurau gwleidyddol, sydd i gael eu cyhoeddi at ddibenion ymgynghori o fewn y misoedd nesaf.

**Effeithlonrwydd Systemau ar gyfer Casglu'r Dreth Gyngor**

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effeithlonrwydd y systemau ar gyfer casglu'r dreth gyngor? (WAQ41992)

**Sue Essex:** Mae'r gyfradd gasglu drwyddi draw o 96.1 y cant yn 2003-04 yn dangos pa mor effeithiol yw'r systemau i gasglu'r dreth gyngor yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â 96.3 y cant yn Lloegr a 91.7 y cant yn yr Alban.

O fewn Cymru, mae'r cyfraddau casglu yn amrywio o 93.5 y cant ym Merthyr i 97.8 y cant yng Nghonwy. Gellir gweld dadansoddiad o'r ystadegau perthnasol drwy ddefnyddio'r cyswllt canlynol.

http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=394

## Y Strategaeth Leoli

**Lisa Francis:** Mewn perthynas â’r strategaeth leoli a symud gweithwyr o Fachynlleth i Aberystwyth, pa waith ymchwil a wnaed i asesu teimladau’r staff am adleoli swyddi ac a gafodd arolygon staff eu cynnal i ganfod faint sy’n bwriadu adleoli? (WAQ42124)

**Lisa Francis:** Faint o arian y mae’r Llywodraeth yn disgwyl ei arbed drwy symud swyddi Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Bwrdd Croeso Cymru o Fachynlleth i Aberystwyth? (WAQ42125)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y contract adleoli newydd? (WAQ42126)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar oblygiadau’r contract adleoli newydd o ran costau? (WAQ42127)

**Lisa Francis:** Mewn perthynas â’r strategaeth adleoli a’r addewid i ddarparu llinell gymorth, canolfan galw-i-mewn a gwasanaethau straen a chymorth personol cyfrinachol ar gyfer y teuluoedd yr effeithir arnynt, a wnaiff y Gweinidog nodi (a) pa mor hir fydd y system ar waith a (b) faint y mae’r Cynulliad yn amcangyfrif fydd cost y system? (WAQ42128)

**Lisa Francis:** Mewn perthynas â’r strategaeth adleoli a’r swyddi a gaiff eu symud o Aberaeron a Machynlleth i Aberystwyth, pa asesiad manwl/ymchwil fanwl a gynhaliwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar effaith hyn ar (a) economïau lleol, (b) cymunedau lleol a (c) y gweithwyr a’u teuluoedd? (WAQ42129)

**Lisa Francis:** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog a’i swyddogion wedi’u cael â’r awdurdodau lleol ym Machynlleth ac Aberystwyth am effeithiau’r newidiadau hyn ar (a) yr economi leol, (b) cymunedau a (c) y gweithwyr a’u teuluoedd? (WAQ42130)

**Lisa Francis:** Mewn perthynas â’r strategaeth adleoli, pryd fydd y Gweinidog yn cyhoeddi union leoliad swyddfa Aberystwyth? (WAQ42131)

**Lisa Francis:** Mewn perthynas â’r strategaeth leoli, faint o swyddi fydd yn cael eu symud o Fachynlleth i Aberystwyth? (WAQ42132)

**Lisa Francis:** Mewn perthynas â’r strategaeth leoli, faint y mae’r Cynulliad yn amcangyfrif fydd cost y broses o adleoli 179 o swyddi o Gaerdydd i Aberystwyth? (WAQ42133)

**Sue Essex:** Cyn penderfynu'n derfynol ar y swyddogaethau, cymerodd staff yn holl Adrannau'r Cynulliad a'r CCNC hynny a nodwyd i'w hadleoli ran mewn nifer o weithdai. Yn y rhain nodwyd pryderon personol unigol yn ogystal â rhoi ystyriaeth gynnar i faterion parhad o safbwynt busnes.

Cyn penderfynu ar swyddogaethau nid oedd yn ymarferol arolygu staff yn unigol i ganfod faint oedd yn bwriadu symud gyda'i swydd. Gan fod y penderfyniad bellach wedi cael ei wneud byddwn yn cynnal arolwg yn fuan.

Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ddiffinio'n llwyr y manteision, yn cynnwys arbedion posibl, o adleoli'r swyddi hyn. Fodd bynnag, nid dim ond mater o arbed arian yw'r strategaeth leoli. Yng nghyd-destun ‘Creu'r Cysylltiadau’, mae a wnelo a chreu presenoldeb sylweddol i'r Cynulliad mewn lleoliadau allweddol ar draws Cymru, a fydd yn dod â buddion tymor hir i'r cymunedau hynny. Bydd y strategaeth, am y tro cyntaf, yn creu swyddfeydd digon sylweddol i alluogi staff y Cynulliad i gael gyrfaoedd boddhaus y tu allan i Gaerdydd.

Bydd contract adleoli'r Cynulliad yn cael ei aildendro o fewn y chwe mis nesaf. Mae'r swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn sefydlu cwmpas manyleb y contract i sicrhau ei fod yn darparu'r lefel o wasanaeth a fydd yn ofynnol i gynnal staff sy'n dewis symud gyda'u swydd a'u teuluoedd. Bydd cymorth teuluol a gwasanaethau cymorth yn cael eu caffael drwy'r contract adleoli newydd. Am resymau masnachol, tra

bo'r contract yn cael ei dendro, ni fyddai'n briodol rhoi amcangyfrif ar hyn o bryd o werth y contract adleoli na'r gost o gyflenwi gwasanaethau.

Mae ymchwil wedi cael ei wneud i'r farchnad recriwtio bosibl yng nghyffiniau Aberystwyth a chasglwyd gwybodaeth ar gyfer y staff am y stoc dai a phrisiau tai, gwasanaethau GIG, ysgolion a cholegau, cyfleusterau trafnidiaeth a chyfleusterau cymdeithasol. Byddwn yn ymgynghori â'r staff dros y misoedd nesaf i ganfod pa wybodaeth arall y mae ei hangen arnynt er mwyn penderfynu ar sail ffeithiau pa un i symud. Gwnaethpwyd asesiad o'r ailddosbarthu ar incwm gwario. Yr oedd hwn yn cymryd i ystyriaeth y cynnydd mewn cyfoeth lleol a gâi ei gyflwyno i Aberystwyth yn sgil cyflwyno swyddi yn gysylltiedig â'r Cynulliad. Yr ydym hefyd wedi cwrdd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg a byddwn yn gweithio gyda'r bwrdd ar faterion yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg a'r effaith ar gymunedau lleol.

Mae'r swyddogion wedi cwrdd â phrif weithredwr Cyngor Sir Ceredigion a'i uwch dîm i drafod effaith agor swyddfa newydd yn Aberystwyth ar gymunedau lleol, staff a'u teuluoedd. Bydd y dull partneriaeth hwn yn sicrhau y bydd y cam o agor y swyddfa newydd yn un llwyddiannus o bob tu.

Oherwydd trafodaethau masnachol sy'n dal i fynd rhagddynt, ni fyddai'n briodol rhyddhau manylion am yr union safle na gwybodaeth am gostau ar hyn o bryd. Byddaf yn rhoi gwybod ichi fel y mae pethau'n datblygu.

Nifer y swyddi fydd yn symud o Fachynlleth i Aberystwyth yw 46. Mae'n rhannu fel a ganlyn:

- 34 o swyddi Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
- 12 o swyddi Bwrdd Croeso Cymru.

### Y Peilot Ardal Gwella Busnes yn Abertawe

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddweud beth fydd ffynhonnell ariannu'r peilot ardal gwella busnes yn Abertawe? (WAQ42196)

**Sue Essex:** Mae peilot ardal gwella busnes Abertawe wedi sicrhau cyllid oddi wrth Ddinas a Sir Abertawe, Awdurdod Datblygu Cymru a'r sector preifat i ariannu costau sefydlu'r cynllun. Mae ardal gwella busnes i fod yn gynllun a fydd yn ei ariannu ei hun a bydd hefyd yn cael ei ariannu gan drethdalwyr a fydd, os byddant yn cytuno, yn talu ardoll ychwanegol ar eu bil trethi.

### Y Cynllun AGB

**Val Lloyd:** Pa ddulliau y mae'r Cynulliad wedi'u rhoi ar waith i fonitro'r cynllun AGB? (WAQ42197)

**Sue Essex:** Mae'r swyddogion yn mynychu cyfarfodydd o weithgor peilot Abertawe yn rheolaidd i fonitro'r cynnydd. I'r dyfodol yr wyf yn ystyried sefydlu cofrestr o gynlluniau AGB yng Nghymru er mwyn monitro a gwerthuso cynnydd.

### Cynllun AGB Abertawe

**Val Lloyd:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chynrychiolwyr y cyngor ynghylch y cynllun AGB yn Abertawe? (WAQ42198)

**Sue Essex:** Cyfarfûm yn ddiweddar â chynrychiolwyr y cyngor mewn cyflwyniad brecwast a gynhaliwyd gan gyd-drefnwyr cynllun peilot Abertawe lle siaradais am weledigaeth y Cynulliad ar gyfer AGB yng Nghymru. Yr oedd nifer o aelodau'r cyngor yn bresennol yn y digwyddiad. Mae AGB Abertawe ei hun yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r cyngor yn gyson. Yn fwyaf diweddaf, mae seminar arbennig ar AGB wedi'i drefnu i gael ei gynnal ar 21 Mawrth.

## Y Cynllun i Gymell Twf Busnesau

**Val Lloyd:** Pa gytundebau sydd wedi'u gwneud rhwng y cyngor a'r Cynulliad ynghylch eu blaenoriaethau ar gyfer gwario'r arian a neilltuwyd drwy'r cynllun i gymell twf busnesau? (WAQ42199)

**Sue Essex:** Amcan cynllun yr awdurdodau lleol i gymell twf busnesau yw cryfhau economïau lleol drwy gynyddu gwerth ardrethol busnesau yn yr ardal. Mater i bob awdurdod lleol benderfynu arno yw'r blaenoriaethau penodol o ran gwario'r grant fel bod y grant yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau unigol yr awdurdod dan sylw.

## Cynllun AGB Abertawe

**Val Lloyd:** Sut bydd y gwaith sy'n mynd rhagddo ar gynllun AGB Abertawe yn cael ei fonitro a'i werthuso? (WAQ42200)

**Sue Essex:** Yr wyf yn monitro hynt peilot Abertawe yn barhaus ac mae'r swyddogion yn mynychu'r gweithgor ac yn cael adroddiadau diweddaru yn rheolaidd er mwyn monitro ei gynnydd.

## Y Cynllun AGB

**Val Lloyd:** Sut mae'r Cynulliad yn tracio'r gwariant ar y cynllun AGB? (WAQ42201)

**Sue Essex:** Nid oes ond un darpar AGB yng Nghymru ar hyn o bryd, sef peilot AGB Abertawe. Mae'r swyddogion yn mynychu'r gweithgor peilot er mwyn monitro hynt yr AGB.

## Y Cynllun Ardal Gwella Busnes yn Abertawe

**Val Lloyd:** Beth yw pwrpas y cynllun ardal gwella busnes yn Abertawe? (WAQ42202)

**Sue Essex:** Mae'r cynllun ardal gwella busnes yn Abertawe yn rhan o gynllun peilot AGB cenedlaethol, sy'n cael ei weithredu ar y cyd â'r gymdeithas rheoli canol trefi, ar draws Cymru a Lloegr er mwyn rhoi prawf ar y model AGB a llunio canllawiau a rheoliadau. Y gobaith yw y bydd peilot Abertawe yn mynd yn ei flaen i'r cam pleidleisio ac yn dod yn AGB sefydledig.

## Yr Arian a Ddyrannwyd i'r Cynllun AGB

**Val Lloyd:** A yw'r arian a ddyrannwyd i'r cynllun AGB i'w ddefnyddio'n llawn ar gyfer gweithredu'r cynllun? (WAQ42203)

**Sue Essex:** Ydyw. Mae unrhyw arian a gesglir o'r ardoll AGB, neu gyfraniadau gwirfoddol, yn cael eu defnyddio'n benodol ar gyfer y cynllun AGB y maent yn gysylltiedig ag ef.

## Y Cynllun Ardal Gwella Busnes (Canllawiau a Roddwyd i Gynghorau)

**Val Lloyd:** Pa ganllawiau a roddwyd i'r cynghorau sy'n cymryd rhan yn y cynllun ardal gwella busnes? (WAQ42204)

**Sue Essex:** Paratowyd dogfen ganllawiau ddrafft ac ymgynghorasom â'r awdurdodau lleol yn ei chylch ym mis Medi 2003. Drafft gwaith yw ar hyn o bryd ond mae modd iddi gael ei defnyddio gan unrhyw un sy'n dymuno cymryd rhan mewn AGB. Bydd yn cael ei diweddaru yn fuan wrth inni ddysgu o beilot Abertawe. Caiff ei chyhoeddi'n ffurfiol maes o law.

## Ffrydiau Ariannu a Grant Arbennig y Cynulliad

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r manylion am bob ffrwd ariannu a grant arbennig y Cynulliad sy'n cynnwys pwysoliad ar gyfer amddifadedd o fewn ei phortffolio? (WAQ42211)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion pob un o ffrydiau ariannu a grantiau arbennig y Cynulliad sy'n cynnwys pwysoliad ar gyfer amddifadedd o fewn ei phortffolio? (WAQ42212)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion pob un o ffrydiau ariannu a grantiau arbennig y Cynulliad sy'n cynnwys pwysoliad ar gyfer amddifadedd o fewn y portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? (WAQ42213)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion pob un o ffrydiau ariannu a grantiau arbennig y Cynulliad sy'n cynnwys pwysoliad ar gyfer amddifadedd o fewn y portffolio addysg a dysgu gydol oes? (WAQ42214)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion pob un o ffrydiau ariannu a grantiau arbennig y Cynulliad sy'n cynnwys pwysoliad ar gyfer amddifadedd o fewn y portffolio datblygu economaidd a thrafnidiaeth? (WAQ42215)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion pob un o ffrydiau ariannu a grantiau arbennig y Cynulliad sy'n cynnwys pwysoliad ar gyfer amddifadedd o fewn y portffolio amgylchedd, cynllunio a chefn gwlad? (WAQ42216)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion pob un o ffrydiau ariannu a grantiau arbennig y Cynulliad sy'n cynnwys pwysoliad ar gyfer amddifadedd o fewn y portffolio diwylliant, y Gymraeg a chwaraeon? (WAQ42217)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion pob un o ffrydiau ariannu a grantiau arbennig y Cynulliad o fewn ei phortffolio plant sy'n cynnwys pwysoliad ar gyfer amddifadedd? (WAQ42218)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r manylion am bob ffrwd ariannu a grant arbennig y Cynulliad sy'n cynnwys pwysoliad ar gyfer prinder o fewn ei phortffolio? (WAQ42219)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion pob un o ffrydiau ariannu a grantiau arbennig y Cynulliad sy'n cynnwys pwysoliad ar gyfer teneurwydd y boblogaeth o fewn y portffolio diwylliant, y Gymraeg a chwaraeon? (WAQ42220)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion pob un o ffrydiau ariannu a grantiau arbennig y Cynulliad sy'n cynnwys pwysoliad ar gyfer teneurwydd y boblogaeth o fewn y portffolio cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio? (WAQ42221)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion pob un o ffrydiau ariannu a grantiau arbennig y Cynulliad o fewn ei phortffolio plant sy'n cynnwys pwysoliad ar gyfer teneurwydd y boblogaeth? (WAQ42222)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion pob un o ffrydiau ariannu a grantiau arbennig y Cynulliad sy'n cynnwys pwysoliad ar gyfer teneurwydd y boblogaeth o fewn y portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? (WAQ42223)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion pob un o ffrydiau ariannu a grantiau arbennig y Cynulliad sy'n cynnwys pwysoliad ar gyfer teneurwydd y boblogaeth o fewn y portffolio addysg a dysgu gydol oes? (WAQ42224)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion pob un o ffrydiau ariannu a grantiau arbennig y Cynulliad sy’n cynnwys pwysoliad ar gyfer teneurwydd y boblogaeth o fewn y portffolio datblygu economaidd a thrafnidiaeth? (WAQ42225)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion pob un o ffrydiau ariannu a grantiau arbennig y Cynulliad sy’n cynnwys pwysoliad ar gyfer teneurwydd y boblogaeth o fewn y portffolio amgylchedd, cynllunio a chefn gwlad? (WAQ42226)

**Sue Essex:** Yr wyf yn darparu ateb cyfun i'r cwestiynau am ffrydiau ariannu sydd wedi'u pwysoli ar gyfer amddifadedd a theneurwydd y boblogaeth. Mae'r tabl ynghlwm yn dangos grantiau o du'r Cynulliad sy'n cynnwys pwysoliad ar gyfer un ai amddifadedd neu deneurwydd y boblogaeth neu'r naill a'r llall yn eu dosbarthiad. Nid yw'r tabl yn gyflawn gan fod y wybodaeth yn dal i gael ei chasglu ynghyd. Byddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân unwaith y bydd y darlun llawn gennyf.

| | |
|---|---|
| Grant Cynnal Refeniw (awdurdodau unedol) | Grant Cynnal Refeniw (awdurdodau unedol) |
| Grant Cynnal Refeniw (awdurdodau'r heddlu) | Grant Cynnal Refeniw (awdurdodau'r heddlu) |
| Grant Amddifadedd | Gwasanaeth meddygol cyffredinol—y tu allan i oriau |
| Grant Adnoddau Ymarferol | Grant Cymell Perfformiad |
| Cynllun Grant Gofalwyr | |
| Rhoi Plant yn Gyntaf | |
| Cymorth—y gronfa gymorth i blant a phobl ifanc | |
| Gweithredu'r strategaeth ar gyfer pobl hyn | |
| Grant Arbennig ar gyfer Cydweithio | |
| Strategaeth Anabledd Dysgu (prif ffrwd) | |
| Anableddau Dysgu | |
| Cronfa Ddatblygu ar gyfer Rheoli Perfformiad | |
| Cymorth i Bobl ag Anableddau (iechyd meddwl) | |
| Cymunedau yn Gyntaf | |
| Y Gronfa Adfywio Ffisegol | |
| Grant Cymell Perfformiad | |
| Cyllid craidd i Groundwork | |

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Therapi Laser Ffotodynameg a Gwasanaethau Stentio

**Val Lloyd:** I ba raddau y mae therapi laser ffotodynameg a gwasanaethau stentio ar gael ar gyfer cleifion thorasig? (WAQ41860)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb blaenorol i WAQ41676 ym mis Chwefror 2005.

### Marwolaeth Robbie Powell o Ystradgynlais

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr ymchwiliad i farwolaeth Robbie Powell o Ystradgynlais? (WAQ41862)

**Brian Gibbons:** Mae'r Prif Weinidog wedi addo gwneud penderfyniad ar gais Mr Powell am ymchwiliad cyn gynted ag y gall. Fodd bynnag, ni fu'n bosibl cael copïau o ddogfennau allweddol y gallai fod eu hangen arno fel sail i'r penderfyniad. Credaf fod y Prif Weinidog wedi ysgrifennu atoch chi ac at Mr Powell i roi gwybod ichi am yr anawsterau o ran cael y wybodaeth dan sylw. Bydd y Prif Weinidog yn ysgrifennu atoch ymhellach ar y mater hwn, mewn ymateb i'ch llythyr ar 23 Chwefror 2005.

**Lefelau Gordewdra**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y lefelau gordewdra ymhlith plant o dan 16 oed, gan roi ffigurau ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru, neu bwynt cyfeirio arall os nad oes ffigurau ar gael ar gyfer awdurdodau lleol? (WAQ41877)

**Brian Gibbons:** Mae data ar gael am bobl ifanc 13 a 15 oed yng Nghymru. Nid oes data ar gael ar lefel awdurdodau lleol.

**Ffynhonnell:** Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oed Ysgol, arolwg 2001-02

| | **Bechgyn** | | **Merched** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Canran 13 oed** | **Canran 15 oed** | **Canran 13 oed** | **Canran 15 oed** |
| Cyn-gordewdra (dros bwysau) [1] | 17.8 | 16.6 | 15.1 | 14.4 |
| Gordew [1] | 4.4 | 5.6 | 1.7 | 3.0 |

**Nodiadau**

1. Lefelau bod dros bwysau a gordewdra yn ôl meini prawf yr arolwg ymddygiad iechyd mewn plant oed ysgol. I gael rhagor o wybodaeth, mae'r adroddiad hwn ar gael ar:

http://www.euro.who.int/eprise/main/who/informationsources/publications/catalogue/20040518_1

**Lefelau Gordewdra**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y lefelau gordewdra ymhlith plant dros 16 oed, gan roi ffigurau ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru, neu bwynt cyfeirio arall os nad oes ffigurau ar gael ar gyfer awdurdodau lleol? (WAQ41878)

**Brian Gibbons:** Mae data ar gael ar lefel Cymru gyfan o Arolwg Iechyd newydd Cymru a ddechreuodd ym mis Hydref 2003. Bydd amcangyfrifon ar gael ar lefel awdurdodau lleol yn haf 2005 [1].

**Ffynhonnell:** Canlyniadau dros dro Arolwg Iechyd Cymru [2,3]

| **Lefel Mynegai Màs y Corff** [4] | **Canran gwrywod** | **Canran Benywod** | **Canran personau** |
|---|---|---|---|
| Dros bwysau (25 i lai na 30) | 44 | 30 | 37 |
| Gordew (30 a throsodd) | 17 | 18 | 17 |
| *Dros bwysau neu ordew (25 a throsodd)* | 60 | 48 | 54 |

**Nodiadau**

1. Daw'r amcangyfrifon diweddaraf sydd ar gael ar lefel awdurdodau lleol o Arolwg Iechyd Cymru 1992.
   **http://www.wales.gov.uk/keypubstatisticsforwales/content/publication/health/1998/whs1998-e.pdf**

Mae'r canlyniadau dros dro hyn wedi'u seilio ar ddata a gasglwyd yn ystod chwe mis cyntaf y gwaith maes ar gyfer Arolwg Iechyd newydd Cymru, rhwng mis Hydref 2003 a mis Mawrth 2004. I gael rhagor o wybodaeth, trowch at Dabl 3 o'r adroddiad yn: 1.
   http://www.wales.gov.uk/keypubstatisticsforwalesheadline/content/health/2004/hdw20041118-e.htm

2. Pwysolir canlyniadau'r arolwg i gymryd i ystyriaeth debygolrwyddau dethol anghyfartal, a chyfraddau diffyg ymateb gwahaniaethol.
3. Cyfrifir mynegai màs y corff fel y pwysau a roddwyd mewn cilogramau wedi'i rannu â sgwâr y taldra a roddwyd mewn metrau.

### Y Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau yn Ystradgynlais

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwasanaeth y tu allan i oriau yn Ystradgynlais? (WAQ41907)

**Brian Gibbons:** Mae'r bwrdd iechyd lleol wedi gweithio'n galed i sefydlu gwasanaeth sydd nid yn unig yn cyfateb i'r trefniadau a oedd ar waith cyn mis Hydref 2004 ond un sydd yn gwella mynediad at wasanaethau y tu allan i oriau yn sylweddol.

O dan yr hen drefniadau y tu allan i oriau, byddai gofyn i gleifion ffonio'r darparwr a byddai eu hanghenion yn cael eu brysbennu gan nyrs. Pe bai angen gweld meddyg, byddai apwyntiad wedi cael ei roi mewn canolfan yn Abertawe. Nid oedd dewis amgen yn lleol, ac nid oedd cludiant ar gael ychwaith. Dim ond pe bai'r angen yn pennu hynny y byddai'r claf yn cael ymweliad gartref.

O dan y trefniadau newydd, mae cleifion yn gwneud eu galwadau y tu allan i oriau i Shropdoc a chaiff eu hanghenion eu brysbennu. Os bydd angen i'r claf weld meddyg, cynigir nifer o ddewisiadau, yn dibynnu ar pa bryd y gwnaed yr alwad i Shropdoc.

Bob noson o'r wythnos mae canolfan gofal sylfaenol y tu allan i oriau yn gweithredu o Ysbyty Ystradgynlais. Mae hon ar agor rhwng 8 p.m. ac 11 p.m.. Mae hefyd ar agor am gyfnod o dair awr ar y Sadwrn a'r Sul. Pan nad yw'r ganolfan ar agor, cynigir apwyntiad i gleifion yn y ganolfan gofal sylfaenol yn Aberhonddu. Os nad oes gan y claf gludiant, gall Shropdoc drefnu hynny ac mae'r bwrdd iechyd lleol yn talu amdano. Mae trefniadau wedi eu sefydlu hefyd i glaf gael mynd i ganolfan gofal sylfaenol sy'n gweithredu yn Abertawe os yw'n dweud ei fod yn dymuno hynny. Lle bo angen ymweliad gartref, bydd un o feddygon Shropdoc yn ymweld.

### Hebryngwyr yr Heddlu

**Rhodri Glyn Thomas:** Yn dilyn ei ateb i WAQ41631, a wnaiff y Gweinidog fanylu ar y meini prawf a ddefnyddir wrth benderfynu a oes angen meddygol am hebryngwr, a yw'r meini prawf wedi newid er 1999 ac a yw'n gwybod am unrhyw amrywiadau rhanbarthol wrth ddehongli'r meini prawf? (WAQ41919)

**Brian Gibbons:** Meddyg teulu, ymgynghorydd neu fydwraig (neu gynrychiolydd arall enwebedig) sy'n penderfynu a oes angen meddygol am hebryngwr, a bydd yn dibynnu ar gyflwr meddygol y claf unigol. Nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cyhoeddi unrhyw newidiadau i'r meini prawf o ran angen meddygol er 1999. Deallaf y gallai fod amrywiadau yn y ffordd y dehonglir y meini prawf ar angen meddygol ar draws Cymru. Mae'r Cynulliad yn cynnal adolygiad o gludiant i gleifion nad ydynt yn achosion brys sy'n cynnwys ystyried y meini prawf presennol ar ddarparu cludiant i gleifion nad ydynt yn achosion brys.

### Uned Asesu Newydd yn Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, Caerfyrddin

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cyllido uned asesu newydd yn Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru yng Nghaerfyrddin gan Fwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin? (WAQ41921)

**Brian Gibbons:** Mater rhwng BILl Sir Gaerfyrddin, fel comisiynydd a chyllidwr gwasanaethau ar gyfer ei drigolion, a'r Ymddiriedolaethau (yn cynnwys Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin) y mae'r BILl yn comisiynu gwasanaethau ganddynt yw cyllido'r Ganolfan Asesu Feddygol yn Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru. Yn ôl a ddeallaf, gwahoddodd BILl Sir Gaerfyrddin gynigion yn hwyr yn 2004 am grantiau untro i ddarparu gwasanaethau/cyfleusterau o lithriant yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn o'i ddyraniad Wanless. Cyflwynodd Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin gynnig am yr uned asesu a gafodd ystyriaeth ffafriol gan y BILl. O ymchwilio i'r amserlen i gwblhau'r uned hon, fodd bynnag, gwelwyd nad oes modd ei chwblhau yn y flwyddyn ariannol hon. Mae'r BILl, felly, wedi penderfynu

cynnal proses rhagflaenoriaethu mewn cyfarfod ar 9 Mawrth pan fydd y sefyllfa yn cael ei harfarnu o'r newydd (yn cynnwys yr uned asesu feddygol a'r amserlen i'w chwblhau) mewn perthynas â chynlluniau eraill sydd wedi cael eu cynnig.

### Y Strategaeth ar gyfer Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar hynt y gwaith sydd wedi'i wneud ar strategaeth ar gyfer anhwylderau yn y sbectrwm awtistig, ac a wnaiff ddatgan ar ba ddyddiad y bydd ar gael at ddibenion ymgynghori, ac a wnaiff roi eglurhad am unrhyw oedi wrth ei gyhoeddi? (WAQ41923)

**Brian Gibbons:** Mae'r strategaeth i Gymru ar gyfer anhwylderau yn y sbectrwm awtistig yn cael ei drafftio ar hyn o bryd. Gobeithiwn ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mai.

### Y Gwariant Cyfartalog Cenedlaethol ar Wasanaethau Iechyd Meddwl

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar y gwariant cyfartalog cenedlaethol ar wasanaethau iechyd meddwl fesul pen o'r boblogaeth, ac a wnaiff fanylu ar wariant y pen ar wasanaethau iechyd meddwl yn ardaloedd pob un o'r awdurdodau lleol? (WAQ41924)

**Brian Gibbons:** Rhoddir y wybodaeth yn y tabl sydd ynghlwm. Daw ffigurau'r GIG o ddatganiadau cyllidebu rhaglenni cyrff GIG yng Nghymru am 2003-04. Yr oedd cyllidebu rhaglenni yn fenter newydd i GIG Cymru a dylid ystyried y canlyniadau cyntaf fel rhai dangosol. Yn arbennig, dylid nodi'r cyfyngiadau canlynol o fewn yr ymarferiad:

- Nid yw'r ffigurau'n cynnwys cost ymgynghoriadau meddygon teulu gan nad oedd modd neilltuo'r costau hyn i gyflyrau iechyd penodol.
- Nid oedd gwybodaeth ddigonol ar gael am wariant gyda rhai darparwyr o Loegr a darparwyr preifat i alluogi'r costau i gael eu dyrannu i ardaloedd awdurdodau lleol neilltuol. Mae £35.5 miliwn, neu £12 y pen o boblogaeth Cymru, nad oedd modd ei ddyrannu i ardaloedd yr awdurdodau lleol, ond mae wedi ei gynnwys yng nghyfanswm gwariant Cymru ar iechyd meddwl.
- Mae cyfyngiadau i'r wybodaeth sydd ar gael am weithgarwch mewn ysbytai a gweithgarwch cymunedol i allu dyrannu'r costau i gyd yn uniongyrchol i gyflyrau gofal iechyd. Mae rhai costau ysbytai a chymunedol wedi cael eu dosrannu rhwng cyflyrau gan ddefnyddio rhagdybiaethau y cytunwyd arnynt yn lleol.

Cyhoeddwyd canlyniadau cyllidebau rhaglenni GIG 2003-04 i Gymru ar wefan y Cynulliad ar 2 Mawrth 2005. Gellir cael gwybodaeth bellach ar y wefan drwy ddefnyddio'r cyswllt hwn: www.statscymru.cymru.gov.uk (Cliciwch ar 'Ewch i mewn i StatsCymru' yna Health and Care > Health Finance > NHS Programme Budget i weld y rhestr o dablau a graffiau.)

**Gwariant y pen ar wasanaethau iechyd meddwl, 2003-04**

| | Awdurdod lleol (1) | GIG (2) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £ y pen | £ y pen | £ y pen |
| Ynys Môn | 21 | 113 | 134 |
| Blaenau Gwent | 13 | 155 | 169 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 10 | 201 | 211 |
| Caerffili | 15 | 102 | 117 |
| Caerdydd | 13 | 161 | 174 |
| Sir Gaerfyrddin | 11 | 111 | 122 |
| Ceredigion | 23 | 121 | 144 |
| Conwy | 34 | 126 | 160 |
| Sir Ddinbych | 30 | 169 | 198 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sir y Fflint | 12 | 100 | 112 |
| Gwynedd | 16 | 139 | 155 |
| Merthyr Tudful | 26 | 139 | 166 |
| Sir Fynwy | 18 | 126 | 144 |
| Castell-nedd Port Talbot | 13 | 133 | 145 |
| Casnewydd | 13 | 132 | 146 |
| Sir Benfro | 16 | 118 | 134 |
| Powys | 10 | 142 | 152 |
| Rhondda Cynon Taf | 12 | 134 | 146 |
| Abertawe | 18 | 131 | 148 |
| Tor-faen | 18 | 135 | 152 |
| Bro Morgannwg | 9 | 128 | 138 |
| Wrecsam | 24 | 121 | 145 |
| Cyfanswm | 16 | 134 | 150 |
| Gwariant heb ei ddyrannu i ardaloedd lleol | - | 12 | 12 |
| Cyfanswm Cymru | 16 | 146 | 162 |

Nodiadau
(1) Ffynhonnell: Ffurflen RO3. Y gwariant cyfredol net ar oedolion o dan 65 oed sydd ag anghenion iechyd meddwl.
(2) Ffynhonnell: Datganiadau cyllidebau rhaglenni GIG oddi wrth y BILlau a Chomisiwn Iechyd Cymru.
(3) Y ffigurau poblogaeth a ddefnyddiwyd yw amcangyfrifon 2003 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**Staff a Gyflogir gan y GIG**

**Rhodri Glyn Thomas:** Faint o staff a gyflogir gan bob ymddiriedolaeth yn y GIG yng Nghymru? (WAQ41926)

**Brian Gibbons:** Mae gwybodaeth am nifer y staff a gyflogir gan bob Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru yn cael ei chyhoeddi ar wefan StatsCymru:
http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=1279

**Parwyr a Gwerthuswyr Swyddi**

**Rhodri Glyn Thomas:** Faint o staff ym mhob ymddiriedolaeth yn y GIG yng Nghymru sydd wedi cael hyfforddiant fel parwyr neu werthuswyr swyddi er mwyn paru neu werthuso swyddi o dan yr agenda ar gyfer newid? (WAQ41927)

**Rhodri Glyn Thomas:** Faint o staff y mae pob ymddiriedolaeth wedi'u hyfforddi i baru neu i werthuso swyddi? (WAQ41928)

**Brian Gibbons:** Mae nifer y parwyr swyddi sydd wedi cael eu hyfforddi a'u hychwanegu at y cofrestrau moderneiddio tâl yn 708 erbyn hyn.

**Niferoedd a hyfforddwyd ym mhob ymddiriedolaeth**

| | |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg | 63 |
| Y Ganolfan Gwasanaethau Busnes | 29 |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | 130 |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin | 24 |
| Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion | 18 |
| Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych | 30 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | 91 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru | 28 |

| | |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg | 21 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru | 42 |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen | 49 |
| Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda | 33 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Powys | 33 |
| Ymddiriedolaeth GIG Abertawe | 40 |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 56 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 21 |

Nid yw'r hyfforddiant gwerthuso swyddi llawn wedi cael ei gwblhau eto yn yr Ymddiriedolaethau gan fod hyn yn dod yn ddiweddarach yn y broses ar ôl y paru swyddi.

### Yr Agenda ar gyfer Newid

**Rhodri Glyn Thomas:** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl i'r broses paru a gwerthuso swyddi o dan yr agenda ar gyfer newid gael ei chwblhau? (WAQ41929)

**Brian Gibbons:** Dylai'r staff i gyd gael eu symud i'r system gyflogau newydd erbyn mis Medi 2005 neu cyn gynted ag sy'n bosibl wedi hynny.

### Cronfeydd y Loteri Genedlaethol

**David Davies:** Faint o arian o gronfeydd y loteri genedlaethol sydd wedi cael ei roi i'r GIG yn ystod pob un o'r 3 blynedd diwethaf. (WAQ41933)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu'n ganolog yng nghyfrifon y GIG.

### Archwilio Cartrefi Gofal

**Lisa Francis:** Pa fesurau neu gamau y mae'r awdurdodau lleol yng Nghymru yn eu cymryd i wneud yn siŵr bod cartrefi gofal yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw'r trigolion hŷn yn cael eu cam-drin? (WAQ41935)

**Brian Gibbons:** Mae gan awdurdodau lleol rôl gomisiynu a rôl monitro contractau mewn perthynas â chartrefi gofal. Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r awdurdod rheoleiddio i ofal cymdeithasol (yn cynnwys cartrefi gofal i oedolion), y blynyddoedd cynnar a gofal iechyd preifat a gwirfoddol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dirprwyo cyfrifoldeb gweithredol llawn am gamau a phenderfyniadau rheoleiddio i Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Mae'r arolygiaeth yn rheoleiddio yn unol â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol a bennwyd gan Lywodraeth y Cynulliad.

Sefydlwyd Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yn 2002 fel rhan o becyn o ddiwygiadau sydd â'r nod o amddiffyn a hyrwyddo ansawdd bywyd ac annibyniaeth pobl. Mae'r arolygiaeth yn cyfrannu tuag at amddiffyn pobl sy'n agored i niwed a sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cyflenwi yn unol â'r safonau y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu disgwyl.

Fel rhan o'i gyfrifoldebau rheoleiddio mae'r arolygiaeth yn arolygu gwasanaethau cofrestredig ac yn cyhoeddi adroddiadau cyhoeddus. Yn achos cartrefi gofal i oedolion, mae'r arolygiaeth yn arolygu o leiaf ddwywaith y flwyddyn, gydag un ymweliad wedi ei gyhoeddi ymlaen llaw ac un ymweliad yn ddigyhoeddiad.

Mae'r rôl reoleiddio hefyd yn cynnwys cofrestru gwasanaethau gofal, ymchwilio i gwynion a chymryd camau gorfodi i sicrhau bod y rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol yn cael eu cyflawni.

Deallaf fod cyfarwyddwr rhanbarthol yr arolygiaeth yn rhanbarth y Gorllewin wedi ysgrifennu atoch yn cynnig cwrdd i drafod yn fwy manwl sut mae'r gweithgarwch rheoleiddio yn cael ei gynnal yng Nghymru.

### Pobl Hŷn sy'n cael eu Cam-drin

**Lisa Francis:** Pa ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd sydd ar y gweill i ddwyn sylw at sefyllfa pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin yng Nghymru, ac i atal y gamdriniaeth honno rhag digwydd? (WAQ41936)

**Brian Gibbons:** Ar hyn o bryd nid wyf ond yn ymwybodol o ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd cenedlaethol sy'n cael eu trefnu gan Action on Elder Abuse a Comic Relief. Bydd y cyrff hyn yn gallu rhoi gwybodaeth bellach ichi am unrhyw ddimensiwn Cymreig neilltuol i'r ymgyrchoedd.

### Staff sy'n Gweithio mewn Cartrefi Gofal Preswyl ar gyfer Pobl Hŷn

**Lisa Francis:** Pa fesurau neu gamau sydd yn eu lle i sicrhau bod staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal preswyl ar gyfer pobl hŷn yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn gallu chwythu'r chwiban pan fydd eu cydweithwyr yn cam-drin y trigolion hŷn? (WAQ41937)

**Brian Gibbons:** Mater i gyflogwyr staff o'r fath yn y sectorau cyhoeddus a phreifat yw datblygu a gweithredu eu polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain i annog staff i beidio â cham-drin drwy eu hannog i fod yn effro ac i deimlo'n hyderus i roi gwybod am eu pryderon. Ategir hyn yn y canllawiau 'Mewn Dwylo Diogel' a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac fe'i hatgyfnerthir gan y cyfundrefnau rheoleiddio a'r safonau gofynnol cenedlaethol a gyflwynwyd gennym o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Er enghraifft, mae'n un o ofynion y cyfundrefnau i gartrefi gofal cofrestredig i bobl hyn ac asiantaethau gofal cartref fod gweithdrefnau trylwyr i amddiffyn oedolion, yn cynnwys chwythu chwiban, wedi cael eu sefydlu. Mae Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yn arolygu cydymffurfiaeth â hyn.

### Cartrefi Gofal Preswyl

**Lisa Francis:** Ym mhob blwyddyn er 1999, faint o bobl hŷn sydd wedi bod mewn cartrefi gofal preswyl yng Nghymru? (WAQ41938)

**Brian Gibbons:** Dangosir yn y tabl isod nifer y bobl 65 oed a throsodd a oedd yn cael cymorth gan awdurdodau lleol mewn cartrefi gofal preswyl ar 31 Mawrth o 1999 hyd at y flwyddyn ddiweddaraf y mae gwybodaeth ar gael amdani. Nid yw niferoedd y preswylwyr sy'n cael cymorth yn cynnwys pobl sy'n talu'n llawn am gost eu llety a'u gofal.

| Ar 31 Mawrth | Nifer y preswylwyr 65 oed a throsodd oedd yn cael cymorth (1) |
|---|---|
| 1999 | 9,876 |
| 2000 | 9,573 |
| 2001 | 9,415 |
| 2002 (2) | - |
| 2003 (3) | 9,029 |
| 2004 (3) | 9,248 |

(1) Mae'r ffigurau am 1999 i 2001 yn cynnwys preswylwyr mewn cartrefi gofal â 4 neu ragor o welyau sydd wedi'u cofrestru o dan Ran 1 o Ddeddf Cartrefi Cofrestredig 1984, neu gartrefi awdurdodau lleol a ddarperid o dan Ran III o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948. Mae'r ffigurau am 2002 ymlaen yn cyfeirio at breswylwyr mewn sefydliadau a gofrestrwyd fel cartrefi gofal o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000

(2) Ni chasglwyd y wybodaeth hon am 31 Mawrth 2002.

(3) Nid oedd dadansoddiad oedran o'r preswylwyr oedd yn cael cymorth yn Sir Ddinbych ar gael am y blynyddoedd hyn. Yr oedd 550 o breswylwyr 18 oed a throsodd yn cael cymorth yn Sir Ddinbych ar 31 Mawrth 2003 a 604 ar 31 Mawrth 2004.

**Cleifion Hŷn mewn Cartrefi Gofal Preswyl Cyhoeddus a Phreifat**

**Lisa Francis:** Pa fesurau neu gamau rheolaidd sy’n cael eu cymryd i sicrhau nad oes unrhyw bobl hŷn mewn cartrefi gofal preswyl cyhoeddus a phreifat ar gyfer cleifion hŷn yn cael eu cam-drin? (WAQ41940)

**Brian Gibbons:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ41935.

**Sicrhau nad yw Pobl Hŷn yn cael eu Cam-drin**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i’r afael â’r weithred o gam-drin pobl hŷn yng Nghymru? (WAQ41942)

**Lisa Francis:** Pa gamau sy’n cael eu cymryd ar hyn o bryd i sicrhau nad yw pobl hŷn yn cael eu cam-drin yng Nghymru? (WAQ41941)

**Brian Gibbons:** Mae canllawiau Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, ‘Mewn Dwylo Diogel—Rhoi Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion ar Waith yng Nghymru’, yn darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu polisïau a gweithdrefnau amlasiantaethol lleol i amddiffyn pob oedolyn sy'n agored i niwed.

Mae'r fframweithiau rheoleiddio a'r safonau gofynnol cenedlaethol yr ydym wedi'u cyflwyno o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 hefyd yn cynnwys mesurau i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed rhag cael eu cam-drin.

Yn 2004 hefyd, cychwynasom y darpariaethau perthnasol yn ymwneud ag amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed yn Neddf Safonau Gofal 2000 er mwyn sefydlu rhestr i Gymru a Lloegr o bobl sy'n cael eu barnu'n anaddas i weithio gydag oedolion sy'n agored i niwed. Mae hefyd yn ofynnol o dan y darpariaethau hyn fod rhai cyflogwyr gofal yn cyfeirio pobl i gael eu cynnwys ar y rhestr ac yn cynnal archwiliadau cyn-cyflogi yn erbyn y rhestr hon.

Mae ein trefniadau i amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed yn dal i gael eu hadolygu gennym.

**Y Nifer o Bobl Hŷn a fu Farw oherwydd iddynt gael eu Cam-drin**

**Lisa Francis:** Ym mhob blwyddyn er 1999, faint o bobl hŷn yng Nghymru sydd wedi marw oherwydd iddynt gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso? (WAQ41943)

**Lisa Francis:** Ym mhob blwyddyn er 1999, faint o bobl hŷn oedd yn derbyn gofal gan gyfeillion a pherthnasau yn eu cartrefi eu hunain? (WAQ41944)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r wybodaeth hon gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Canolfannau Triniaeth ‘Cerdded i Mewn’ yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru**

**Lisa Francis:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i sefydlu canolfannau triniaeth ‘cerdded i mewn’ yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? (WAQ41948)

**Brian Gibbons:** Nid oes gennym gynlluniau i ddatblygu'r canolfannau hyn fel menter ganolog gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Pe bai byrddau iechyd lleol am ddatblygu gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion penodol, mater iddynt hwy yw hynny. Wrth ddod i benderfyniad o'r fath byddai disgwyl i'r byrddau iechyd lleol roi ystyriaeth i'r holl reolau a'r canllawiau perthnasol, yn cynnwys ystyriaethau gwerth am arian.

**Lleihau'r Nifer sydd ar Restrau Aros yn y Canolbarth a'r Gorllewin**

**Lisa Francis:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i leihau nifer y bobl ar restrau aros yn y Canolbarth a'r Gorllewin? (WAQ41949)

**Brian Gibbons:** Mae'r pwyslais yng Nghymru ar amseroedd aros nid rhestrau aros ac mae cwtogi amseroedd aros yn un o'n blaenoriaethau. Mae'r cynllun ail gynnig yn gweithredu yn y Canolbarth a'r Gorllewin megis mewn mannau eraill i sicrhau na fydd neb wedi bod yn aros mwy na 12 mis ar 31 Mawrth 2005 heb fod wedi cael y cyfle o ail gynnig.

Dengys y tabl canlynol nifer y cleifion oedd yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol ac achosion dydd ar ddiwedd mis Ionawr 2005 ym mhob Ymddiriedolaeth yn y Canolbarth a'r Gorllewin

| Ymddiriedolaeth | Cyfanswm yn Aros | Dros 12 mis | Dros 18 mis |
|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 4,687 | 251 | 44 |
| Sir Benfro a Derwen | 2,124 | 37 | 0 |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 1,518 | 148 | 0 |
| Powys | 490 | 2 | 0 |
| Gogledd-orllewin Cymru | 3,197 | 30 | 0 |

Bydd disgwyl i'r cymunedau iechyd gyrraedd y targedau erbyn 31 Mawrth 2005. Bydd targedau newydd ar gyfer 2005-06 yn sicrhau na fydd yr un claf, erbyn mis Mawrth 2006, yn aros mwy na 12 mis am apwyntiad cyntaf fel claf allanol neu am driniaeth fel claf mewnol neu achos dydd.

**Codi Tâl am Barcio Ceir mewn Ysbytai**

**Nick Bourne:** A oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bolisi o ran codi tâl am barcio ceir mewn ysbytai, ac, os felly, a wnaiff nodi beth yw'r polisi hwnnw? (WAQ41951)

**Nick Bourne:** A oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gynlluniau i gyflwyno canllawiau ar gyfer sicrhau y defnyddir yr un arferion ledled Cymru o ran codi tâl am barcio ceir mewn ysbytai, ac, os felly, a wnaiff y Gweinidog nodi beth yw'r canllawiau hynny? (WAQ41952)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb yr Ymddiriedolaethau GIG unigol yw cyfleusterau a thaliadau parcio mewn ysbytai yng Nghymru. Nid oes gennyf gynlluniau i gyhoeddi canllawiau ar sut y dylai'r Ymddiriedolaethau reoli'r rhain.

**Nyrsys Ysgol**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nyrsys ysgol yng Nghymru? (WAQ41953)

**Brian Gibbons:** Mae nyrsys ysgol yn chwarae rhan bwysig yn hyrwyddo iechyd plant a phobl ifanc. Comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygiad blwyddyn o hyd i rolau a chyfrifoldebau gofal sylfaenol a nyrsio cymunedol. Mae'r adolygiad wedi rhoi sylw arbennig i nyrsys ysgol, ac wedi mynd ati i fapio'r ddarpariaeth nyrsys ysgol ar draws Cymru ac edrych eto ar argymhellion yr adolygiad o wasanaethau ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol a ymddangosodd ym mis Ebrill 2000. Mae'r adroddiad terfynol yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gyda'r bwriad o ymgynghori ynghylch canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad.

Dengys Cynlluniau Gweithlu'r GIG ar gyfer 2004 fod 150 o nyrsys ysgol cyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi gan Ymddiriedolaethau GIG ym mis Medi 2003. Yr oedd gan 103 cyfwerth ag amser llawn ohonynt gymhwyster nyrs ysgol. Yn nhermau gwasanaethau nyrsys ysgol, mae hyfforddiant sy'n cael ei ariannu'n ganolog wedi cael ei ddarparu i nyrsys ysgol a gyflogir gan y GIG er 2000. Mae nifer y lleoedd a gynigir wedi cynyddu o chwe lle yn 2000 i 24 lle yn 2004.

## Lleoedd Hyfforddiant Deintyddol ym Mangor

**Janet Ryder:** Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran creu lleoedd hyfforddiant deintyddol ym Mangor fel yr amlinellwyd yng ngham 3 gwasanaeth deintyddol Cymru? (WAQ41960)

***Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro.***

**Brian Gibbons:** Yr wyf mewn sefyllfa erbyn hyn i roi'r wybodaeth ganlynol ichi. Mae creu lleoedd hyfforddiant deintyddol ym Mangor yn rhan o gynllun i raddol gynyddu nifer y lleoedd i israddedigion deintyddol yng Nghymru.

Hyd yma cafwyd cynnydd yn nifer yr israddedigion deintyddol yn Ysbyty Ddeintyddol Prifysgol Caerdydd, addysgu allanol yn Wrecsam, a rhoddwyd ystyriaeth gynnar i leoliad mewn ysbyty cymuned newydd yng nghymoedd y De.

Os caiff lleoedd hyfforddiant deintyddol eu creu ym Mangor bydd yn rhaid i hynny ddod ar ôl sefydlu'r ysbyty cymuned newydd yng nghymoedd y De.

Yn y cyfamser, i hwyluso lleoedd hyfforddiant deintyddol yn y Gogledd, mae Ysgol Ddeintyddol Caerdydd mewn trafodaethau cynnar ag Ysgol Ddeintyddol Lerpwl am gydweithredu â'i gilydd i addysgu israddedigion ar draws y Gogledd.

## Cytundeb Cyllid Cenedlaethol 2005-06

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cytundeb cyllid cenedlaethol ar gyfer 2005-06 a'r diffyg mewn cyllid sy'n deillio ohono? (WAQ41962)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sut y gall yr ymddiriedolaethau wneud iawn am y diffyg mewn cyllid o 3.31 y cant a amlinellir yn y cytundeb cyllid cenedlaethol ar gyfer 2005-06? (WAQ41963)

**Brian Gibbons:** Cytundeb blynyddol rhwng y byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar lefel y cynnydd disgwyliedig mewn costau llinell sylfaen yn y GIG yw'r cytundeb cyllid cenedlaethol. Defnyddir y cytundeb fel sail i'r dyraniadau blynyddol i'r byrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru, ac wedyn fel sail i broses flynyddol y fframwaith gwasanaeth a chyllid yn y GIG. Mae'n sicrhau cysondeb ar draws y GIG o ran ariannu chwyddiant ar gyflogau a phrisiau. Seilir y cytundeb ar amcangyfrifon a chyfartaledd ydyw i Gymru gyfan. Bydd effaith benodol pob un o elfennau'r cytundeb yn amrywio rhwng gwahanol gyrff GIG.

Mae'r cytundeb ar gyfer 2005-06 yn amcangyfrif y bydd costau llinell sylfaen ysbytai a gwasanaethau cymunedol yn cynyddu 8.79 y cant yn 2005-06. Yn erbyn hyn, mae'r Cynulliad wedi darparu cyllid o 5.48 y cant, yn cynnwys 2.83 y cant yn fras i ariannu contract newydd yr ymgynghorwyr a'r Agenda ar gyfer Newid yn llawn. Mae hyn yn golygu bwlch cyllido o 3.31 ar gyfartaledd.

Mae'r codiadau o ran costau sydd wedi eu cydnabod yn y cytundeb yn cynnwys chwyddiant ar gyflogau ac fel arall, pwysau statudol a phwysau polisi, cynnydd yng nghostau gofal parhaus, cynnydd mewn cyffuriau drud ac effaith blwyddyn olaf y newidiadau i gontractau meddygon iau. O ran elfennau ar wahân i gyflogau, mae'r Cynulliad yn disgwyl i bob ymddiriedolaeth GIG wneud arbedion sy'n rhyddhau arian drwy wella'r arferion caffael nes bod y codiadau hyn wedi eu clirio. Mae'r Cynulliad hefyd yn disgwyl i'r cynnydd yng nghostau gofal parhaus gael ei reoli drwy gydweithrediad agosach rhwng byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG yng nghyswllt darparu'r gwasanaethau hyn. Bydd angen i bwysau eraill o ran costau gael eu rheoli mewn cymunedau iechyd lleol drwy broses y fframwaith gwasanaeth ac ariannol. Mae'r fframweithiau gwasanaeth ac ariannol yn cael eu hadolygu gan swyddfeydd rhanbarthol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac maent i fod i gael eu cymeradwyo'n derfynol o fewn y mis nesaf.

**Setliad Ariannol Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar setliad ariannol Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2005-06 a 2007-08? (WAQ41964)

**Brian Gibbons:** Mae'r dyraniadau refeniw ar gyfer 2005-06 wedi cael eu cyflwyno i'r byrddau iechyd lleol a mater i'r comisiynwyr yw trafod gyda'r ymddiriedolaethau perthnasol sut mae defnyddio'r arian hwn orau er mwyn gwireddu a chyflwyno blaenoriaethau blynyddol y Gweinidogion. Mae BILl Sir Gaerfyrddin wrthi ar hyn o bryd yn paratoi fframwaith gwasanaeth ac ariannol ar gyfer y gymuned iechyd leol sy'n cynnwys Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin.

**Ysbyty Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili**

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pryd y caiff y cynllun busnes amlinellol ar gyfer ysbyty newydd bwrdeistref sirol Caerffili ei gymeradwyo? (WAQ41993)

**Brian Gibbons:** Mae achos busnes amlinellol ysbyty bwrdeistref sirol Caerffili wedi bod gyda'r swyddogion er mis Rhagfyr. Fel rhan o broses yr achos busnes mae cynghorwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn craffu ar y ddogfen ac mae'r swyddogion erbyn hyn yn cysylltu â staff yr Ymddiriedolaeth a'r BILl i ymdrin â'r materion a nodwyd yn ystod y gwaith craffu. Unwaith y bydd materion o'r fath wedi cael eu datrys bydd yr achos yn mynd i'r bwrdd buddsoddi cyfalaf i gael ei ystyried. Er yn gobeithio y gellir ystyried rhoi cymeradwyaeth cyn gynted â phosibl, mae'n amlwg yn fwy pwysig fod sylw priodol yn cael ei roi i bob mater yn ymwneud â'r datblygiad cyn bwrw ymlaen i'r cam nesaf.

**Ysbyty Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili yn Ystrad Fawr**

**Laura Anne Jones:** Pa asesiadau/darpariaethau/arolygon sydd wedi'u gwneud yn y safle sy'n cael ei ffafrio ar gyfer ysbyty newydd bwrdeistref sirol Caerffili yn Ystrad Fawr? (WAQ41994)

**Brian Gibbons:** Yn ychwanegol at wybodaeth a thrafodaethau gyda'r awdurdod lleol ac asiantau tir, mae'r asesiadau a'r arolygon canlynol wedi cael eu comisiynu ac maent un ai ar y gweill ar hyn o bryd neu wedi'u cwblhau:

1 Penodi pensaer/syrfëwr meintiau i ddatblygu dyluniad amlinellol er mwyn ystyried materion yn ymwneud ag addasrwydd a seilwaith y safle. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau.
2 Penodi ymgynghorwyr i ymgymryd ag asesiad o'r effaith ar y traffig. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.
3 Arolwg astudiaeth bwrdd gwaith i ystyried materion yn cynnwys topograffeg, y cyfleustodau presennol, adroddiadau mwyngloddio'r awdurdod lleol, unrhyw ystyriaethau halogi y gwyddys amdanynt, daeareg a hanes y safle. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.
4 Bod asesiadau o ganlyniadau llifogydd yn cael ei gynhyrchu yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 15. Dogfen ystadau yw TAN 15 sy'n manylu ar bolisi cynllunio i Gymru ac yn arbennig i'r datblygiad ac asesiadau perygl llifogydd. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

**Arfarniadau Ariannol a gynhaliwyd o Safleoedd Parc Hawtin, Pontllanfraith ac Ystrad Fawr**

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar unrhyw arfarniadau ariannol sydd wedi'u cynnal o safleoedd Parc Hawtin, Pontllanfraith ac Ystrad Fawr o ran adeiladu ysbyty newydd ar gyfer bwrdeistref sirol Caerffili? (WAQ41995)

**Brian Gibbons:** Mae'r achos busnes amlinellol sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd yn cynnwys dau safle sydd wedi'u rhoi ar restr fer

- Ystrad Fawr

- I'r de o Barc Hawtin

Mae costau cyfalaf ar gyfer y ddau opsiwn wedi cael eu paratoi yn unol â chanllawiau'r GIG 'How to Cost a Hospital' ac mae ffurflenni costio manwl wedi cael eu llenwi am y naill opsiwn a'r llall ar y rhestr fer. Mae goblygiadau ariannol nodweddion y safleoedd wedi cael eu hamcangyfrif a'u cynnwys yn y costau cyfalaf. Mae'r ystyriaethau hyn yn cynnwys cost y tir, gwaith seilwaith ac adfer, dymchwel a chlirio, ffyrdd mynediad. Nodir costau eraill hefyd megis unrhyw waith gofynnol ar y priffyrdd.

| | **Parc Hawtin £ miliwn** | **Ystrad Fawr £ miliwn** |
|---|---|---|
| **Amcangyfrif o'r gost gyfalaf** | 96.00 | 97.00 |
| Yn cynnwys | | |
| Cost y tir | 5.9 | 3.9 |
| Atal llifogydd | | 6.2 |
| Wal gynnal | 4.8 | |
| Dymchwel Ystrad Fawr | | 0.7 |
| Pont ffordd | | 0.4 |
| Dymchwel Ysbyty Ystrad Mynach | | 0.3 |
| Caeau chwarae (yn cyn. llifoleuadau ayb) | | 0.4 |
| Seilwaith ffyrdd | 0.5 | 0.5 |

**Amserlenni Cyfredol ar gyfer Adeiladu Ysbyty Newydd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili**

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu unrhyw amserlenni cyfredol ar gyfer adeiladu ysbyty newydd ym mwrdeistref sirol Caerffili? (WAQ41996)

**Brian Gibbons:** Gan nad yw'r achos busnes amlinellol wedi cael ei gymeradwyo eto, mae'n rhy gynnar yn y broses i ddarparu'r math hwn o wybodaeth ddiffiniol.

**Llinell Wybodaeth Iechyd Rhywiol Rhadffon**

**Lisa Francis:** Yn dilyn WAQ41717, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn marchnata'r llinell wybodaeth iechyd rhywiol rhadffon? (WAQ42005)

**Lisa Francis:** Yn dilyn WAQ41717, ers i'r llinell wybodaeth iechyd rhywiol gael ei sefydlu, faint o alwadau mae'n ei derbyn ar gyfartaledd bob mis? (WAQ42006)

**Lisa Francis:** Yn dilyn WAQ41717, a wnaiff y Gweinidog roi rhestr fanwl o nifer y staff sy'n gweithio i'r llinell wybodaeth iechyd rhywiol, gan nodi eu meysydd arbenigedd? (WAQ42013)

**Brian Gibbons:** Mae'r llinell wybodaeth iechyd rhywiol yn cael ei darparu i'r DU gyfan. Yr Adran Iechyd sy'n gyfrifol am gontract y llinell gymorth ac mae Cymru'n cyfrannu at y gost. Sefydlwyd y llinell wybodaeth iechyd rhywiol yn ei ffurf bresennol yn 2002-03. Cyn hynny, llinell gymorth genedlaethol AIDS oedd y llinell gymorth a chafodd ei hailwampio i roi sylw i'r pryderon ehangach am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ac iechyd rhywiol yn gyffredinol.

Yn 2002-03, derbyniodd y llinell gymorth 1,518 o alwadau rhyngweithiol o Gymru. Mae hyn yn cynrychioli 2.4 y cant o'r holl alwadau a wnaed i'r llinell gymorth o'r DU. Newidiodd contractwr y llinell gymorth yn 2003-04 a, chyda hynny, newidiodd y dull cipio data. Gan fod y gwasanaethau yn gyfrinachol, nid yw COI Communications sy'n rheoli'r contract ar ran yr Adran Iechyd yn asesu ystadegau BT am ddadansoddiadau daearyddol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ar sail canrannau'r galwadau proffil (galwadau proffil yw'r rheini lle mae'r cynghorwyr wedi gallu gofyn cyfres o gwestiynau proffilio) lle darparwyd data cod post hefyd, amcangyfrifir bod galwadau o Gymru i gyfrif am rhwng 2 a 4 y cant o'r holl alwadau a wneir i'r llinell gymorth. Yn 2003-04, gwnaed 47,095 o alwadau rhyngweithiol o bob cwr o'r DU ac yn 2004-05 yr oedd y ffigur yn 34,334.

Mae staff y llinell gymorth yn gweithredu ar ddwy lefel. Mae gweithredwyr haen gyntaf wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio sgriniau cymorth a phrotocolau archebu llenyddiaeth priodol. Mae gan weithredwyr ar yr ail haen sgiliau gwrando cydnabyddedig, maent yn sensitif ac empathig, mae ganddynt brofiad o ddarparu ymatebion sydd wedi'u teilwrio ac o weithio mewn rôl gynghori. Mae 68 o staff wedi'u hyfforddi yng nghronfa staff yr haen gyntaf a 32 ar yr ail haen.

Hysbysebir rhif y llinell gymorth iechyd rhywiol ar bosteri ein hymgyrch i atal heintiau a drosglwyddir yn rhywiol. Mae hefyd yn cael ei gynnwys mewn unrhyw adnoddau iechyd rhywiol a gyhoeddir gennym. Yr ydym hefyd yn hyrwyddo Galw Iechyd Cymru fel ffynhonnell gwybodaeth iechyd rhywiol ac yn cyfeirio pobl ifanc at wefannau perthnasol.

**Ymgyrchoedd Addysgu'r Cyhoedd**

**Lisa Francis:** Yn dilyn WAQ41718, a wnaiff y Gweinidog roi manylion yr ymgyrchoedd addysgu'r cyhoedd yng Nghymru? (WAQ42007)

**Brian Gibbons:** Ar hyn o bryd mae ymgyrch genedlaethol ar waith ar draws Cymru i atal heintiau a drosglwyddir yn rhywiol. Mae'r ymgyrch yn targedu pobl ifanc 16 i 30 oed ac mae'n ymddangos yn nhoiledau prifysgolion, colegau, tafarndai a chlybiau nos. Mae adnoddau newydd yn cael eu darparu ar gyfer yr ymgyrch. Bydd yr ymgyrch yn cael ei hail-lansio yn y gwanwyn gyda phosteri newydd. Caiff y rhain eu gosod yn yr un mannau â deunyddiau'r ymgyrch gyfredol a'u dosbarthu yn fwy eang. Bydd posteri'r ymgyrch ynghyd â thaflenni gwybodaeth ategol yn cael eu dosbarthu i feddygon teulu, fferyllfeydd, clybiau ieuenctid a chlinigau iechyd rhywiol.

Bydd ymgyrch atal HIV i Gymru gyfan, sy'n targedu dynion hoyw, yn parhau. Rhyw rhwng dynion yw prif ddull trosglwyddo HIV o hyd yng Nghymru ac mae'n bwysig ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion atal ar y grwp hwn. Mae Ymddiriedolaeth Terrence Higgins wedi cael ei chomisiynu gan Lywodraeth y Cynulliad i ymgymryd â'r gwaith hwn.

**Nodau ac Amcanion y Rhwydwaith Iechyd Rhywiol ar gyfer Cymru Gyfan**

**Lisa Francis:** Yn dilyn WAQ41718, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nodau ac amcanion y rhwydwaith iechyd rhywiol ar gyfer Cymru gyfan? (WAQ42009)

**Lisa Francis:** Yn dilyn WAQ41718, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pa argymhellion y mae'r rhwydwaith iechyd rhywiol ar gyfer Cymru gyfan wedi'u derbyn ers ei sefydlu yn 2001? (WAQ42010)

**Lisa Francis:** Yn dilyn WAQ41718, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch faint o'r gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol sy'n cael ei chlustnodi ar gyfer y rhwydwaith iechyd rhywiol ar gyfer Cymru gyfan? (WAQ42011)

**Brian Gibbons:** Nodau rhwydwaith iechyd rhywiol Cymru gyfan yw hyrwyddo arferion addawol a chynyddu dealltwriaeth y cyhoedd a'r proffesiwn o faterion iechyd rhywiol; bod yn fforwm trafod i amryw o asiantaethau ac unigolion sy'n ymwneud â hyrwyddo gwell iechyd rhywiol; a chymryd rhan ragweithiol yn lledaenu arferion da o ran hybu gwell iechyd rhywiol. Yn gefn i'r nodau hyn mae chwe amcan: datblygu'r rhwydwaith drwy gynyddu'r aelodaeth ar draws gwahanol sectorau; denu'r aelodau i gyfrannu tuag at lunio a chyfarwyddo'r rhwydwaith; datblygu a chynnal cronfa ddata o gysylltiadau iechyd rhywiol a phrosiectau iechyd rhywiol 'addawol'; cynhyrchu cylchlythyr dwyieithog chwarterol yn cynnwys cyfraniadau gan aelodau; trefnu a rheoli dau seminar cenedlaethol y flwyddyn; a gweithio mewn modd rhagweithiol gydag aelodau'r rhwydwaith i geisio sylw cadarnhaol yn y cyfryngau i faterion iechyd rhywiol.

Nid yw'r rhwydwaith wedi gwneud unrhyw argymhellion i Lywodraeth y Cynulliad. Pwrpas y rhwydwaith yw rhannu'r arferion gorau er mwyn dylanwadu ar waith yr aelodau.

Ar hyn o bryd mae'r rhwydwaith yn costio £40,000 y flwyddyn. Yn ystod 2005 caiff y rhwydwaith ei ehangu er mwyn helpu i ddatblygu rhwydweithiau HIV ac iechyd rhywiol lleol fel a gyhoeddwyd yn natganiad Jane Hutt i'r Cyfarfod Llawn ar argymhellion yr adolygiad o wasanaethau HIV ac iechyd rhywiol ar 7 Rhagfyr 2004.

**Gwasanaethau Iechyd Rhywiol**

**Lisa Francis:** Yn dilyn WAQ41718, a wnaiff y Gweinidog roi manylion yr holl brosiectau sydd wedi'u datblygu, gan gynnwys eu lleoliad, sy'n gwneud gwasanaethau iechyd rhywiol yn fwy hygyrch? (WAQ42012)

**Lisa Francis:** Yn dilyn WAQ41718, a wnaiff y Gweinidog restru'r prosiectau rhyw mwy diogel lleol a chenedlaethol sy'n parhau? (WAQ42008)

**Brian Gibbons:** Mae'r cynlluniau cenedlaethol sy'n hyrwyddo rhyw mwy diogel yn cynnwys yr ymgyrch i atal heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, yr ymgyrch atal HIV sydd wedi'i thargedu at ddynion hoyw, cyflenwi adnoddau iechyd rhywiol amrywiol, a datblygu rhwydwaith iechyd rhywiol Cymru gyfan ymhellach.

Mae llawer o brosiectau iechyd rhywiol lleol ar draws Cymru ac nid yw manylion pob un ohonynt yn cael eu dal yn ganolog. Isod ceir rhestr o'r prosiectau y mae'r swyddogion yn ymwybodol ohonynt ac sydd hyd y gwyddant yn parhau.

**Prosiectau sy'n hyrwyddo gwasanaethau hygyrch**

- Sesiynau Galw Heibio i gael Cyngor ar Berthnasoedd

Cyngor ar berthnasoedd i bobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot.

- Gweithwyr Allgymorth Iechyd Rhywiol

Gweithwyr allgymorth iechyd rhywiol yng Nghasnewydd, Tor-faen, a Sir y Fflint.

- Menter Rhyw Mwy Diogel Powys

Gwaith allgymorth i bobl ifanc, yn paru gweithwyr iechyd a gweithwyr ieuenctid.

- Bws Allgymorth i Bobl Ifanc

Nyrsys iechyd rhywiol yn darparu cyngor ar iechyd rhywiol a chondomau am ddim o'r bws ym Merthyr Tudful.

- Gwasanaethau Llinell AIDS Powys

Darparu cymorth i bobl â HIV a darparu addysg a hyfforddiant.

- Nyrsys iechyd rhywiol

Dwy nyrs ran-amser yn cyflenwi gwybodaeth a chyngor i helpu pobl ifanc sy'n agored i niwed.

- Ymddiriedolaeth Terrence Higgins Cymru

Mae Ymddiriedolaeth Terrence Higgins Cymru yn darparu gwasanaethau a gwasanaethau cymorth i bobl sy'n byw gyda HIV. Mae ganddi ganolfannau yng Nghaerdydd ac Abertawe.

- Prosiect Lydia

Wedi'i seilio yng Nghaergybi, mae'n darparu clinig i bobl ifanc ynghyd â gweithgareddau addysgol.

- Prosiect Pobl Ifanc Gorllewin y Rhyl

Yn darparu gwybodaeth am iechyd a chyngor am iechyd rhywiol, a chondomau am ddim.

- Cynlluniau dosbarthu condomau

Mae nifer o gynlluniau dosbarthu condomau yn gweithredu ar draws Cymru. Mae'r cynlluniau hyn yn darparu gwybodaeth a chyngor ynghyd â chondomau am ddim i bobl ifanc. Maent yn gweithredu ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynnon Taf, Abertawe, Tor-faen a Wrecsam. Mae rhai ardaloedd eraill yn ystyried neu'n datblygu cynlluniau ar hyn o bryd.

**Prosiectau addysg rhyw a pherthnasoedd**

Dylid nodi bod addysg rhyw a pherthnasoedd yn cael ei chyflenwi mewn amrywiaeth o sefydliadau ar draws Cymru yn cynnwys ysgolion, sefydliadau ieuenctid ac fel rhan o fentrau megis Cychwyn Cadarn. Mae'r dull cyflwyno yn amrywio ar draws Cymru a byddai angen ceisio gwybodaeth yn lleol i gael y darlun yn llawn. Rhestrir enghreifftiau o brosiectau isod.

- Project Jiwis

Prosiect addysg rhyw a pherthnasoedd i bobl ifanc sy'n agored i niwed, wedi'i seilio yn y gymuned, a gyflwynir ar draws y Gogledd ac sy'n cael ei ariannu gan y BILlau yn y Gogledd.

- RUBY

Prosiect addysg rhyw a pherthnasoedd i fenywod ifanc ym Merthyr Tudful.

- Mamau Ifanc Caerffili

Mamau ifanc yn cyflwyno gweithdai addysgol i bobl ifanc eraill.

- Teenage Mams

Prosiect yn Rhondda Cynon Taf i gefnogi mamau ifanc a datblygu eu sgiliau.

- A PAUSE

Rhaglen addysg rhyw a pherthnasoedd wedi'i seilio mewn ysgolion, o dan arweiniad cyfoedion, ym Mhowys.

- Doliau manicin magu plant

Addysg rhyw a pherthnasoedd mewn ysgolion ym Mlaenau Gwent, Bro Morgannwg a Sir Ddinbych lle defnyddir boliau empathi a doliau manicin babanod yn crio.

- Sexpressions

Mae myfyrwyr meddygol Caerdydd yn cyflwyno sesiynau rhyngweithiol ar atal cenhedlu a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol mewn ysgolion yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

### Y Ddarpariaeth Ysbytai yn Aberpennar

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth ysbytai yn Aberpennar? (WAQ42038)

**Nick Bourne:** Beth yw statws yr ysbyty newydd arfaethedig ar gyfer Aberpennar? (WAQ42039)

**Brian Gibbons:** Ar hyn o bryd mae gan Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg gyfleuster ysbyty bach 35 gwely yn Aberpennar. Mae cynlluniau i ddisodli'r ysbyty hwn wedi'u cynnwys yn yr achos busnes, ‘Development of Healthcare Services in the Cynon Valley’.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg a Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf wedi cyflwyno cynigion i ddisodli ysbytai presennol Aberdâr ac Aberpennar ag ysbyty newydd yn Aberpennar, a fydd yn cynnwys canolfan adnoddau gofal sylfaenol. Mae'r cynllun hwn—a elwir yn Ddatblygu Gwasanaethau Gofal Iechyd yng Nghwm Cynon—hefyd yn cynnwys cynlluniau ar gyfer canolfan adnoddau gofal sylfaenol ar ei phen ei hun yn Aberdâr.

Cymeradwyodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yr achos busnes amlinellol ym mis Medi 2004. Yr ydym yn disgwyl am yr achos busnes terfynol ar hyn o bryd.

## Y Strategaeth Therapïau

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y bydd y strategaeth therapïau yn cael ei chyhoeddi? (WAQ42040)

**Brian Gibbons:** Mae'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth therapïau bron iawn â dod i ben ac, ar yr amod y caiff gymeradwyaeth y bwrdd a'r Gweinidogion, bydd yn cael ei chyhoeddi yn gynnar yn yr haf.

**Adolygu’r Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw ystyriaeth y mae wedi ei rhoi i adolygu’r gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau arferol yng Nghymru gyfan? (WAQ42041)

**Brian Gibbons:** Yr ydym wedi cyhoeddi safonau ansawdd y dylai'r BILlau a'u darparwyr gwasanaethau fod yn eu cyrraedd. Yr ydym wedi darparu cyllid digonol i'r BILlau i gomisiynu'r gwasanaethau hyn. Byddwn yn parhau i fonitro'r gwasanaethau hyn. Byddir yn ymchwilio'n drylwyr i unrhyw broblemau mewn achosion unigol. Ar hyn o bryd nid oes cynlluniau i adolygu'r gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau drwyddynt draw.

**Llwyddiant/Methiant y Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau yn y Canolbarth a’r Gorllewin**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar lwyddiant/methiant y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau arferol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru? (WAQ42042)

**Brian Gibbons:** Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y gwasanaethau y tu allan i oriau yn y Canolbarth a'r Gorllewin. Byddir yn ymchwilio'n drylwyr i unrhyw broblemau mewn achosion unigol gyda golwg ar wella ansawdd y gwasanaeth.

**Y Gwasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau yn y Canolbarth a’r Gorllewin**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sut y gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru roi cyhoeddusrwydd i’r gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau arferol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru? (WAQ42043)

**Brian Gibbons:** Y canllawiau clir a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fyrddau iechyd lleol ar draws Cymru oedd y dylid cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd yn lleol. Diben hyn oedd sicrhau bod y wybodaeth a gâi ei darparu mor berthnasol â phosibl. Cefnogwyd y byrddau iechyd lleol drwy gynhyrchu fframweithiau cyffredin yr oedd modd eu defnyddio i sicrhau y byddai cyhoeddusrwydd lleol yn rhoi sylw i faterion arbennig. Ymysg y dulliau a ddefnyddiwyd gan y byrddau iechyd lleol yr oedd cylchlythyron, posteri a chyfweliadau radio.

**Rhoi Cyhoeddusrwydd i Wasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei wario ar roi cyhoeddusrwydd i’r gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau arferol (a) yng Nghymru gyfan a (b) yng nghanolbarth a gorllewin Cymru? (WAQ42044)

**Brian Gibbons:** Trosglwyddwyd arian ar gyfer pob agwedd o gyflenwi'r gwasanaethau newydd y tu allan i oriau i'r byrddau iechyd lleol. Mater i bob BILl wedyn oedd penderfynu faint yr oedd yn ei ddyrannu i bob agwedd o'r gwasanaethau newydd.

**Brechu Pobl Ifanc a Myfyrwyr rhag Clwy’r Pennau**

**Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi Llywodraeth y Cynulliad ar frechu pobl ifanc a myfyrwyr rhag clwy’r pennau? (WAQ42062)

**Brian Gibbons:** Mae'n hanfodol bwysig fod pob person ifanc yn cael ei ddiogelu rhag clwy'r pennau a'r ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy'r brechlyn cyfun ar gyfer y frech goch, clwy'r pennau a rwbela.

Mae'r rhaglen frechu reolaidd yn sicrhau bod pob plentyn yn cael cynnig dau ddos o MMR, un a roddir yn fuan ar ôl eu pen-blwydd cyntaf a phigiad atgyfnerthol a roddir cyn iddynt ddechrau'r ysgol. Fodd

bynnag, gan fod modd rhoi'r brechlyn MMR i blant a phobl ifanc o unrhyw oed, byddem yn annog y rhai nad ydynt wedi cael y ddau ddos a argymhellir o MMR i gael eu himiwneiddio cyn gynted â phosibl.

Mae nifer y digwyddiadau o glwy'r pennau a gofnodir wedi bod ar gynnydd dros y blynyddoedd diwethaf ac mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion y mae'r achosion wedi bod yn fwyaf cyffredin. Yr ydym yn gweithio gyda'r byrddau iechyd lleol i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael ag achosion o'r fath yn effeithlon ac effeithiol pa le bynnag yng Nghymru y maent yn digwydd.

### Cyfarwyddeb yr UE ar Wasanaethau yn y Farchnad Fewnol

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi datganiad ar gyfraniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r gyfarwyddeb ar wasanaethau yn y farchnad fewnol, a hynny mewn perthynas â gweithwyr iechyd proffesiynol? (WAQ42070)

**Nick Bourne:** Beth yw polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â chyfarwyddeb yr UE ar wasanaethau yn y farchnad fewnol? (WAQ42071)

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno i Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r agwedd negodi o ran cyfarwyddeb yr UE ar wasanaethau yn y farchnad fewnol? (WAQ42072)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn llwyr gefnogi cymeradwyaeth gref Llywodraeth y DU i gynnig y dylai'r UE sefydlu cyfarwyddeb ar wasanaethau yn y farchnad fewnol, er mwyn y budd a ddaw yn ei sgîl i weithrediad sector o'r economi Ewropeaidd sydd i gyfrif am ddwy ran o dair yn fras o gynnyrch mewnwladol crynswth Ewrop.

Fodd bynnag, gan gyfeirio'n benodol at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, mae'r Cynulliad wedi cynnal cysylltiad agos â'r Adran Iechyd, sydd yn bennaf gyfrifol am faterion CE sy'n effeithio ar ofal iechyd, ynghylch effeithiau cyfarwyddeb ddrafft yr UE ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn cynnwys yr effaith ar weithwyr iechyd proffesiynol.

Mae rhesymau arwyddocaol pam na fyddem am i'n cyfundrefn gofal iechyd gwladol, a ariennir yn gyhoeddus, ddod o fewn cwmpas y gyfarwyddeb arfaethedig. Yr ydym felly wedi cytuno â'r safiad cryf y mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Llywodraeth y DU yn ei gymryd, ac yn ei gefnogi'n llwyr, sef y dylai gofal iechyd a ariennir yn gyhoeddus gael ei dynnu allan o'r gyfarwyddeb, ac y dylai amcanion polisi cyhoeddus pwysig, er enghraifft diogelwch cleifion, gael eu gwarchod yn y sectorau gofal iechyd preifat a gofal cymdeithasol.

Deallaf nad yw cynnwys gofal iechyd o fewn y gyfarwyddeb ar wasanaethau yn cael ei gefnogi ychwaith gan aelod wladwriaethau eraill. Yr wyf yn obeithiol felly y caiff ein gwasanaethau gofal iechyd a ariennir yn gyhoeddus eu hepgor, a fyddai hefyd yn golygu na fyddai'r gyfarwyddeb yn cwmpasu gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau i'r GIG.

### Diffygion Cyllido mewn Setliadau Ariannol

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y diffygion cyllido yn y setliadau ariannol ar gyfer ymddiriedolaethau ysbytai ledled Cymru? (WAQ42073)

**Nick Bourne:** Sut y mae'r Gweinidog yn rhagweld y bydd ymddiriedolaethau ysbytai yng Nghymru yn gwneud iawn am y diffygion cyllido yn y setliad ariannol ar gyfer y flwyddyn gyfredol? (WAQ42074)

**Brian Gibbons:** Cytundeb blynyddol rhwng y byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar lefel y cynnydd disgwyliedig mewn costau llinell sylfaen yn y GIG yw'r cytundeb cyllid cenedlaethol. Defnyddir y cytundeb fel sail i'r dyraniadau blynyddol i'r byrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru, ac wedyn fel sail i broses flynyddol y fframwaith gwasanaeth a chyllid yn y GIG. Mae'n sicrhau cysondeb ar draws y GIG o ran ariannu chwyddiant ar gyflogau a phrisiau. Seilir

y cytundeb ar amcangyfrifon a chyfartaledd ydyw i Gymru gyfan. Bydd effaith benodol pob un o elfennau'r cytundeb yn amrywio rhwng gwahanol gyrff GIG.

Mae'r cytundeb ar gyfer 2005-06 yn amcangyfrif y bydd costau llinell sylfaen ysbytai a gwasanaethau cymunedol yn cynyddu 8.79 y cant yn 2005-06. Yn erbyn hyn, mae'r Cynulliad wedi darparu cyllid o 5.48 y cant, yn cynnwys 2.83 y cant yn fras i ariannu contract newydd yr ymgynghorwyr a'r Agenda ar gyfer Newid yn llawn. Mae hyn yn golygu bwlch cyllido o 3.31 ar gyfartaledd.

Mae'r codiadau o ran costau sydd wedi eu cydnabod yn y cytundeb yn cynnwys chwyddiant ar gyflogau ac fel arall, pwysau statudol a phwysau polisi, cynnydd yng nghostau gofal parhaus, cynnydd mewn cyffuriau drud ac effaith blwyddyn olaf y newidiadau i gontractau meddygon iau. O ran elfennau ar wahân i gyflogau, mae'r Cynulliad yn disgwyl i bob ymddiriedolaeth GIG wneud arbedion sy'n rhyddhau arian drwy wella'r arferion caffael nes bod y codiadau hyn wedi eu clirio. Mae'r Cynulliad hefyd yn disgwyl i'r cynnydd yng nghostau gofal parhaus gael ei reoli drwy gydweithrediad agosach rhwng byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG yng nghyswllt darparu'r gwasanaethau hyn. Bydd angen i bwysau eraill o ran costau gael eu rheoli mewn cymunedau iechyd lleol drwy broses y fframwaith gwasanaeth ac ariannol. Mae'r fframweithiau gwasanaeth ac ariannol yn cael eu hadolygu gan swyddfeydd rhanbarthol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac maent i fod i gael eu cymeradwyo'n derfynol o fewn y mis nesaf.

### Diffygion Cyllido yn ystod y Flwyddyn Ariannol Gyfredol

**Nick Bourne:** Pa oblygiadau iechyd fydd i bobl Cymru yn sgîl y diffygion cyllido ar gyfer ymddiriedolaethau ysbytai yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol? (WAQ42075)

**Brian Gibbons:** Yr wyf yn disgwyl i gynlluniau gwasanaeth ac ariannol 2005-06 gael eu datblygu heb unrhyw oblygiadau iechyd andwyol i bobl Cymru. Disgwylir i'r arbedion glirio'r cynnydd mewn costau llinell sylfaen gael eu cyflawni drwy fwy o gydweithredu rhwng cyrff GIG a gwell ffyrdd o weithio. Caiff y cynlluniau gwasanaeth ac ariannol eu hadolygu gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sicrhau nad oes goblygiadau iechyd andwyol.

### Y Setliad Ariannol i Ymddiriedolaethau Ysbytai

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi unrhyw ohebiaeth a ddaeth i law, ers mis Hydref 2004, oddi wrth y byrddau iechyd lleol yn ymwneud â’r setliad ariannol i ymddiriedolaethau ysbytai ledled Cymru? (WAQ42076)

**Brian Gibbons:** Byddaf yn ystyried eich cais a chaiff ateb ei anfon atoch maes o law.

### Deintyddion

**Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o ddeintyddion y gwasanaeth deintyddol cyffredinol a’r rhai sy’n darparu gwasanaethau deintyddol personol sydd wedi cael eu cyflogi o fewn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn ôl 10,000 y boblogaeth yn ystod 2002, 2003 a 2004? (WAQ42078) [W]

**Brian Gibbons:** Mae’r tabl atodedig yn dangos nifer deintyddion y gwasanaethau deintyddol cyffredinol yn ôl 100,000 y boblogaeth. Yn ogystal, roedd 3 deintydd gwasanaethau deintyddol personol ar 30 Medi 2004. Nid yw’r data sy’n dangos yn ôl 10,000 y boblogaeth wedi’i gasglu.

**Deintyddion GDS (1) yn ôl 100,000 y boblogaeth**

| | |
|---|---|
| 2002 | 34.7 |
| 2003 | 34.6 |
| 2004 (2) | 34.9 |

(1) Yn cynnwys penaethiaid, cynorthwywyr a hyfforddeion galwedigaethol ar 30 Medi.
(2) Defnyddiwyd amcangyfrif o boblogaeth canol blwyddyn 2003 i gyfrifo'r gyfradd.

**Cynllun yr Ail Gynnig**

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch nifer y cleifion sydd wedi'u cyfeirio am driniaeth fel rhan o gynllun yr ail gynnig ond sydd heb ei derbyn, ac a wnaiff nodi pam na roddwyd y driniaeth? (WAQ42079)

**Brian Gibbons:** Rhwng mis Ebrill 2004 a mis Ionawr 2005, o'r 18,412 o gleifion oedd yn rhan o gynllun yr ail gynnig, derbyniodd 1,472 o gleifion ail gynnig ond barnwyd wedyn nad oeddynt yn gymwys i gael triniaeth. Rhesymau clinigol yw'r rhesymau dros farnu bod cleifion yn anghymwys ar ôl i ail gynnig gael ei wneud. Fel arfer mae'r cleifion yn cael eu hasesu yn y cyfnod hwn gan y darparwr sy'n eu derbyn, a gall gynnwys cleifion y canfuwyd bod ganddynt haint neu gleifion lle gwelir bod y driniaeth yn fwy cymhleth nag a dybiwyd yn wreiddiol.

**Gwasanaethau Ambiwlans**

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog egluro a fydd unrhyw ran o'r £32 miliwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer gwasanaethau iechyd yn cael ei neilltuo i wasanaethau ambiwlans? (WAQ42080)

**Brian Gibbons:** Buddsoddiad i'r Ymddiriedolaethau i gyrraedd targedau amseroedd aros y fframwaith gwasanaeth ac ariannol ar gyfer 2005-06 yw'r buddsoddiad o £32 miliwn y cyfeiriwch ato.

**Tâl Croesawu i Ddeintyddion**

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog egluro'r canllawiau ynghylch rhoi 'tâl croesawu' i ddeintyddion i weithio yng Nghymru, ac a wnaiff ddatganiad ar sut y caiff y cynllun hwn ei hyrwyddo? (WAQ42082)

**Brian Gibbons:** Mae menter ddeintyddol Cymru yn cynnig cymhellion ariannol i ddeintyddion sy'n barod i agor practisiau newydd neu ehangu practisiau sy'n bodoli'n barod gan ddarparu gwasanaethau deintyddol ar ran y GIG yng Nghymru. Mae'r grantiau'n ddarostyngedig i delerau ac amodau caeth sy'n golygu bod yn rhaid i bractis ddarparu gwasanaethau GIG am gyfnod penodedig, hyd at 5 mlynedd fel arfer. Os yw'r deintyddion yn dewis rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau GIG tra'u bod yn cael grant mae'n ofynnol iddynt ad-dalu'r grant ar lefel gyfrannol.

Mae'r fenter hefyd yn cynnwys elfen i ddarparu grantiau i sefydlu practisiau hyfforddiant galwedigaethol er mwyn denu hyfforddeion galwedigaethol.

Caiff y fenter ei hyrwyddo gan y byrddau iechyd lleol, pwyllgorau deintyddol lleol, y Ganolfan Addysg Ddeintyddol Ôl-radd ym Mhrifysgol Cymru a chaiff ei hysbysu o dro i dro mewn cylchgronau deintyddol proffesiynol cenedlaethol.

**Gwasanaethau Ambiwlans yn Ne Powys**

**Helen Mary Jones:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gynyddu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau ambiwlans yn ne Powys? (WAQ42084)

**Helen Mary Jones:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ehangu'r gwasanaeth ambiwlans 24 awr yn ne Powys? (WAQ42085)

**Brian Gibbons:** Mater i Gomisiwn Iechyd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yw pennu'r blaenoriaethau o ran ariannu'r gwasanaeth ambiwlans brys yn ardaloedd y byrddau iechyd lleol.

## Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi'r manylion ynghylch sefyllfa ariannol pob un o ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru? (WAQ42086)

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi'r manylion ynghylch diffygion ariannol pob un o ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru? (WAQ42087)

**Brian Gibbons:** Mae'r gwarged/(diffyg) a ragwelir ar gyfer ymddiriedolaethau yn 2004-05 (yn unol â rhagolygon diwedd mis Ionawr 2005) wedi eu nodi fesul ymddiriedolaeth unigol isod:

| | **£ M** |
|---|---|
| Caerdydd a'r Fro | (2.1) |
| Gofal Iechyd Gwent | (0.5) |
| Sir Gaerfyrddin | (4.5) |
| Ceredigion | (0.5) |
| Sir Benfro a Derwen | (2.4) |
| Bro Morgannwg | 0.0 |
| Abertawe | 0.0 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 0.0 |
| Gogledd-ddwyrain Cymru | 0.0 |
| Gogledd Morgannwg | 0.0 |
| Gogledd-orllewin Cymru | 0.3 |
| Pontypridd a Rhondda | 0.4 |
| Felindre | 1.5 |
| Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru | 0.1 |
| **Cyffredinol** | **(7.7)** |

Fel a welir o'r tabl uchod, y sefyllfa o ran 2004-05 yw diffyg drwyddo draw o £7.7 miliwn (£9.7 miliwn yn 2003-04). Yn nhermau Ymddiriedolaethau unigol, mae pum Ymddiriedolaeth yn rhagweld diffygion (ffigurau mewn cromfachau), pum Ymddiriedolaethau yn rhagweld y byddant yn mantoli'r gyllideb a phedair Ymddiriedolaeth yn rhagweld gwargedau.

Mae gan yr ymddiriedolaethau sydd â diffygion gynlluniau newid strategol ac effeithlonrwydd erbyn hyn sy'n nodi sut y bydd y diffygion sydd wedi cronni (£37.1m yn 2003-04) a'r diffygion y cytunwyd arnynt ar gyfer 2004-05 yn cael eu hadennill yn y dyfodol.

## Dyfarniadau Cyflog Ymddiriedolaethau'r GIG

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog egluro o ba adnodd y bydd ymddiriedolaethau'r GIG yn ariannu'r dyfarniadau cyflog sydd yn yr arfaeth? (WAQ42088)

**Brian Gibbons:** Mae arian wedi cael ei ddyrannu i'r BILlau drwy lythyr dyfarnu 2005-06 ar gyfer contract yr ymgynghorwyr a'r Agenda ar gyfer Newid. Mae'r arian ar gyfer elfen sesiynau ychwanegol contract yr ymgynghorwyr yn dal i gael ei reoli'n ganolog o fewn y cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol yn 2005-06. Caiff arian ei ryddhau i'r gwasanaeth unwaith y bydd y broses archwilio wedi cael ei chwblhau a'i llofnodi gan y Cynulliad.

## Cyllid ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gyhoeddwyd yn Ddiweddar

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog egluro sut a phryd yn union y bwriedir gwario'r £32 miliwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer gwasanaethau iechyd, gan nodi a yw'n gyllid sydd wedi'i neilltuo ac a yw'n gyllid rheolaidd? (WAQ42089)

**Brian Gibbons:** Mae'r dyraniad o £32 miliwn (nad yw'n gyllid rheolaidd) wedi ei glustnodi'n benodol i sicrhau gostyngiadau pellach mewn amseroedd aros yng Nghymru yn unol â'r targedau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Caiff ei ddyrannu o 1 Ebrill 2005 i brosiectau penodol yn cynnwys y cynllun Ail Gynnig, a chaiff ei seilio ar y gweithredu o fewn y fframweithiau gwasanaeth ac ariannol blynyddol sy'n cael eu paratoi ar hyn o bryd.

### Cynllun yr Ail Gynnig

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog egluro a fydd y cleifion sydd wedi'u cyfeirio am driniaeth fel rhan o gynllun yr ail gynnig, ac sydd heb gael triniaeth, yn aros ar y rhestr aros ac yn destun targedau amseroedd aros? (WAQ42090)

**Brian Gibbons:** Dim ond pan fyddant wedi cael eu trin, eu hatal am resymau clinigol neu eu gohirio y mae cleifion yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr aros. Bydd unrhyw glaf sydd wedi cael ei gyfeirio am driniaeth a'i dderbyn ond y bernir wedyn ei fod yn anghymwys yn aros ar y rhestr aros a bydd yn ddarostyngedig i dargedau amseroedd aros ei Ymddiriedolaeth ei hun.

### Yr Ymddiriedolaeth Ambiwlans

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch sefyllfa ariannol yr ymddiriedolaeth ambiwlans, gan nodi unrhyw danwariant yn ystod y blynyddoedd ariannol cyfredol a blaenorol? (WAQ42091)

**Brian Gibbons:** Bedair blynedd yn ôl bu'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth gael ei hadfer yn ariannol a chafodd fenthyciad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Y llynedd, talodd yr Ymddiriedolaeth £1m yn ôl i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ym mlwyddyn 2004-05 bydd yr Ymddiriedolaeth yn talu £111,000 pellach yn ôl a disgwylir y gweddill erbyn 2005-06. Ni ddisgwylir unrhyw danwariant.

### Y Contract Deintyddol Newydd

**Jonathan Morgan:** Pryd oedd y tro diwethaf i'r Gweinidog drafod y contract deintyddol newydd â Llywodraeth y DU? (WAQ42092)

**Brian Gibbons:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau am y contract deintyddol newydd gyda'm cyd-Weinidogion yn San Steffan. Fodd bynnag, bu'r swyddogion yn rhan o'r trafodaethau rhwng yr Adran Iechyd a Chymdeithas Ddeintyddol Prydain o'r cychwyn. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd hefyd rhwng swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a Chymdeithas Ddeintyddol Prydain yng Nghymru.

Cyfarfûm â Chymdeithas Ddeintyddol Prydain yng Nghymru ar 3 Mawrth. Yr oedd yn gyfarfod buddiol a oedd yn cynnwys, ymysg materion eraill, drafodaeth am y trefniadau contractyddol yng Nghymru.

### Y Contract Deintyddol Newydd

**Jonathan Morgan:** Beth yw dyddiad cyflwyno'r contract deintyddol newydd? (WAQ42093)

**Brian Gibbons:** Yr ydym wedi dweud o'r blaen y byddwn yn dilyn yr un amserlen â Lloegr i ddiwygio'r gwasanaeth deintyddol. Er mai ar gyfer mis Hydref 2005 y bwriadwyd y newidiadau mae'r Adran Iechyd wedi cyhoeddi na fydd y contract yn cael ei weithredu'n llawn tan fis Ebrill 2006.

Gan fod y trafodaethau rhwng yr Adran Iechyd a Chymdeithas Ddeintyddol Prydain yn mynd rhagddynt yn arafach na'r disgwyl, yr wyf yn achub ar y cyfle i adolygu sut y dylem ni ymateb yng Nghymru. Gobeithiaf wneud datganiad ar y ffordd ymlaen yng Nghymru cyn gynted â phosibl.

**Yr Agenda ar gyfer Newid**

**Glyn Davies:** Yn ychwanegol at WAQ41764, pa swm sydd wedi'i ddyrannu i bob un o ymddiriedolaethau'r GIG ar gyfer gweithredu'r agenda ar gyfer newid? (WAQ42099)

**Brian Gibbons:** Mae dyraniadau'r Agenda ar gyfer Newid i bob Ymddiriedolaeth unigol fel a ganlyn:

| | **Dyraniad (£)** |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg | 3,735,635 |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | 7,071,722 |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin | 1,886,685 |
| Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion | 668,205 |
| Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych | 3,095,010 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | 6,459,771 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru | 2,801,099 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru | 2,801,643 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg | 1,674,672 |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen | 1,876,096 |
| Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda | 2,362,541 |
| Powys | 1,199,566 |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 916,738 |
| Abertawe | 4,247,894 |
| Ambiwlans | 12,516,000 |
| BILlau | 256,283 |

**Yr Agenda ar gyfer Newid**

**Glyn Davies:** Yn ychwanegol at WAQ41763, pa ddyddiad y mae pob un o ymddiriedolaethau'r GIG wedi'i roi ar gyfer gweithredu'r agenda ar gyfer newid? (WAQ42100)

**Brian Gibbons:** Mae'r agenda ar gyfer newid yn datgan

y dylid anelu at fod wedi paru'r rhan fwyaf o'r staff â'u bandiau cyfog newydd erbyn 31 Mawrth 2005 ac y dylai'r broses cymhathu staff gael ei chwblhau ddim hwyrach na diwedd mis Medi 2005.

Dyma nod ymddiriedolaethau Cymru o hyd, er ei fod yn darged anodd iawn.

I sicrhau bod yr ymddiriedolaethau yn cwblhau'r broses gymhathu mor agos â phosibl at ddyddiad targed diwedd mis Medi, mae aelodau'r uned moderneiddio tâl yn ymweld â'r holl gyrff dros yr ychydig wythnosau nesaf i asesu eu cynnydd hyd yma ac i nodi unrhyw oedi posibl y gellir rhoi sylw iddo wedyn.

**Ansawdd y Gofal ar gyfer Pobl sy'n Dioddef gan Asthma**

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau sy'n cael eu cymryd i wella ansawdd y gofal ar gyfer pobl sy'n dioddef gan asthma er mwyn eu galluogi i fyw eu bywydau heb gael symptomau na phyliau? (WAQ42103)

**Brian Gibbons:** Mae strategaeth iechyd anadlol i Gymru, sy'n cynnwys asthma, yn cael ei datblygu ar hyn o bryd fel un o'r llu o elfennau ar ein hagenda i reoli clefydau cronig. Gofynnwyd i grwp gorchwyl a gorffen roi sylw i'r ystod lawn o glefydau anadlu er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd strategol, sydd wedi'i flaenoriaethu'n briodol.

Mae cynllun cynaliadwy ac integredig tymor hir i roi sylw i reoli clefydau cronig yn hanfodol. Mae'r cynigion cyfredol felly wedi'u seilio ar drefn integredig a chyfannol, ac yn defnyddio llwybrau clinigol a hunanreolaeth i sicrhau bod anghenion cleifion yn cael eu diwallu yn y ffordd fwyaf priodol.

### Y Defnydd o Co-proxamol yn y GIG yng Nghymru

**David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y defnydd o co-proxamol yn y GIG yng Nghymru? (WAQ42113)

**Brian Gibbons:** Meddyginiaeth ar bresgripsiwn yn unig yw co-proxamol a ddefnyddir i drin poen ysgafn i ganolig. Mae'n cynnwys cyfuniad o paracetamol a phoenladdwr arall o'r enw dextropropoxyphene. Mae grwp meddyginiaethau Cymru gyfan eisoes wedi argymell, ym mis Mehefin 2004, y dylid gostwng lefel y presgripsiynau o'r cyffur hwn yn sylweddol oherwydd ei sgîl-effeithiau. Yn dilyn cyngor y Pwyllgor ar Ddiogelwch Meddyginiaethau y dylai co-proxamol gael ei dynnu oddi ar y farchnad, adolygodd AWMSG y cyngor hwn i ostwng nifer y presgripsiynau am co-proxamol yng Nghymru i ddim o fewn chwech i 12 mis.

### Co-proxamol

**David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ystyried defnyddio co-proxamol ar gyfer cleifion nad ydynt yn gallu dod o hyd i boenladdwr addas arall? (WAQ42114)

**Brian Gibbons:** Mae'r Pwyllgor ar Ddiogelwch Meddyginiaethau wedi cynghori y dylai co-proxamol gael ei dynnu oddi ar y farchnad, oherwydd pryderon am ei ddiogelwch. Mae'r Pwyllgor ar Ddiogelwch Meddyginiaethau yn gorff i'r DU gyfan ac felly mae'r penderfyniad hwn yn gymwys yng Nghymru hefyd. Nid yw'n fater sydd wedi cael ei ddatganoli.

### Hepatoleg

**Nick Bourne:** Faint o hepatolegwyr ymroddedig sydd yng Nghymru? (WAQ42117)

**Nick Bourne:** A oes unrhyw swyddi gwag ym maes hepatoleg yng Nghymru ar hyn o bryd? (WAQ42118)

**Brian Gibbons:** Nid yw data am hepatolegwyr yn cael ei gasglu fel arbenigedd ar wahân gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ond yn cael ei gynnwys gyda'r holl ddata meddygaeth gyffredinol ar y cyfrifiad meddygol a deintyddol. Mae fy swyddogion yn gwybod am un hepatolegydd a gyflogir i'r diben hwnnw yn unig yn GIG Cymru ar hyn o bryd.

### Y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Afu

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfraniad Cymru i'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau afu'r DU, ac yn benodol ar ba mor hir y mae'r cynllun yn para a'r amserlen ar gyfer gweithredu argymhellion y cynllun? (WAQ42119)

**Brian Gibbons:** Mae Cymdeithas Prydain dros Astudio'r Afu, grwp proffesiynol, wedi llunio papur sefyllfa ar wasanaethau afu, sydd wedi cael ei gylchredeg yn eang yn y DU. Bydd Comisiwn Iechyd Cymru yn ystyried y wybodaeth a'r cyngor fel rhan o'r gwaith o ddatblygu strategaeth i Gymru.

### Pobl sy'n Dioddef gan Glefyd yr Afu

**Nick Bourne:** Pa ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer pobl sy'n dioddef gan glefyd yr afu yn y Canolbarth a'r Gorllewin? (WAQ42120)

**Nick Bourne:** Pa ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer pobl sy'n dioddef gan glefyd yr afu yn y Gogledd? (WAQ42121)

**Brian Gibbons:** Caiff cleifion sydd â clefyd yr afu eu trin yn bennaf gan gastroenterolegwyr ar draws Cymru. Efallai y bydd plant sydd â chlefyd yr afu yn cael gofal wedi'i rannu rhwng pediatregydd a chanolfannau arbenigol, yn cynnwys Ysbyty Plant Birmingham neu Ysbyty King's Collage, Llundain. Caiff y cleifion hynny y mae angen rheolaeth achos gymhleth arnynt neu asesiad ar gyfer trawsblaniad afu eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol yn Lloegr, yn cynnwys Birmingham, Ysbyty King's College, Llundain ac Ysbyty Addenbrooke, Caergrawnt.

Mae Comisiwn Iechyd Cymru yn comisiynu'r gwasanaethau hyn i gleifion o Gymru, yn cynnwys:

- gwasanaethau ar gyfer hepatitis B ac C cronig,
- methiant aciwt yr afu,
- cymhlethdodau sirosis difrifol,
- tyfiannau diniwed a chanseraidd ar yr afu, a chanser system y bustl o fewn a thu allan i'r afu, yn cynnwys y pancreas,
- llawdriniaeth hepatofustlaidd a phancreatig.

Mae Comisiwn Iechyd Cymru hefyd wedi ein hysbysu bod yr angen am strategaeth ar ddatblygu gwasanaethau afu i Gymru wedi cael ei drafod yn ddiweddar. Byddai elfen o'r strategaeth hon yn cynnwys polisi cenedlaethol clir ar hepatitis C ac mae gweithgor wedi cael ei sefydlu i symud hyn yn ei flaen. Bydd Dr Carroll o Gomisiwn Iechyd Cymru a Dr Godkin, gastroenterolegydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru, yn gweithio ynghyd â chlinigwyr allweddol i ddrafftio strategaeth ar ddatblygu'r gwasanaethau afu.

## Y Gweithgor ar Hepatitis C

**Nick Bourne:** Beth yw amcanion y gweithgor mewn perthynas â hepatitis C yng Nghmru? (WAQ42122)

**Nick Bourne:** Beth yw cylch gorchwyl y gweithgor ar hepatitis C yng Nghymru? (WAQ42123)

**Brian Gibbons:** Mae'r cynllun prosiect i'r bwrdd sy'n datblygu'r strategaeth ar hepatitis C i Gymru ar gael ar ffurf ddrafft. Cytunir ar yr amseru, y dulliau a'r cylch gorchwyl yn y cyfarfod sydd i fod i gael ei gynnal ym mis Mai 2005.

## Diabetes

**Nick Bourne:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â diabetes yng Nghymru? (WAQ42147)

**Brian Gibbons:** Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dros 40 o gynlluniau hybu iechyd ar waith mewn ysgolion ac yn y gymuned sy'n rhoi sylw i faterion a fydd yn help i atal diabetes math II. Yn eu mysg mae'r cynllun ysgolion iach, y cynllun bwyd a ffitrwydd, y fenter atal diabetes a nofio am ddim, cynllun sydd wedi cael ei ehangu o fod yn ddarpariaeth i blant yn unig i gynnwys pobl hyn.

Cyhoeddwyd y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer diabetes ym mis Ebrill 2004, ac mae'n gynllun 10 mlynedd sy'n gwneud gofal diabetes yn flaenoriaeth i'r holl BILlau yng Nghymru. Mae pob BILl wedi cyflwyno cynllun gweithredu, gan ddefnyddio adroddiadau'r Comisiwn Archwilio ar wasanaethau diabetes yn lleol i'w cynorthwyo. Mae adroddiadau blynyddol ar y cynnydd a wnaed yn 2004-05 i fod i ddod i law erbyn diwedd mis Mawrth a byddant yn cael eu croesgyfeirio yn erbyn y cynlluniau. Mae'r swyddogion yn y broses o fonitro'r cynnydd.

**Asthma**

**Rhodri Glyn Thomas:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i sicrhau bod y rheini sy’n dioddef gan asthma yng Nghymru yn cael cynnig cynllun asthma personol i’w galluogi i reoli’u symptomau ac i osgoi pyliau asthma sy’n eu gwanychu? (WAQ42176)

**Brian Gibbons:** Mae cynllun tymor hir cynaliadwy ac integredig i ymdrin â rheoli clefydau cronig, megis asthma, yn bwysig, ac mae cynigion cyfredol y Cynulliad wedi'u seilio ar ddull gweithredu integredig a chyfannol, yn defnyddio llwybrau clinigol a hunanreolaeth i sicrhau bod anghenion cleifion yn cael eu diwallu yn y ffordd fwyaf priodol.

Mae symud tuag at hunanreoli pob cyflwr cronig yn ganolog i Her Iechyd Cymru. Mae strategaeth i Gymru ar iechyd anadlu, yn cynnwys asthma, yn cael ei datblygu ar hyn o bryd gan grwp gorchwyl a gorffen y gofynnwyd iddo roi sylw i'r amrywiaeth llawn o glefydau anadlu er mwyn sicrhau defnydd strategol, wedi'i flaenoriaethu'n briodol, o adnoddau. Mae materion yn ymwneud â chynlluniau gofal personol yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

**Adolygiad o’r Ystad Gofal Sylfaenol**

**Lisa Francis:** A yw Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd wedi cynnal adolygiad o’r ystâd gofal sylfaenol ac a gyflwynwyd yr adolygiad gerbron Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ42206)

**Brian Gibbons:** Disgwylir i strategaeth integredig derfynol Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd ar gyfer yr ystâd gofal sylfaenol gael ei chyflwyno yn y dyfodol agos. Deellir bod y ddogfen wedi ei datblygu i raddau helaeth.

**Adolygiad o’r Ystad Gofal Sylfaenol**

**Lisa Francis:** A fydd manylion yr adolygiad o’r ystâd gofal sylfaenol gan Fwrdd Iechyd Lleol Gwynedd yn cael ei gyhoeddi? (WAQ42207)

**Brian Gibbons:** Bydd strategaeth integredig derfynol Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd ar gyfer yr ystâd gofal sylfaenol ar gael i'r cyhoedd. Mae grwpiau rhanddeiliaid wedi cael eu cynnwys mewn gweithdai sy'n ymwneud â chynhyrchu'r ddogfen hon.

**Her Iechyd Cymru**

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o gostau her iechyd Cymru? (WAQ42209)

**Brian Gibbons:** Fel y ffocws cenedlaethol i weithredu er mwyn gwella iechyd a lles yng Nghymru, nid rhaglen ar wahân yw Her Iechyd Cymru ond thema sy'n cwmpasu gweithredu gan sefydliadau ac unigolion ar draws Cymru. Mae llawer o raglenni a mentrau a ariennir ar draws portffolios y Gweinidogion yn cyfrannu at ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Her Iechyd Cymru. Yr unig arian sydd wedi'i neilltuo i Her Iechyd Cymru yw'r arian a ddyrannwyd ar gyfer gweithgarwch marchnata a chyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac i ysgogi gweithredu mewn ymateb i'r her.

O ran yr arian a neilltuwyd i weithgarwch marchnata, gallaf ddweud bod cyllideb o £695,000 wedi'i gosod yn 2004-05. Dyma'r elfennau o fewn hynny:

- Hysbysebu ar y teledu a'r radio £224,000
- Hysbysebu yn y wasg a'r awyr agored £212,000
- Ymchwil a gwerthuso £35,000
- Cefnogi gweithredu a digwyddiadau cenedlaethol a lleol £224,000

Yn dilyn yr adolygiad o wariant, cyhoeddasom y byddai £37 miliwn ychwanegol yn cael ei fuddsoddi ym mlynyddoedd 2006-07 a 2007-08, ar draws meysydd polisi, i gefnogi rhagor o weithredu sy'n cyfrannu tuag at nodau Her Iechyd Cymru o atal afiechyd. Bydd yr arian, sy'n rhan o ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r her, yn ehangu cwmpas rhai rhaglenni ac yn golygu bod modd treialu dulliau gweithredu newydd. Cyhoeddir manylion pellach am y gweithredu maes o law.

### Y Contract Fferylliaeth Newydd

**Kirsty Williams:** Pa achrediad y bydd ar fferyllwyr ei angen o dan y contract fferylliaeth newydd i weithredu gwasanaethau uwch megis adolygu’r defnydd o feddyginiaethau? (WAQ42263)

**Brian Gibbons:** Bydd angen achredu fferyllwyr a safleoedd. Bydd yn rhaid i'r fferyllydd a fydd yn cynnal adolygiadau basio asesiad cymhwyster. Mae'r asesiadau yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau addysg uwch ar draws y DU, yn cynnwys Prifysgol Caerdydd, ac maent i gyd yn dderbyniol yng Nghymru. Mae cymwyseddau a enillir yng Nghymru yn dderbyniol yn Lloegr.

Mae'n rhaid i fferyllfa fod wedi cyrraedd y safonau gofynnol i ddarparu gwasanaethau hanfodol a rhaid cael ystafell ymgynghori yn y fferyllfa. Man wedi ei neilltuo yw hwn lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a sgwrsio gan siarad yn naturiol heb i bobl eraill glywed yr hyn sy'n cael ei ddweud, a chaiff ei ddynodi'n glir fel man ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol. Y fferyllfa ei hun sy'n achredu hyn.

### Y System Trosglwyddo Presgripsiynau yn Electronig

**Kirsty Williams:** Pa strategaethau sydd wedi’u sefydlu i drafod y materion trawsffiniol sy’n codi o’r system trosglwyddo presgripsiynau yn electronig? (WAQ42264)

**Brian Gibbons:** Mae agweddau technegol trosglwyddo presgripsiynau yn electronig yn dal i gael eu datblygu, ond mae'n hanfodol fod unrhyw systemau yng Nghymru a Lloegr yn gallu cyfathrebu â'i gilydd.

### Y System Trosglwyddo Presgripsiynau yn Electronig

**Kirsty Williams:** Dan y system trosglwyddo presgripsiynau yn electronig, pwy sy’n penderfynu ble y bydd meddyginiaethau cleifion yn cael eu dosbarthu? (WAQ42265)

**Brian Gibbons:** Y claf sydd â'r gair olaf o ran ble mae meddyginiaethau claf yn cael eu dosbarthu. Byddai'n rhaid talu tâl presgripsiwn Lloegr am bresgripsiynau a ddosberthid yn Lloegr.

### Y System Trosglwyddo Presgripsiynau yn Electronig

**Kirsty Williams:** A neilltuwyd unrhyw gyllid yn arbennig ar gyfer datblygu’r system trosglwyddo presgripisynau yn electronig yng Nghymru? (WAQ42266)

**Brian Gibbons:** Nid oes unrhyw gyllid wedi cael ei neilltuo'n arbennig ar gyfer trosglwyddo presgripsiynau yn electronig. Bydd amlen ariannol y contract, sy'n dod i'w gwedd derfynol ar hyn o bryd, yn cynnwys adnoddau i ateb y gofynion rheoli gwybodaeth a thechnoleg.

### Gwasanaethau Uwch a Manylach

**Kirsty Williams:** Pa amserlen y cytunwyd arni ar gyfer trafod gwasanaethau uwch a manylach fel rhan o’r contract fferylliaeth newydd? (WAQ42267)

**Brian Gibbons:** Gallai fferyllfeydd sy'n darparu'r holl wasanaethau hanfodol craidd ddarparu gwasanaethau uwch o 1 Ebrill 2005, cyhyd â'u bod wedi cael yr achrediad angenrheidiol. Mewn egwyddor, gallent hefyd ddarparu gwasanaethau manylach o'r dyddiad hwn, er y byddai angen i'r rhain gael eu comisiynu gan y BILl ar sail angen lleol.

**Beichiau Gweinyddol yn y GIG**

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar feichiau gweinyddol yn y GIG a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar restrau aros cleifion? (WAQ42268)

**Brian Gibbons:** Mae'r Prif Weinidog a minnau wedi cyhoeddi targedau newydd ar gyfer amseroedd aros yng Nghymru, a fydd yn arwain at gyfnod aros cyfun o ddim mwy na chwe mis erbyn 2009. Yr ydym yn llwyr ddisgwyl i'r targed hwn gael ei gyrraedd.

**Y Gynhadledd Gwasanaethau Iechyd Rhywiol**

**Lisa Francis:** A fydd y Gweinidog neu ei swyddogion yn mynychu'r gynhadledd gwasanaethau iechyd rhywiol yng ngwesty'r Ibis, yn Earls Court ar 19 Ebrill. (WAQ42330)

**Brian Gibbons:** Ni fyddaf fi'n mynychu'r gynhadledd. Mae'r swyddogion yn gwybod am y gynhadledd a byddant yn gallu cael gafael ar ei chasgliadau ond ni fyddant yn bresennol. Bydd Dr Marion Lyons, cyfarwyddwr newydd y prosiect moderneiddio gwasanaethau iechyd rhywiol, yn rhoi cyflwyniad mewn cynhadledd gyffelyb sydd i'w chynnal yng nghanol Llundain ar 24 Mai.

**Peiriannau Gwerthu mewn Ysgolion**

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba asesiadau sydd wedi'u gwneud o'r arweiniad ar beiriannau gwerthu mewn ysgolion a geir yn y ddogfen 'Healthy Living Blueprint for Schools' gan yr Adran Iechyd ac ar ba mor berthnasol yw i ysgolion Cymru? (WAQ52188)

**Brian Gibbons:** I Loegr yn unig y mae'r 'Healthy Living Blueprint for Schools', a gynhyrchwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau, yn berthnasol. Mae'n cyfeirio'n barhaus at bwysigrwydd datblygu ysgolion iach wrth roi cynlluniau ar waith ac yr wyf wrth fy modd fod ein rhaglen ni, rhwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach, eisoes yn cynorthwyo dros hanner holl ysgolion Cymru i ddelio â'r materion a godir yn y glasbrint.

Mae'r glasbrint yn gwneud dau gyfeiriad penodol at beiriannau gwerthu:

1. Cyngor yr Asiantaeth Safonau Bwyd yw na ddylai ysgolion dderbyn peiriannau gwerthu sydd â nodau brand a gysylltir â'r bwydydd, y prydau neu'r byrbrydau hynny sy'n uchel mewn braster, siwgr neu halen (tudalen 15).
2. Mae siopau bwyd a pheiriannau gwerthu yn aml yn ychwanegu at y dewis o fwydydd sydd ar gael i ddisgyblion. Erbyn hyn mae gan lawer o ysgolion beiriannau gwerthu di-frand sy'n cynnig opsiynau iachach megis suddion ffrwythau naturiol, ffrwythau sych, rholiau bara, ffrwythau a llysiau ffres. Mae gan ysgol Dene Magna yn Swydd Gaerloyw beiriant gwerthu gwyrdd sydd wedi newid y diodydd byrlymog am suddion (tudalen 16).

Mae gwaith yng Nghymru wedi mynd i'r afael â'r materion hyn. Yr ydym wedi gweithio gydag Awdurdod leol Sir Benfro i dreialu cynllun peiriannau gwerthu â chynnyrch iach mewn ysgolion uwchradd. Mae pum ysgol uwchradd, sy'n rhan o'r cynllun lleol ysgolion iach, wedi cyflwyno diodydd a bwydydd iach mewn peiriannau gwerthu sydd ar gael drwy gydol y dydd. Mae'r diodydd yn cynnwys llefrith hanner sgim, llefrith ffres â blas wedi'i ychwanegu sydd â llai na 5 y cant o siwgr, suddion ffrwythau pur, trwythau ffrwythau a dwr plaen llonydd neu befriol. Mae'r bwydydd iach yn cynnwys baguettes, brechdanau, potiau salad, iogwrt, ffrwythau (cyfan a salad ffrwythau). Mae'r dystiolaeth o lwyddiant wedi arwain at ddrafftio dogfen ganllaw i ysgolion – 'Think Healthy Vending' – sy'n cael ei pharatoi ar hyn o bryd i'w chyhoeddi.

Yn ogystal, mae dogfen ymgynghori y 'Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth' yn cynnwys y camau gweithredu allweddol a ganlyn:

Mae pob ysgol a gynhelir gan AALl yn rhan o Rwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach, ac yn ystyried gweithredu yn ymwneud â bwyd a ffitrwydd tra'u bod yn rhan o'r cynllun.

Mae gan bob sefydliad lle darperir prydau i blant a phobl ifanc bolisïau i hyrwyddo opsiynau bwyta'n iach (yn cynnwys y cynnyrch mewn peiriannau gwerthu) yn ogystal â'u bod yn hyrwyddo llai ar fyrbrydau sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr a diodydd sy'n uchel mewn siwgr, ac yn darparu llai ohonynt.

Mae'n bosibl y gallai datganiad am frandio, a fyddai'n cynnwys diodydd yn ogystal â bwyd, gael ei ychwanegu yn ystod y newidiadau a wneir yn dilyn yr ymgynghori.

Mae ysgolion yng Nghymru eisoes yn cael eu hannog yn anffurfiol i fanteisio ar gynnig Coca Cola i ddarparu peiriannau di-frand, ac mae'r rhain wedi eu gosod mewn llawer o ysgolion. Maent yn cynnwys dwr a diodydd sudd ffrwythau. Mae'r swyddogion yn deall bod nifer o'r prif ddarparwyr peiriannau gwerthu yn gweithio i wneud newidiadau i'r brandio ar beiriannau gwerthu a'u cynnwys ac y byddant ar gael ar draws y DU maes o law. Mae'r cwestiwn ynglyn â brandio hefyd yn cael ei symud ymlaen gan Asiantaeth Safonau Bwyd y DU fel rhan o waith ehangach ar hyrwyddo bwyd i blant.

Yr wyf yn ymwybodol fod yr Ymddiriedolaeth Addysg Iechyd yn gweithio i roi prawf ar beiriannau a all gynnig amrywiaeth ehangach o ddiodydd di-frand, yn cynnwys llefrith hanner sgim, sudd ffrwythau pur, trwythau ffrwythau, llefrith â blas wedi'i ychwanegu a dwr. Mae'r peiriannau hyn yn cael eu treialu mewn ysgolion uwchradd yn Sir Gaerfyrddin a chanolfannau hamdden yn Sir Benfro ar hyn o bryd, ac mae'r swyddogion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Y Bwriad i Newid Enwau Catrodau Cymreig

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r holl ohebiaeth y mae wedi'i chael, a'r holl ohebiaeth y mae wedi'i hanfon mewn perthynas â'r bwriad i newid enwau catrodau Cymreig? (WAQ41897)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Yr wyf wedi cael un llythyr mewn perthynas â'r bwriad i newid enwau catrodau Cymreig. Cafodd y Prif Weinidog yr un llythyr yn union ac mae ef felly wedi ymateb. Nid wyf fi wedi anfon unrhyw ohebiaeth mewn perthynas â'r mater hwn.

### Adroddiad y Tîm Adolygu Diffoddwyr Tân Wrth Gefn

**Mark Isherwood:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu mabwysiadu canfyddiadau adroddiad y tîm adolygu diffoddwyr tân wrth gefn gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog er mwyn ymdrin â materion sy'n ymwneud ag amddiffyn rhag tân yng Nghymru, megis y prinder diffoddwyr tân wrth gefn, y mae Undeb y Brigadau Tân wedi tynnu sylw ati fel problem arbennig? (WAQ41961)

**Edwina Hart:** Dim ond yn ddiweddar y cafodd adroddiad y tîm adolygu diffoddwyr tân wrth gefn ei gyhoeddi. Mae ein fframwaith cenedlaethol i'r gwasanaeth yng Nghymru, sydd i gael ei gyhoeddi'n fuan, yn ein rhwymo i ystyried y gwaith hwn a gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU, yr awdurdodau tân ac achub a'r gymuned fusnes yng Nghymru i annog recriwtio a chadw ymysg diffoddwyr tân wrth gefn, sy'n rhan mor fawr o'r gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru ac yn cyfrannu cymaint iddynt. Byddwn yn bwrw ymlaen i ystyried y materion hyn yn ystod 2005.

### Nifer y Tai Preifat a Adeiladwyd yng Nghymru

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y tai preifat a adeiladwyd yng Nghymru bob blwyddyn ers 1999? (WAQ42045)

**Edwina Hart:** Dangosir nifer y tai sector preifat y dechreuwyd arnynt bob blwyddyn rhwng 1999 a 2003 (y ffigurau diweddaraf sydd ar gael) yn y tabl isod:

| **Cymru Gyfan: Tai Sector Preifat** | |
|---|---|
| **Blwyddyn** | **Tai Newydd y Dechreuwyd Arnynt** |
| 1999 | 8,435 |
| 2000 | 8,314 |
| 2001 | 8,372 |
| 2002 | 8,866 |
| 2003 | 9,396 |

Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Gwaith Atgyweirio**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y bobl yng Nghymru sy'n aros i awdurdodau lleol drwsio'u tai bob blwyddyn ers 1997? (WAQ42046)

**Edwina Hart:** Mae'r awdurdodau lleol yn dosbarthu gwaith atgyweirio ymatebol i gategorïau argyfwng, brys a dim blaenoriaeth. Mae'r ffigurau sydd ar gael am weithgarwch yn ystod 2003-04 i'w gweld yn y tabl isod:

**Awdurdodau lleol: Cymru: Math o waith atgyweirio ymatebol 2003-04**

| | Gofynnwyd Amdano | Cwblhawyd |
|---|---|---|
| Argyfwng | 165,963 | 145,629 |
| Brys | 150,042 | 132,560 |
| Dim blaenoriaeth | 284,059 | 273,012 |
| Cyfanswm | 600,064 | 551,201 |

Mae gwybodaeth am flynyddoedd cynharach i'w gael yn y Bwletin Ystadegol (SB 17/2004), 'Local Authority Housing: Management and Performance', tabl 24.

**Nifer y Tai yng Nghymru a Ddosbarthwyd fel rhai sy'n Anaddas i Fyw Ynddynt**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y tai yng Nghymru a gafodd eu dosbarthu'n dai sy'n anaddas i fyw ynddynt bob blwyddyn ers 1992? (WAQ42047)

**Edwina Hart:** Caiff lefel y tai sy'n anaddas i fyw ynddynt ei fonitro drwy arolygon cyflwr tai Cymru a gynhelir o dro i dro. Yr oedd yr arolygon mwyaf diweddar yn adrodd ar lefel a chyfradd y tai anaddas yng Nghymru yn 1993 a 1998. Dangosir y ffigurau isod:

**Tai anaddas yng Nghymru (prif gartrefi a rhywun yn byw ynddynt)**

| | Canran o dai anaddas | Nifer amcangyfrifedig o dai anaddas (miloedd) | Cyfanswm y tai yng Nghymru (miloedd) |
|---|---|---|---|
| 1993 | 13.4 | 151.6 | 1,131.7 |
| 1998 | 8.5 | 98.2 | 1,157.3 |

Ffynhonnell: Arolygon cyflwr tai Cymru

Mae gwybodaeth fwy diweddar, am 2004, wedi cael ei chasglu gan arolwg Byw yng Nghymru. Caiff canlyniadau o'r arolwg hwnnw eu cyhoeddi yn haf 2005.

**Safon y Stoc Dai yng Nghymru**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar safon y stoc dai yng Nghymru? (WAQ42048)

**Edwina Hart:** Mae 'Cartrefi Gwell i Bobl Cymru' yn cynnwys ein gweledigaeth o ran tai yn gyffredinol yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu safon ansawdd tai Cymru. Bydd arolwg Byw yng Nghymru wedi ei gwblhau yn fuan a rhydd inni ddarlun cyfoes o gyflwr tai.

**Y Stoc Dai yng Nghymru**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y stoc dai yng Nghymru? (WAQ42049)

**Edwina Hart:** Mae 'Cartrefi Gwell i Bobl Cymru' yn cynnwys ein gweledigaeth o ran tai yn gyffredinol yng Nghymru a'i nod yw cael gwared â thai o safon wael ar draws pob deiliadaeth.

**Pobl sy'n Prynu Tŷ am y Tro Cyntaf yn y Canolbarth a'r Gorllewin**

**Lisa Francis:** Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i helpu'r rhai sydd am brynu tŷ am y tro cyntaf yng nghanolbarth a gorllewin Cymru? (WAQ42050)

**Edwina Hart:** Pobl sy'n prynu am y tro cyntaf yw mwyafrif y rhai sy'n prynu cartrefi drwy'r cynllun cymorth prynu. Yn y pum mlynedd rhwng 1999 a 2004, mae tua 200 o gartrefi wedi cael eu prynu gyda chymorth benthyciadau ecwiti drwy'r cynllun cymorth prynu yn y Canolbarth a'r Gorllewin.

**Pobl sy'n Prynu Tŷ am y Tro Cyntaf**

**Lisa Francis:** Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i helpu'r rhai sydd am brynu tŷ am y tro cyntaf yng Nghymru? (WAQ42051)

**Edwina Hart:** Mae'r cynllun cymorth prynu a'r cynllun cymorth prynu yng nghefn gwlad wedi helpu 756 o aelwydydd i brynu cartref yn y cyfnod 1999 i 2004.

**Mentrau i Helpu Pobl i Brynu Tai Cost Isel**

**Lisa Francis:** Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i sicrhau bod cyllid yn cael ei neilltuo er mwyn medru cynnig mentrau i help bobl i brynu tai cost isel? (WAQ42052)

**Edwina Hart:** Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn gosod targedau canolog ar gyfer tai i'w rhentu neu brynu tai am gost isel. Yr awdurdodau lleol, fel y darparwyr strategol, sy'n gyfrifol am asesu'r angen a'r galw am dai. Gall awdurdodau lleol ddewis faint o'u rhaglen flynyddol o dan y grant tai cymdeithasol i'w dyrannu ar gyfer cymorth prynu, ar sail anghenion a blaenoriaethau lleol.

Er 2001-02, fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu atodiad o £1.5 miliwn y flwyddyn mewn arian cyfatebol, yn benodol i gefnogi'r cynllun cymorth prynu mewn ardaloedd gwledig.

**Nifer y Tai Cyngor a Adeiladwyd yng Nghymru**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y tai cyngor a adeiladwyd yng Nghymru bob blwyddyn er 1992? (WAQ42053)

**Edwina Hart:** Mae nifer y tai cyngor y dechreuwyd eu hadeiladu bob blwyddyn rhwng 1999 a 2003 (y ffigurau diweddaraf sydd ar gael), fel y'u hadroddwyd gan yr awdurdodau lleol, i'w weld yn y tabl isod:

**Cymru Gyfan: Tai Awdurdodau Lleol**

| Blwyddyn | Tai Newydd y Dechreuwyd Arnynt |
|---|---|

| | |
|---|---|
| 1999 | 0 |
| 2000 | 62 |
| 2001 | 60 |
| 2002 | 15 |
| 2003 | 14 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru, datganiadau ystadegol WHO2
Dangosir ffigurau am gyfnodau cynharach yn nhabl 2.1 o'r cyhoeddiad 'Welsh Housing Statistics'. Mae copïau o'r cyhoeddiad hwn ar gael o Lyfrgell yr Aelodau.

**Dulliau Ataliol i fynd i'r afael â Digartrefedd**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddulliau ataliol o fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru? (WAQ42054)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi pwyslais mawr ar atal digartrefedd yn ei strategaeth ddigartrefedd genedlaethol. Yr ydym wedi dangos ein hymrwymiad i'w atal drwy wasanaethau cynghori annibynnol ym maes tai, cynlluniau bond, gwasanaethau cyfryngu, polisïau sensitif i reoli tai, addysg i bobl ifanc, a chyngor ar atal digartrefedd i ffoaduriaid a menywod sy'n cael eu cam-drin yn y cartref. Yr ydym wedi rhoi neges glir i'r awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar atal yn eu gwaith, a bydd y rhaglen grantiau yr wyf wedi ei darparu am y ddwy flynedd nesaf yn annog rhagor o fesurau atal rhagweithiol. Yr ydym yn adolygu ein strategaeth ddigartrefedd genedlaethol, a byddaf yn sicrhau bod y flaenoriaeth uchaf yn dal i gael ei rhoi i atal.

**Sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn rhoi Blaenoriaeth i Ddigartrefedd**

**Lisa Francis:** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol Cymru yn rhoi blaenoriaeth i ddigartrefedd? (WAQ42055)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi ei gwneud yn glir i'r awdurdodau lleol fod angen iddynt roi mwy o flaenoriaeth i fynd i'r afael â digartrefedd. Mae gan yr awdurdodau ddyletswydd statudol i fynd i'r afael â digartrefedd o dan Ddeddf Digartrefedd 2002. Rhaid iddynt adolygu digartrefedd yn eu hardaloedd, a llunio strategaethau i leihau digartrefedd drwy waith atal, mynediad at dai, a gwasanaethau cymorth. Cyflwynasom y ddeddfwriaeth hon mor fuan â phosibl, gan osod 30 Medi 2003 fel y dyddiad pryd yr oedd yn rhaid i'r awdurdodau i gyd gyhoeddi eu strategaethau. Cyflwynasom ganllawiau statudol hefyd ar y dyletswyddau hyn ym mis Ebrill 2003. Ni lwyddodd y rhan fwyaf o awdurdodau i gadw at y dyddiad terfyn, ond mae pob un wedi sefydlu strategaeth erbyn hyn. Yr ydym wedi asesu'r strategaethau hyn, a rhoi cyngor ar sut mae angen eu cryfhau.

Byddaf yn parhau i bwyso ar yr awdurdodau i fynd i'r afael â'r broblem hon fel elfen hanfodol o weithredu cydgysylltiedig i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol ac anfantais.

**Mentrau i fynd i'r afael â Digartrefedd**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fentrau sydd ar y gweill gan Lywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru? (WAQ42056)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi ystod eang o fentrau i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru. Ar hyn o bryd yr ydym yn ariannu dros 100 o brosiectau yng Nghymru drwy ein rhaglen grantiau digartrefedd. Mae'r rhain yn darparu gwasanaethau rheng flaen yn amrywio o gyngor yn ymwneud â thai, cynlluniau bond, gwaith allgymorth gyda phobl ddigartref, gwasanaethau adsefydlu, prosiectau cynghori i bobl ifanc a gwaith addysgol ar ddigartrefedd, i waith atal arbenigol gyda ffoaduriaid, carcharorion a menywod sy'n cael eu cam-drin yn y cartref.

**Y Swm a Wariwyd ar fynd i'r afael â Digartrefedd**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y swm a wariodd Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â digartrefedd bob blwyddyn er 1997? (WAQ42057)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynyddu'r arian y mae'n ei ddarparu i fynd i'r afael â digartrefedd yn sylweddol. Gellir gweld hyn o'r ffigurau isod am y cyfnod tra bu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol. Yr wyf hefyd wedi cyhoeddi £500,000 pellach ar gyfer y naill a'r llall o'r ddwy flynedd nesaf i gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni ein hamcanion o ran atal a lleihau'r defnydd o lety gwely a brecwast. Byddaf yn adolygu'r angen am arian pellach drwy fonitro'r cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol yn rhoi eu strategaethau digartrefedd lleol ar waith.

| **Blwyddyn** | **Gwariant<br>(£ miliwn)** |
|---|---|
| 1999-2000 | 1.050 |
| 2000-01 | 2.336 |
| 2001-02 | 3.336 |
| 2002-03 | 4.620 |
| 2003-04 | 4.700 |
| 2004-05 | 4.917 |
| 2005-06 | 4.999 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Y Swm a Wariwyd gan Awdurdodau Lleol ar fynd i'r afael â Digartrefedd**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y swm a wariodd awdurdodau lleol ar fynd i'r afael â digartrefedd bob blwyddyn er 1997? (WAQ42058)

**Edwina Hart:** Mae'r symiau a gafodd eu gwario gan awdurdodau lleol ar ddigartrefedd ers sefydlu Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u nodi isod. Mae ffigurau am flynyddoedd cynharach i'w gweld yn y cyhoeddiad 'Welsh Local Government Financial Statistics', sydd ar gael o Lyfrgell yr Aelodau.

Yr wyf am weld yr awdurdodau lleol yn rhoi blaenoriaeth uwch i fynd i'r afael â digartrefedd, a hefyd yn ailgyfeirio'r symiau y maent yn eu gwario ar roi pobl mewn llety gwely a brecwast—tua £4 miliwn eleni mae'n debyg—at well gwaith atal a llety amgenach mwy addas.

| Blwyddyn | Gwariant net yr awdurdodau lleol ar ddigartrefedd<br>(£ miliwn) |
|---|---|
| 1999-2000 | 4.090 |
| 2000-01 | 4.008 |
| 2001-02 | 4.516 |
| 2002-03 | 5.927 |
| 2003-04 | 8.609 |

**Ffynhonnell:** Llywodraeth Cynulliad Cymru: Datganiadau alldro refeniw

**Nifer y Bobl a Ddosbarthwyd yn Ddigartref yn y Canolbarth a'r Gorllewin**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y bobl a ddosbarthwyd yn ddigartref yng nghanolbarth a gorllewin Cymru bob blwyddyn er 1997? (WAQ42059)

**Edwina Hart:** Mae'r dadansoddiad o'r niferoedd o bobl y canfuwyd eu bod yn statudol ddigartref yng nghanolbarth a gorllewin Cymru bob blwyddyn ers sefydlu Llywodraeth y Cynulliad fel a ganlyn:

**Aelwydydd a ddosbarthwyd yn ddigartref yng nghanolbarth a gorllewin Cymru (Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Phowys)**
**Nifer yr aelwydydd**

| | Cymwys, digartref, ond dim blaenoriaeth i'w hangen | Cymwys, digartref, â blaenoriaeth i'w hangen, ond felly'n fwriadol | Cymwys, digartref yn anfwriadol ac â blaenoriaeth i'w hangen | Pob aelwyd a ddosbarthwyd yn ddigartref |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 1999 | 415 | 56 | 460 | 931 |
| 2000 | 502 | 106 | 554 | 1,162 |
| 2001 | 658 | 167 | 843 | 1,668 |
| 2002 | 693 | 134 | 1,122 | 1,949 |
| 2003 | 840 | 150 | 1,693 | 2,683 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru, datganiadau ystadegol WHO12

**Nifer y Bobl a Ddosbarthwyd yn Ddigartref yng Nghymru**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y bobl a ddosbarthwyd yn ddigartref yng Nghymru bob blwyddyn er 1997? (WAQ42060)

**Edwina Hart:** Mae'r dadansoddiad o'r niferoedd o bobl y canfuwyd eu bod yn statudol ddigartref yng Nghymru bob blwyddyn ers sefydlu Llywodraeth y Cynulliad i'w weld yn y tabl isod. Mae ffigurau am gyfnodau cynharach i'w gweld yn y cyhoeddiad ‘Welsh Housing Statistics’.

**Aelwydydd a ddosbarthwyd yn ddigartref yng Nghymru**
**Nifer yr aelwydydd**

| | Cymwys, digartref, ond dim blaenoriaeth i'w hangen | Cymwys, digartref, â blaenoriaeth i'w hangen, ond felly'n fwriadol | Cymwys, digartref yn anfwriadol ac â blaenoriaeth i'w hangen | Pob aelwyd a ddosbarthwyd yn ddigartref |
|---|---|---|---|---|
| 1999 | 3,968 | 476 | 3,695 | 8,139 |
| 2000 | 4,238 | 510 | 4,156 | 8,904 |
| 2001 | 4,013 | 555 | 5,181 | 9,749 |
| 2002 | 4,425 | 608 | 6,437 | 11,470 |
| 2003 | 5,095 | 657 | 8,512 | 14,264 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru, datganiadau ystadegol WHO12

**Cost y Gwaith Atgyweirio Tai gan Awdurdodau Lleol**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gost y gwaith atgyweirio tai gan awdurdodau lleol bob blwyddyn er 1997? (WAQ42061)

**Edwina Hart:** Dangosir gwybodaeth am gost y gwaith atgyweirio tai a wnaed gan yr awdurdodau lleol bob blwyddyn ers sefydlu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y tabl isod. Mae ffigurau am flynyddoedd cynharach i'w gweld yn y bwletin ystadegol ‘Local Authority Housing: Management and Performance’. Mae'r ffigurau fel y maent wedi'u hadrodd gan yr awdurdodau lleol.

**Gwaith atgyweirio ar dai awdurdodau lleol yng Nghymru:**
**Gwariant ar atgyweirio a chynnal a chadw stoc y cyfrif refeniw tai (a)**

| | Cyfanswm y gwariant ar waith atgyweirio a wnaed (£ miliwn) |
|---|---|
| 1999-2000 | 103.1 |
| 2000-01 | 105.3 |
| 2001-02 | 105.1 |
| 2002-03 | 108.5 |

| | |
|---|---|
| 2003-04 | 112.3 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru: datganiadau ystadegol WHO4

(a) Nid amcangyfrifwyd y gost lle mae data ar goll.

**Gwasanaethau Post**

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cyflwyno unrhyw sylwadau i Weinidogion Llywodraeth y DU ynghylch 'cynllun adnewyddu' y Post Brenhinol? (WAQ42250)

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cyflwyno unrhyw sylwadau i Weinidogion Llywodraeth y DU ynghylch effaith Deddf Gwasanaethau Post 2001 a'i heffaith ar y gwasanaeth dosbarthu cyffredinol? (WAQ42251)

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau â Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch dyletswydd cyfreithiol Swyddfa'r Post i ddarparu gwasanaeth i bawb am bris cyson y gallant ei fforddio, ac a wnaiff roi manylion y trafodaethau hynny neu ddweud pryd y mae'n bwriadu eu cynnal? (WAQ42252)

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cyflwyno unrhyw safbwynt i Lywodraeth y DU ynghylch rhyddfrydoli'r gwasanaethau post, ac a wnaiff ddweud beth oedd y safbwynt hwnnw neu ddweud pryd y mae'n bwriadu cyflwyno'r safbwynt a beth fydd ei natur? (WAQ42253)

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cyflwyno unrhyw sylwadau i Weinidogion Llywodraeth y DU ynghylch gwneud i ffwrdd â swyddfeydd post teithiol, ac a wnaiff roi manylion y trafodaethau hynny neu ddweud pryd y mae'n bwriadu codi'r mater hwn a beth y bydd yn ei ddweud? (WAQ42254)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi cael trafodaethau gyda Don Touhig AS, Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru, ar nifer o bynciau yn ymwneud â'r Swyddfa Bost, ond nid yn benodol y rhai a restrwyd. Byddaf yn cwrdd ag ef eto'n fuan a byddaf yn codi'r rhain bryd hynny.

**Cau Swyddfeydd Post y Goron**

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cyflwyno unrhyw sylwadau i Weinidogion Llywodraeth y DU ynghylch cau swyddfeydd post y Goron, ac a wnaiff roi manylion y sylwadau hynny neu ddweud pryd y mae'n bwriadu codi'r mater hwn a beth y bydd yn ei ddweud? (WAQ42255)

**Edwina Hart:** Ysgrifennais at Mr Stephen Timms AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni, e-Fasnach a Gwasanaethau Post, am y mater hwn ym mis Mehefin 2003. Yr wyf hefyd wedi ysgrifennu at Don Touhig AS, Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru.

**Cau Swyddfeydd Post yng Nghyrmu**

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi sôn wrth Weinidogion Llywodraeth y DU am gau swyddfeydd post yng Nghymru ac a wnaiff roi manylion y trafodaethau hynny, neu ddweud pryd y mae'n bwriadu codi'r mater hwn a beth y bydd yn ei ddweud? (WAQ42256)

**Edwina Hart:** Ysgrifennais at y Gwir Anrhydeddus Patricia Hewitt AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant, ym mis Medi 2004 am y mater hwn.

**Gwasanaethau Swyddfa'r Post**

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi trafod â Gweinidogion Llywodraeth y DU beth pa effaith y bydd rhoi'r gorau fesul tipyn i'r llyfrau budd-daliadau a phensiynau a chyflwyno system dalu uniongyrchol yn

eu lle yn ei chael ar berfformiad Swyddfa'r Post, ac a wnaiff roi manylion y trafodaethau hynny neu ddweud pryd y mae'n bwriadu codi'r mater hwn a beth y bydd yn ei ddweud? (WAQ42257)

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi trafod â Gweinidogion Llywodraeth y DU beth fydd y drefn ymgeisio ar gyfer pobl sy'n dymuno cadw'u cyfrifon mewn swyddfeydd post, ac a wnaiff roi manylion y trafodaethau hynny neu ddweud pryd y mae'n bwriadu codi'r mater hwn a beth y bydd yn ei ddweud? (WAQ42258)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi ysgrifennu at Malcolm Wicks AS, y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau, ac Andrew Smith AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, am y materion hyn.

### Dyfodol System Swyddfa'r Post yng Nghymru

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch dyfodol system Swyddfa'r Post yng Nghymru ac yn gyffredinol, ac a wnaiff roi manylion y trafodaethau hynny? (WAQ42259)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi cael trafodaethau gyda Don Touhig AS, Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru.

### Effaith Datblygu Swyddfa'r Post

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi trafod â Gweinidogion Llywodraeth y DU beth fydd effaith datblygu Swyddfa'r Post ar ei gweithwyr, ac a wnaiff roi manylion y trafodaethau hynny neu ddweud pryd y mae'n bwriadu codi'r mater hwn a beth y bydd yn ei ddweud? (WAQ42260)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi ysgrifennu at Don Touhig AS, Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru, ar y mater hwn. Yn arbennig, yr wyf wedi dwyn i'w sylw bryderon Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu ynglyn â'r diffyg buddsoddi mewn peiriannau Flat Top 2000 mewn canolfannau post ar draws Cymru.

## Cwestiynau i'r Trefnydd

### Y Bwlch Cyflog Rhwng Menywod a Dynion

**Lisa Francis:** Yn dilyn WAQ41719, beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu ei wneud mewn perthynas â'r diffyg cynnydd yn y ffigur? (WAQ42003)

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu trafod gyda'r Comisiwn Cyfle Cyfartal a Chyngres Undebau Llafur Cymru pa gamau y gellir eu cymryd yn ystod trydydd cam yr ymgyrch i gau'r bwlch cyflogau.

### Yr Ymgyrch i Gau'r Bwlch Cyflog

**Lisa Francis:** Yn dilyn WAQ41719, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lwyddiant/methiant yr ymgyrch i gau'r bwlch cyflog? (WAQ42004)

**Jane Hutt:** Mae'r ymgyrch i gau'r bwlch cyflogau wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth o fater cyflogau anghyfartal rhwng dynion a menywod. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid yn bwriadu adeiladu ar y llwyddiant hwn ac ymgymryd â rhagor o waith i fynd i'r afael â phrif achosion y bwlch cyflogau rhwng y ddau ryw yng Nghymru.

Ni chaiff y problemau hyn eu datrys yn y tymor byr. Dim ond drwy ymgyrch wedi'i thargedu dros dymor hir y bydd agweddau ac arferion yn newid fel y bydd y bwlch cyflogau rhwng y ddau ryw yn cau.